



Chartered
Institute of
Housing
Cymru

GWOBRAU TAI CYMRU 2018

Compendiwm arfer da

Rhannu gwersi a ddysgwyd o Wobrau Tai Cymru 2018

#WHACymru

Noddwyd gan

LOVELL



Adnewyddu Cymunedau Trawsnewid Bywydau

O fewn Lovell, rydym yn adeiladu, yn adnewyddu, yn adfywio ac yn cynnal cartrefi a chymunedau ledled y DU.

Beth bynnag yr ydym yn ei wneud - boed yn adeiladu ac yn gwerthu cartrefi newydd, gosod cegin newydd neu adfywio cymuned – rydym yn anelu am ddim llai na rhagoriaeth yn y gwasanaeth a gynigiwn.

Ond ein pobl sydd yn gwneud y gwahaniaeth. Rydym yn ymrwymo i adael argraff gadarnhaol lle bynnag yr ydym yn gweithio, ac mae pob un ohonom eisiau chwarae eu rhan wrth newid bywydau pobl er gwell.

Mae Lovell yn falch iawn o noddi Gwobrau Tai Cymru eleni.



LOVELL

lovell.co.uk

A MORGAN SINDALL GROUP COMPANY

Gwobr datblygiad bach newydd		6
Tŷ Ryan	Cymdeithas Tai First Choice gyda Chyngor Sir Wrecsam, y Weinidogaeth Amddiffyn, Community Self-Build Agency (CSBA) a Williams Homes (Y Bala) Ltd	6
Trem-y-Cwm	Trivallis gyda Morganstone	8
Llys y Llyfrgell, Rhydyfelin	Grŵp Jehu gyda Trivallis	9
Llys Awen	Grŵp Tai Coastal gyda Pobl Care and Support	11
Gwobr datblygiad mawr newydd		13
Urban Quarter	Grŵp Tai Coastal gyda R&M Williams Ltd, Holder Mathias Architects a Provelio Ltd	13
Chiltern Close, Llanisien, Caerdydd	Tai Wales and West gyda Chyngor Caerdydd a Llywodraeth Cymru	14
Rhos yr Arian - Cartrefi Caerdydd	Wates Residential Partnership gyda Chyngor Dinas Caerdydd	16
Gwobr contractwr â ffocws ar y gymuned		18
Mi-Space ac Ymddiriedolaeth Gymunedol Clwb Pêl-droed Abertawe	Mi-Space gydag Ymddiriedolaeth Gymunedol Clwb Pêl-droed Abertawe a Gwasanaeth Anaf Trawmatig i'r Ymennydd Ysbyty Treforys	18
Cynllun Adfywio Maelfa	Grŵp Jehu gyda Chymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd	20
Creu Cymuned yn Nhreganna	Lovell gyda Tirion, Cymdeithas Tai Cadwyn a Chymdeithas Adeiladu Principality	21
Railway Close	ENGIE gyda Chymdeithas Tai Merthyr Tudful	23
Cartrefi Caerdydd - Cefnogi Cymunedau Cynaliadwy	Wates Residential South gyda Chyngor Caerdydd	24
Gwobr syniadau a dulliau newydd		26
Drysau Agored	Tai Pawb gyda'r Gymdeithas Landlordiaid Preswyl	26
Review together	Review Together gyda CHT De Cymru, Llywodraeth Cymru, Trivallis a Chyngor Caerdydd	28
Wake up to housing	Grŵp Pobl gyda Bron Afon a Llamau gyda NCH, Melin, CRISIS, a Gofal a Chefnogaeth Pobl	29
Porth y Gymuned	Cyngor Sir Ceredigion gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a CAVO	30

Gwobr gwerthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth		32
Dads can	Cymdeithas Tai Sir Fynwy	32
NuLife furniture	Cymdeithas Tai Cadwyn	33
QED – Ansawdd mewn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	Tai Pawb gyda Melin Homes	35
‘We All Matter’ – Prosiect Cynhwysiad Panel Tenantiaid	Linc-Cymru gyda Phanel Tenantiaid Linc-Cymru	36

Gwobr adeiladu cymunedau mwy diogel		38
Agweddau Trugarog at Ymddygiad Gwrthgymdeithasol	Trivallis	38
Go girls... ‘every 30 seconds’ ... working to create cse hostile communities	Tai Cymunedol Bron Afon gyda Grŵp Pobl	40
Porth Gwe free from fear	Grŵp Pobl gyda Thai Cymunedol Bron Afon, Tai Charter, Derwen Cymru Cartrefi Melin, Cymdeithas Tai Sir Fynwy, Newport City Homes, Cymdeithas Tai Unedig Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Tai Cymunedol Tai Calon, Tai Gwalia, Linc Cymru, Cyngor Dinas Casnewydd, Tîm DA Rhanbarthol Llywodraeth Cymru, Partneriaeth Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru (sy'n cynnwys y darparwyr tai cymdeithasol Cymoedd i'r Arfordir, Cyngor Sir Bro Morgannwg a Trivallis) a Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent	41
Taclo siarcod benthyca	Tai Tarian gyda Thai Coastal ac Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru	43

Gwobr gweithio gyda sectorau eraill		45
Awtistiaeth mewn Tai Cymdeithasol	Mi-Space gydag Outside	45
Fit & fed	Cymdeithas Tai Merthyr Tudful gyda Gemau Stryd Cymru, Bwrdd Iechyd Cwm Taf, Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful, Interlink, CBS Merthyr Tudful, CBS RhCT, Prosiect Ieuenctid 3G's, Fforwm Ieuenctid The Willows, Clwb Bechgyn a Merched Pant a Dowlais, Clwb Bechgyn a Merched Treharris , Sefydliad Gellidog, Think Family – MIA (Cymorth Ymyrraeth Luosog) a Barnardo's	46
Cefnogaeth magu plant tŷ nightingale	Cymdeithas Tai Cadwyn gyda Dechrau'n Deg	48

Gwobr grymuso a chynnwys cymunedau		50
Cydweithfa tai cymdeithas pentref loftus	Grŵp Pobl gyda Chymdeithas Pentref Loftus	50
Saving the terrace	Cymdeithas Tai Teuluoedd gyda Thenantiaid sy'n byw yn Hazel Court	52
The feeling is mutual	Tai Cymunedol Bron Afon	53
Grŵp tasg a gorffen gwasanaethau digidol cwsmeriaid	Newport City Homes	55

Gwobr rhagoriaeth cwsmeriaid		57
Strategaeth mewnwelediad cwsmeriaid	Cymoedd i'r Arfordir gyda Energise Learning and Development Ltd, Mustard Research Ltd, Greenstone Data Solutions Ltd a'r Sefydliad Gwasanaeth Cwsmeriaid	57
It's all about the base – our customer base	Cartrefi Conwy	59
Connecting Linc	Linc Cymru	60
Gwobr arloesedd cyfathrebu		62
Be like bob – get ready for universal credit	Cymdeithas Tai Unedig Cymru	62
Nudging your way to channel shift	Cartrefi Conwy gyda Collaborative Change	64
Gwobr cefnogi cenedlaethau'r dyfodol		66
Bron Afon	Bron Afon	66
Growing together	Grŵp Pobl gyda'r Gronfa Loteri Fawr a Gingerbread	67
Effaith ar iechyd a gwerth economaidd bodloni safon ansawdd tai cymru	Cyngor Sir Gâr gydag Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe	69
Gwobr sector rhentu preifat		71
Seraph property management	Seraph Property Management	71
Asiantaeth osod HAWS	Cartrefi Conwy gyda Chyngor Conwy	72
Calon residential living	Cymdeithas Tai Cadwyn gyda Chyngor Dinas Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	74
Adore Cardiff	Cymdeithas Tai Taf	75

TAI **EIN CARTREFI, EIN POBL, EIN DYFODOL 2019**

1 – 2 MAI 2019
SOPHIA GARDENS, CARDIFF

Gwobr datblygiad bach newydd

Noddwyd gan **WHQ**

Mae'r wobwr hon yn cydnabod datblygiadau newydd o 50 uned neu lai sy'n gwneud cyfraniad at gyflenwad neu fforddadwyedd tai yn eu hardal, neu sy'n diwallu angen nas diwallwyd yn flaenorol. Mae'r datblygiadau ar y rhestr fer wedi dangos:

- eu bod wedi cydweithio â'r gymuned leol i sicrhau bod anghenion cymunedol wedi'u diwallu gan y datblygiad
- effaith y datblygiad ar bobl leol. Gall enghreifftiau gynnwys y pethau canlynol, ond nid yw wedi'u cyfyngu iddynt: darparu ar gyfer angen nas diwallwyd yn flaenorol (e.e. pobl hŷn, deiliadaeth is) sy'n cael effaith arwyddocaol ar gyflenwad lleol, ac effaith arwyddocaol ar fforddadwyedd lleol, gan ddarparu cartrefi mewn ardaloedd sy'n anodd eu datblygu'n draddodiadol mewn (e.e. ardaloedd gwledig anghysbell)
- bod y dyluniad wedi cymryd dylunio i ystyriaeth ynglŷn â diben a natur weithredol y cartrefi a adeiledir - gallai hyn gynnwys dylunio ar gyfer pobl sydd â gofynion mynediad, pobl hŷn, neu ddylunio lefelau uchel o effeithlonrwydd ynni.

Tŷ Ryan

Cymdeithas Tai First Choice gyda Chyngor Sir Wrecsam, y Weinidogaeth Amddiffyn, Community Self-Build Agency (CSBA) a Williams Homes (Y Bala) Ltd.



Cyflwyniad

Datblygwyd Tŷ Ryan, cynllun hunan-adeiladu arloesol ar gyfer pobl a fu yn y lluoedd arfog diolch i bartneriaeth lwyddiannus rhwng Cyngor Sir Wrecsam, y Weinidogaeth Amddiffyn, Community Self-Build Agency (CSBA) a Williams Homes (Y Bala) Ltd.

Mae Tŷ Ryan yn cynnwys 10 fflat dwy ystafell wely a chwe fflat un ystafell wely. Mae'r cynllun yn ymgorffori fflat hygrych i gadair olwyn a dyluniwyd yn unigol ar y llawr gwaelod hefyd.

Fforddadwyedd

Roedd fforddadwyedd y cynllun hunan-adeiladu'n bwysig. Mae'r arian a dynnwyd i lawr o'r Weinidogaeth Amddiffyn wedi galluogi i rent gael ei osod ar lefel yr Awdurdod Tai Lleol. Mae hyn yn golygu y gall pobl a fu yn y lluoedd arfog gyrchu llety cost isel ac ansawdd uchel ac na fydd angen i unrhyw un sy'n dibynnu ar fudd-daliadau lles yn y tymor byr dalu lefelau rhent ychwanegol.

Roedd hyn yn allweddol i lwyddiant y cynllun ac fe'i adleisiwyd gan un o'r tenantiaid yn dilyn deiliadaeth:-

"Yn olaf hoffwn ddiolch unwaith eto i bawb yn First Choice gan gynnwys y tîm adeiladu. Rydych wedi rhoi cartref a gardd hyfryd i mi yr oedd wedi breuddwydio amdanynt o waelod fy nghalon nad oeddwn yn tybio y byddai byth ar gael y tu hwnt i'r sector preifat drud. Rydych wedi rhoi sylfaen i mi adeiladu fy mywyd arni eto. Daliwch ati!"

Mae dadansoddiad o gostau datblygu'r cynllun fel a ganlyn:-

Cyfanswm cost datblygu: £1,970,150.64

Cyllid gan y Weinidogaeth Amddiffyn: £1,585,851.00

Cyllid preifat FCHA: £354,299.64

Cyllid o'r Gronfa Tai Arloesol (IHF): £30,000.00

Buddion i'r Gymuned / Effaith ar yr ardal leol

Dyluniwyd y cynllun o gwmpas themâu lleol sy'n bwriadu i adeiladau newydd ffithio'n hwylus i'r gymuned amgylchynol a gwella nodweddion cymunedol, er enghraifft mae'r tir segur blaenorol a

ddynodwyd fel gorlifdir bellach wedi'i drawsnewid i ardal chwarae a gwair y gall teuluoedd, grwpiau cymunedol a phobl sy'n mynd â'u cŵn am dro ei ddefnyddio a'i fwynhau.

Mae'r cynllun wedi dod â grŵp o unigolion ynghyd efallai nad oeddent yn adnabod ei gilydd yn flaenorol, y bydd ganddynt brofiadau, anghenion a diben a rennir; gan greu ethos cymunedol ac ymdeimlad o berthyn cryf. Mae wedi creu ymdeimlad cryf a gwirioneddol o berchnogaeth, gan gydweithio fel tîm i ddatblygu a chyflwyno'r cartrefi newydd, ac wedyn byw fel cymdogaeth fel hinsawdd sefydledig o ysbryd cymunedol cadarnhaol.

Ystyriwyd cyflawni gwerth am arian gyda'r cynllun o'r cychwyn cyntaf o ran dylunio, costau, deilliannau a gwerth cymdeithasol. Yn ychwanegol at y deilliannau ar gyfer tenantiaid isod, cyflwynodd y cynllun fuddion arwyddocaol i'r gymuned, gan gynnwys:

- 598 person-wythnos o weithredwyr cyflogedig, cyflogaeth lled-fedrus, di-fedr a phrentisiaethau crefft
- 171 person-wythnos mewn cyflogaeth hyfforddiant a phrentisiaethau
- 29 o gyflenwyr lleol
- 14 o is-contractwyr lleol.

Cyflenwad lleol

Cefnogodd y cynllun Lywodraeth Cymru gyda'i dyheadau Llwybr Tai Cenedlaethol a Chyngor Sir Wrecsam gyda'i ymrwymiad AFCC i sicrhau bod gan bobl a fu yn y lluoedd arfog fynediad i lety a gwasanaethau o safon. Cynigiodd y cynllun gyfle i bersonél a fu yn y lluoedd arfog gael tenantiaeth ac ar yr un pryd caffael amrywiaeth o brofiad gwaith, hyfforddiant a chymwysterau mewn sgiliau adeiladu a / neu sgiliau eraill gysylltiedig ag adeiladu

Ystyriaethau dylunio a chynnaladwyedd

Adeiladwyd y cynllun hunan-adeiladu'n unol â safonau DQR ac fe gynigiodd fflatiau un a dwy ystafell wely mawr ac eang gyda meintiau cyfartalog uwchben maint y farchnad ar gyfer Wrecsam.

Cafodd un fflat ar y llawr gwaelod ei newid a'i addasu'n benodol i fod yn addas ar gyfer anabledl corfforol. Roedd yr addasiadau'n cynnwys cegin wedi'i haddasu, ystafell gawod mynediad gwastad a chyfarpar ystafell ymolchi arbenigol, defnydd o'i gardd ei hun a defnydd o'i mynedfa ei hun.

Cyflawnodd y cynllun radd effeithlonrwydd ynni o 81+. Defnyddiwyd deunyddiau cynaliadwy a chydannau effeithlonrwydd ynni gradd uchel gan gynnwys fframiau pren PEFC (o ffynhonnell gynaliadwy) a Diffutherm - bwrdd inswleiddio ffibr pren wedi'i ailgylchu. Cafodd y mesurau hyn effaith gadarnhaol ar strategaeth tlodi tanwydd y gymdeithas.

Canlyniadau a chyflawniadau

Cwblhaodd deg hunan-adeiladwr y rhaglen hunan-adeiladu, gan symud i'w fflatiau newydd ym mis Ebrill 2018.

Mae'r cynllun wedi cyflawni'r deilliannau anhygoel a ganlyn:-

- mae chwe thenant mewn cyflogaeth
- mae un tenant yn ymgymryd â chynllun hyfforddai
- mae dau denant yn ymgymryd â chysiau coleg
- mae tri thenant yn ôl mewn cysylltiad ag aelodau teulu yr oeddent wedi'u dieithrio ohonynt
- mae dau denant yn osgoi cosbau Credyd Cynhwysol
- mae saith tenant wedi pontio o'n cynllun symud ymlaen ar gyfer pobl a fu yn y lluoedd arfog
- darparwyd un byngalo a gardd y maent yn hygyrch i gadair olwyn

- lles meddyliol gwell
- cyflawnwyd ymdeimlad o gymuned
- crëwyd ardal chwarae / parc cymunedol o dir segur
- cyflwynwyd y cynllun fis yn gynharach na'r amserlen
- derbyniodd Diogel trwy Ddyluniad: Gwobr Aur.

Yn eu hadroddiad â'r teitl 'Gwerthuso effaith prosiectau hunangymorth wrth gefnogi pobl a fu yn y lluoedd arfog' yn 2016, daeth Prifysgol Gorllewin Lloegr i'r casgliad mai'r elw neu fudd i bobl a fu yn y lluoedd arfog ar gyfer pob punt a wariwyd oedd £2.62 ar lefel geidwadol a £7.17 ar yr uchafswm lefel. Mae'r manteision ar gyfer yr economi leol a'r pwrs cyhoeddus yn glir a cheir tystiolaeth ohonynt.

Trem-y-Cwm

Trivallis gyda Morganstone



Wrth ddylunio'r cynllun, roedd Trivallis yn ofalus i gadw trigolion y cynllun Trem-y-Cwm blaenorol wrth wraidd y prosiect. Cymerodd y trigolion ran wrth ddylunio pob agwedd ar y datblygiad newydd, gan amrywio o gynllun yr adeilad a'r mannau allanol i ddewisiadau dylunio mewnol a chynlluniau lliw. Adborth y trigolion oedd eu bod eisiau mwy o ofod awyr agored, ac o ganlyniad i hynny ymgorfforwyd balconïau preifat i ddylunio pob fflat unigol yn ychwanegol at yr ardaloedd gardd gymunedol. Mae nodwedd hon y dyluniad yn golygu mai Trem-y-Cwm yw'r cynllun tai lloches cyntaf yn Rhondda Cynon Taf sy'n rhoi balconi preifat i bob fflat. Roedd Trivallis yn awyddus i weithio gyda'r gymuned leol hefyd. Yn ystod y cam cynllunio, gwahoddwyd y gymuned leol i weld cynlluniau'r cynllun newydd, gyda'r rheolwr prosiect a'r pensaer yn ymweld â thrigolion yn eu cartrefi eu hunain i drafod y cynllun. Trwy gydol y cyfnod adeiladu, cynhaliodd Trivallis ddigwyddiadau niferus gyda'r prif gcontractwr, Morganstone, ar y safle ac i ffwrdd ohono er mwyn ennyn diddordeb y gymuned leol.

Mae'r datblygiad yn datblygu cartrefi fforddiadwy o safon uchel ar gyfer grŵp oedran penodol y mae angen mawr amdanynt, gyda'r cynllun newydd yn cael ei ddylunio ar gyfer pobl dros eu 60 oed. Nid oes unrhyw lety tebyg o fewn yr ardal, ac felly mae'r cynllun hwn yn llenwi bwlch yn y farchnad. Mae'n gartref i leoedd cymunedol newydd gan gynnwys ystafell lles, ystafelloedd cyfarfod a theras to y gall y gymuned leol a busnesau bach gael mynediad atynt a'u defnyddio. Mae Trivallis wedi cydweithio'n agos â busnesau lleol i'w galluogi i ddarparu gwasanaethau

i drigolion o'r adeilad, gan gynnwys; trin gwallt, trin traed, harddwch, ffisiotherapi a rhaglenni addysg. Gosodwyd pwyslais enfawr ar sicrhau bod busnesau lleol yn cysylltu â'r cynllun newydd, i alluogi tyfu busnesau lleol, creu swyddi a chynyddu gwariant o fewn Cymru yn ogystal ag integreiddio'r datblygiad wrth wraidd y gymuned.

Gan fod y datblygiad yn gynllun tai lloches, dilynwyd ystyriaethau dylunio penodol. Gan gydweithio'n agos â RNIB Cymru, mae Trivallis wedi sicrhau bod y prosiect yn cyflawni eu safon Blatinwm 'Visibly Better' - y lefel uchaf. Mae hyn yn gofyn bod y cwmni'n datblygu ac yn cynnal amgylcheddau hygyrch fel y gall pobl deimlo'n fwy hyderus wrth fynd o gwmpas ble maent yn byw. Mae cael amgylcheddau hygyrch yn golygu hefyd y gall pobl sydd â nam ar y golwg elwa o ddylunio cynhwysol ochr yn ochr â'r rhai sydd ag anableddau corfforol.

Er nad yw'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru, mae Trivallis wedi mabwysiadu egwyddorion gorau DQR o fewn y datblygiad ac wedi sicrhau ei fod yn cyflawni Cartrefi Gydol Oes yn llawn. Mae'r holl ardaloedd yn hygyrch mewn cadair olwyn gyda drysau a choridorau eang a mynediad mewn lifft. Mae'r ystafelloedd ymolchi ym mhob fflat wedi eu dylunio fel ystafelloedd gwlyb gyda chawodydd cerdded i mewn ac yn cynnwys dwy fynedfa - un o'r cyntedd ac un o'r ystafell wely - er mwyn hwyluso mynediad a gofynion hylendid. Cadwodd Trivallis mewn cof fod potensial i'r datblygiad ymddangos yn glinigol, sef ystrydeb o dai lloches. I oresgyn hyn, defnyddiodd Trivallis ddylunydd mewnol i helpu creu gofod byw modern ac atyniadol y gellir ei addasu nad yw'n edrych yn glinigol sy'n ymgorffori arfer gorau mewn dylunio, gan ganolbwyntio ar drigolion hyn, y rhai sydd â nam ar y golwg a'r rhai sydd â dementia. Mae pob llawr yn y fflat wedi derbyn lliw gwahanol fel y gall y trigolion hynny sy'n dioddef o ddementia adnabod yn haws ble mae eu fflat wedi'i lleoli.

Tystlythyr

"Mae pobl yn ein hardal yn haeddu tai o safon ragorol a dyma gynddelw o'r hyn y mae angen i ni ei weld yn cael ei gyflwyno ledled Cymru. Mae'r ffaith bod ganddo fannau cymunedol mor dda'n hanfodol ac mae'n fodel o'r hyn y dylai'r sector tai fod yn ei wneud."

Owen Smith, AS Pontypridd

Canlyniadau a chyflawniadau

Ennyn diddordeb ym myd addysg:

- Sgwrs ar Ddiogelwch Safleoedd yn Ysgol Gynradd Gwaunmeisgyn 15/07/2016
- Dylunio Byrddau Diogelwch Safle Ysgol Gyfun Bryncellynog
- Cyflwyniad Poster Ysgol Gynradd Gwaunmeisgyn 16/01/2017

Ennyn diddordeb y gymuned:

- Diwrnod Rhoi ac Elwa BITC 20/05/2016
 - Gwella Ysgol Bryncellynog
- Prynawn agored ar y safle 14/09/2016
 - 30 o aelodau'r gymuned
- Bore Coffi Macmillan 30/09/2016
 - 20 o sefydliadau partner
 - Codwyd £200
- Wythnos Weithredu BITC Cymru 16/10/2016
 - Gwirfoddolodd staff Morganstone a darparwyd lluniaeth ar y safle
- Diwrnod agored y Nadolig 09/12/2016
 - 20 o sefydliadau partner a 30 o aelodau'r gymuned
 - Codwyd £300 dros Age Cymru

- Diwrnod Rhoi ac Elwa BITC 12/05/2017
 - helpodd i adnewyddu ysgol leol ar gyfer plant sydd ag anableddau
 - 20 o sefydliadau partner
- Prynawn agored ar y safle ar gyfer darpar drigolion 09/05/2017 a 05/07/2017
- Rhoddion misol i fanc bwyd Pontypridd

Boddhad Trigolion

A'r trigolion yn byw yn eu cartrefi am flwyddyn erbyn hyn, yn ddiweddar mae Trivallis wedi cynnal arolwg boddhad. Y canlyniadau pennawd yw:

- mae 95% o'r trigolion yn hapus iawn gyda'r llety a ddarparwyd
- mae 85% yn fodlon ar yr ardaloedd cymunedol
- mae 80% yn fodlon ar y ffordd y mae eu cartref yn edrych o'r tu allan
- cred 100% fod eu cartref o'r maint iawn
- mae 100% yn fodlon ar y gorffeniad addurnol yn yr ardaloedd cymunedol
- mae 100% yn meddwl bod cyfleusterau lleol a chludiant cyhoeddus yn hawdd eu cyrraedd

Llys y Llyfrgell, Rhydyfelin

Grŵp Jehu gyda Trivallis



O ddylunio'r cysyniad trwodd i gwblhau adeiladu ym mis Tachwedd 2017, mae'r gymuned wedi bod wrth wraidd y prosiect, gan ennyn diddordeb dros 1,500 o aelodau'r gymuned Yr hyn a fu'n arwyddocaol wrth ennyn diddordeb yn y prosiect hwn oedd hyrwyddo tai fel rhywbeth cadarnhaol. Arweiniwyd y gwaith gan dîm ymroddedig o reolwyr prosiect ac ymgynghorwyr

a weithiodd dros Jehu fel y prif gontractwr a Trivallis fel y cleient. Yn gweddu i hyn oedd cydlynnydd ennyn diddordeb y gymuned penodol a gyflogwyd gan Jehu ar gyfer y safle hwn yn unig er mwyn sicrhau y bu'r gymuned yn rhan o bob agwedd ar y prosiect.

Cafwyd ymroddiad eithriadol gan y cydlynnydd a'r tîm ehangach wrth ennyn diddordeb y gymuned. Cyflwynwyd gweithgareddau ar gyfer pobl o bob oedran yn ystod y cyfnod adeiladu, gan amrywio o ymweliadau ag ysgolion a phrifysgolion, profiad gwaith, gweithio gyda phobl hŷn a chefnogi grwpiau cymunedol gan gynnwys creu 'Rhydyfelin Diamonds', menter a geisiodd annog trigolion hŷn i ymwneud â'r gymuned a chwrdd â phobl newydd trwy amrywiaeth o ddigwyddiadau ar y safle ac i ffwrdd ohono.

Mae datblygiad Llys y Llyfrgell yn Rhydyfelin wedi gweddnewid y stryd a chreu adeilad o safon uchel sydd bellach yn ganolbwynt ar gyfer y pentref. Oherwydd toriadau i'r gyllideb, cyhoeddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn 2014 y byddai'n cau Llyfrgell Rhydyfelin. Gyda'r gymuned leol yn hynod o drist am y posibilrwydd o golli'r llinell fywyd hon yn y pentref, chwiliodd Trivallis am gyfle i ymgorffori cyfleuster llyfrgell yn y datblygiad newydd.

Gan weithio mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol, trosglwyddwyd y tir i Trivallis am ddim a chyflwynwyd cyfleuster â'r holl gyfarpar diweddaraf gan gynnwys ystafell TG, ystafell gyfarfod gymunedol, ardal blant benodedig a darpariaeth lyfrgell well gan Jehu ynghyd â gofod masnachol mawr. Yn y pen draw, mae'r datblygiad newydd yn Llys y Llyfrgell wedi creu hyb cymunedol newydd wrth wraidd y pentref. Mae Trivallis a Jehu yn gadael etifeddiaeth hollbwysig gyda'r prosiect hwn trwy gynnwys y llyfrgell, a fydd ar gael ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol fel ei gilydd.

Tystlythyrr

"Mae'r cyngor wedi cydweithio'n agos â Trivallis, Grŵp Cefnogi Llyfrgell Rhydyfelin ac aelodau etholedig lleol i sicrhau bod y llyfrgell yn cynnwys yr holl gyfleusterau y mae eu hangen ar y gymuned leol. Y gobaith yw y bydd Llys y Llyfrgell yn mynd yn ganolbwynt yng nghymuned Rhydyfelin, gyda'r gwasanaeth llyfrgell newydd a gwell wrth ei gwraidd."

Maureen Webber, Dirprwy Arweinydd CBSRhCT

Gan fod y datblygiad yn gynllun tai lloches ar gyfer pobl dros 60 oed, dilynwyd ystyriaethau dylunio penodol. Gan gydweithio'n agos â RNIB Cymru, gwnaethom sicrhau bod y prosiect yn cyflawni eu

safon Aur 'Visibly Better'. Mae hyn yn gofyn bod Grŵp Jehu a Trivallis yn datblygu ac yn cynnal amgylcheddau hygyrch fel y gall pobl deimlo'n fwy hyderus wrth fynd o gwmpas ble maent yn byw. Mae cael amgylcheddau hygyrch yn golygu hefyd y gall pobl sydd â nam ar y golwg a namau synhwyrdd ehangach elwa o ddylunio cynhwysol ochr yn ochr â'r rhai sydd ag anableddau corfforol.

Er nad yw wedi'i ariannu'n llawn trwy grant, mabwysiadodd y cwmni egwyddorion gorau DQR, gan sicrhau cyflawni Cartrefi Gydol Oes yn llawn. Mae'r holl ardaloedd yn hygyrch mewn cadair olwyn gyda drysau a choridoriau eang a mynediad mewn lifft. Mae'r ystafelloedd ymolchi ym mhob fflat wedi eu dylunio fel ystafelloedd gwlyb gyda chawodydd cerdded i mewn ac yn cynnwys dwy fynedfa - un o'r cyntedd ac un o'r ystafell wely - er mwyn hwyluso mynediad a gofynion hylendid.

Cadwodd Jehu mewn cof fod gan y fath ddatblygiad y potensial ymddangos yn glinigol, sef ystrydeb o dai lloches. I oresgyn hyn, defnyddiwyd dylunydd mewnol i helpu creu gofod byw modern ac atyniadol y gellir ei addasu nad yw'n edrych yn glinigol sy'n ymgorffori arfer gorau mewn dylunio, gan ganolbwyntio ar drigolion hŷn, y rhai sydd â nam ar y golwg a'r rhai sydd â dementia.

Canlyniadau a chyflawniadau

Ennyn Diddordeb ym myd Addysg:

- lleoliad gwaith ar gyfer peiriannydd cyfnewid o Ffrainc
- ymweliad safle Ymddiriedolaeth leuenctid Adeiladu Clwstwr Taf
- ymweliad safle BSc Tirfesur Adeiladu Prifysgol De Cymru x5
- defnyddir y datblygiad fel prosiect cynddelw gan Adran Amgylchedd Adeiledig Prifysgol De Cymru
- ymweliad Ysgol Gynradd Heol-y-Celyn x2
- bwrdd safle a ddyluniwyd gan adran Celf Safon Uwch Ysgol Uwchradd Hawthorn.

Ennyn Diddordeb y Gymuned:

Creu 'Rhydyfelin Diamonds'

- 30 o aelodau'r gymuned

Noddi Sgowtiaid Hawthorn a Rhydyfelin

- 80 o aelodau'r gymuned

Bore Coffi Macmillan 30/09/2016

- Cododd 20 o sefydliadau partner, 40 o aelodau'r gymuned, £400

Diwrnod Agored Nos Galan Gaeaf 31/10/16

- 50 o aelodau'r gymuned

Creu 'Santa Sleigh' a noddi Cyngerdd Garolau Rhydyfelin 05/12/2016

- 150 o aelodau'r gymuned

Rhoddi Coeden Nadolig Rhydyfelin

- Noddi Parti Nadolig Pensiynwyr Rhydyfelin
- 60 o aelodau'r gymuned

Diwrnod Agored y Nadolig 15/12/16

- 100 o aelodau'r gymuned

Brecwast Dydd Gŵyl Dewi 01/03/2017

- 15 o sefydliadau partner

Diwrnod Rhoi ac Elwa BITC 12/05/2017

- Cymorth i adnewyddu ysgol leol ar gyfer plant sydd ag anableddau, 20 o sefydliadau partner

Diwrnod Hwyl Cymunedol Trivallis 28/07/17

- 1000 yn bresennol

3 Chopa Cymru Tŷ Hafan

- Codwyd £7000, gan gynnwys 10 o sefydliadau partner

Gwobr cydnabyddiaeth

- Ddaeth yn ail yng Nghystadleuaeth Byrddau Safle Adeiladwyr Ystyrion 2017
- Gwobr Aur yng Ngwobrau Cenedlaethol y Cynllun Adeiladwyr Ystyrion 2018
- Clod Uchel yng Ngwobrau LABC Bro Morgannwg 2018.

Llys Awen

Grŵp Tai Coastal gyda Pobl Care and Support



Mae Llys Awen yn gyfleuster tai â chymorth wyth ystafell wely yng Ngorseion ar gyfer pobl ifainc sydd ag anghenion cymhleth a ddatblygwyd gan Grŵp Tai Coastal mewn partneriaeth â'r asiantau rheoli Pobl, darparwr gwasanaethau tai a chefnogaeth cymysg ar gyfer pobl ar draws De Cymru.

Wedi'i ddylunio fel llety 'symud ymlaen' wedi'i deilwra, mae Llys Awen yn rhoi cyfle i bobl ifainc sy'n ddigartref, mewn perygl o fod yn ddigartref neu y mae angen eu hailgartrefu gaffael sgiliau byw annibynnol fel y gallant symud i lety annibynnol yn y pen draw. Daw'r bobl ifainc sydd wedi cael eu cyfeirio at Lys Awen o amrywiaeth o amgylchiadau gan gynnwys anawsterau ariannol, gofal maeth, digartrefedd ar y stryd neu amgylchedd cartref gelyniaethus. Mae'r datblygiad wedi ei ddylunio i ymdrin â throsiant uchel o drigolion os bydd angen.

Roedd Coastal wedi bod yn rhedeg cynllun tebyg yn Mount Pleasant, Abertawe, yn flaenorol, ond nid oedd yr adeilad yn addas i'r diben mwyach. I sicrhau bod y cynllun pwysig hwn yn parhau, datblygodd Coastal Lys Awen, adeilad amnewid a adeiladwyd at y diben trwy adfywio hen adeilad Coleg Gŵyr. Mae Coastal yn credu bod y math o adeilad a ddefnyddir fel cartref ar gyfer unigolion sydd â'r amgylchiadau hyn yn cael gwir effaith ar eu cynnydd - mae adeilad gwael yn cyfathrebu i denantiaid nad yw eu gwerth yn ddigon arwyddocaol, felly mae cael amgylchedd o safon uchel o'u cwmplas yn rhan annatod o sicrhau deilliannau cadarnhaol ar eu cyfer.

Mae'r datblygiad yn cynnwys wyth ystafell wely breifat ag ystafell ymolchi ynghlwm ar gyfer pob un o'r tenantiaid, ynghyd â gofod byw cymunedol, cegin, gweithdy, gardd a pharth dysgu. Mae'n cynnwys

cyfleusterau at ddefnydd y gymuned ac yn cynnwys llety a swyddfeydd staff, gan alluogi gwasanaeth tai â chymorth 24 awr. Mae'r ystafelloedd unigol yn darparu tenantiaid gyda'r lleoedd preifat eu hunain y maent yn gyfrifol amdanynt, i roi'r hyder iddynt reoli eu tenantiaeth eu hunain.

Defnyddiodd Llys Awen gyflenwad llafur lleol yn unig ar gyfer y datblygiad, gan benodi T.A.D. Builders o Lanelli, sy'n rhan o'r Cynllun Adeiladwyr Ystyrlon (CCS) - un o ofynion Coastal. Gwnaed ystyriaethau dylunio i alluogi mynediad gwastad, ac ymgorfforwyd cyfleusterau a rennir i annog trigolion i gymdeithasu ac ar yr un pryd creu naws gartrefol. Gwnaed yr ystafelloedd gwely yn llai na'r fflatiau eraill yn bwrpasol i annog trigolion rhag ymgynnull yn ystafelloedd ei gilydd ac annog defnyddio'r cyfleusterau cymunedol, gan wella lles ac atal ymddygiad dieisiau.

Dyluniwyd y cynllun fel na fyddai'n ymddangos yn sefydliadol, gan ddefnyddio deunyddiau cladin gwahanol gan gynnwys sinc a phren, yn ychwanegol at y rendro a brics traddodiadol ar y safle. Ymgorfforwyd nodweddion fel ffenestri allanol bach ac uchel i atal gyrru cyffuriau (rhag ofn y defnyddir y cyfleuster ar gyfer ailsefydlu). Mae'r adeilad newydd wedi cael ei ddylunio'n ofalus er mwyn cydweddu â'r ardal cymunedol a phreswyl sefydledig y mae wedi cael ei ddatblygu ynddi.

Cydweithiodd Coastal yn agos â'r gymuned leol i sicrhau y gallent leisio eu meddyliau ac unrhyw bryderon posib. O ystyried natur y cynllun, wrth reswm cafwyd rhai pryderon ynglŷn â chynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal amgylchynol. O'r 190 o eiddo cyfagos yr ymgynghorwyd â hwy, dim ond pedwar a gododd bryderon, ac ymdriniwyd â hwy oll mewn cyfarfod ymgynghori cyn-gynllunio. O ganlyniad i hyn, dechreuodd Coastal dderbyn llythyron o gefnogaeth gan aelodau'r gymuned a deimlodd y byddai'r datblygiad yn dileu adeilad salw ger canol Gorseionon a chynorthwyo adfywio'r dref ymhellach.

Bydd yr adeilad o fudd uniongyrchol i'r gymuned gan ei fod yn cadw man hyfforddi hyblyg sydd ar gael i'w ddefnyddio gan y gymuned neu'r asiant rheoli i gynig dosbarthiadau neu seminarau. Fe gaiff ei gynig hefyd i ddarparwyr a busnesau lleol hefyd, gan alluogi Coastal i sefydlu perthnasoedd gweithio cadarnhaol gydag asiantaethau a budd-ddeiliaid lleol. Mae Cymorth Menywod wedi mynegi diddordeb mewn defnyddio'r gofod bob wythnos am y tair blynedd nesaf.

Canlyniadau a chyflawniadau

- wrth gwblhau, llwyddwyd i roi cartref trwy Pobl i wyth o bobl y byddent fel arall wedi bod yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref
- creodd y prosiect chwe swydd newydd, 12 o leoliadau gwaith, saith prentis a rennir ar draws 134 o wythnosau gwaith, un prentis gosod brics newydd a 23 wythnos o hyfforddiant i gynyddu sgiliau'r gweithlu presennol, gan olygu bod 16 o unigolion wedi ennill cymwysterau
- adeiladwyd Llys Awen yn llwyddiannus o fewn y gyllideb, gan gymryd y broses adeiladu drud yng nghyd-destun y mathau o ddeunyddiau a ddefnyddiwyd i ystyriaeth
- goresgynnwyd heriau adeiladu sylweddol gan gynnwys adeiladu mewn ardal breswyl sefydledig gyda thŷ, eglwys a neuadd sgowtiaid gerllaw, a gyfyngodd ar y lle sydd ar gael ar gyfer cyfleusterau safle angenrheidiol
- mae'r gwasanaeth wedi datblygu cysylltiadau gyda chydlynnydd ardal leol Gorseinon a chysylltwyd â ni i gynnal gweithdai a gweithgareddau yn yr adeilad. Bydd hyn yn galluogi cyfleoedd pellach i bobl ifainc ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol yn y gymuned leol
 - ail-fuddsoddwyd £1.88 yn economi Cymru ar gyfer pob £1 a fuddsoddwyd
 - dargyfeiriwyd 210 tonnelli (100%) o wastraff o gael ei dirlenwi
 - £5,000 o gyfraniadau mewn da i fentrau lleol gan gynnwys Ysgol Gynradd Pontybrenin.

Gwobr datblygiad mawr newydd

Noddwyd gan

BLAKE
MORGAN

Mae'r wobwr hon yn cydnabod y datblygiadau newydd o 50 uned neu fwy sy'n gwneud cyfraniad at gyflenwad neu fforddadwyedd tai yn eu hardal, neu sy'n diwallu angen nas diwallwyd yn flaenorol. Mae'r datblygiadau ar y rhestr fer wedi dangos:

- eu bod wedi cydweithio â'r gymuned leol i sicrhau bod anghenion cymunedol wedi'u diwallu gan y datblygiad
- effaith y datblygiad ar bobl leol. Gall enghreifftiau gynnwys y pethau canlynol, ond nid yw wedi'u cyfyngu iddynt: darparu ar gyfer angen nas diwallwyd yn flaenorol (e.e. pobl hŷn, deiliadaeth is) sy'n cael effaith arwyddocaol ar gyflenwad lleol, ac effaith arwyddocaol ar fforddadwyedd lleol, gan ddarparu cartrefi mewn ardaloedd sy'n anodd eu datblygu'n draddodiadol mewn (e.e. ardaloedd gwledig anghysbell)
- bod y dyluniad wedi cymryd dylunio i ystyriaeth ynglŷn â diben a natur weithredol y cartrefi a adeiledir - gallai hyn gynnwys dylunio ar gyfer pobl sydd â gofynion o ran mynediad, pobl hŷn, neu ddylunio lefelau uchel o effeithlonrwydd ynni.

Urban Quarter

Grŵp Tai Coastal gyda R&M Williams Ltd, Holder Mathias Architects a Provelio Ltd.



Mae Urban Quarter yn gynllun defnydd cymysg, preswyl yn bennaf, a rennir ar draws ardaloedd Stryd Fawr a Strand Abertawe, gan gynnwys tair uned fanwerthu a 57 fflat, oll am rent fforddiadwy.

Mae'r datblygiad wedi ei ddylunio fel rhan o strategaeth ehangach Grŵp Tai Coastal i adfywio Stryd Fawr Abertawe sydd, fel llawer o ganolfannau trefol yn y Deyrnas Unedig, wedi profi dirywiad dros flynyddoedd diweddar. Roedd yr ardal, a fu'n galon fasnachol y ddinas ar un adeg, wedi dirywio gyda threflun diawen, annymunol yr oedd ymwelwyr a thrigolion fel ei gilydd yn ei gweld yn negyddol. Fel y prif gyswllt i gerddwyr o'r orsaf reilffordd, mae'r ardal

yn drothwy i ymwelwyr â chanol y ddinas a cheisiodd Coastal drawsnewid y ffordd y mae'r pwynt cyrraedd strategol bwysig hwn yn cael ei ystyried.

Y syniad sy'n sail i Urban Quarter yw adfywio'r ardal sy'n cynnwys y Stryd Fawr, y Strand a Kings Lane, gan weithio tuag at adfywiad economaidd y rhan hon o'r ddinas trwy ddod â phobl yn ôl i fyw yn yr ardal. Mae'r cysyniad o fyw yng nghanol y ddinas, gan ddod â bywyd yn ôl i'r ddinas, cynyddu nifer y bobl sydd yno ac felly cynyddu gwariant, yn sail i'r cynllun hwn.

Cwblhawyd cam cyntaf y cynllun ym mis Hydref 2017, gydag Urban Quarter yn creu buddion ar gyfer pobl leol trwy wella fforddadwyedd a darparu llety yng nghanol y ddinas y mae angen mawr amdano. Mae'r holl eiddo ar y cynllun yn cael ei osod ar gyfraddau tai cymdeithasol safonol mor isel â £77 yr wythnos.

Nododd ymchwil a gyflawnwyd gan Coastal brinder sylweddol o eiddo fforddiadwy yn yr ardal a diffyg tai ar gyfer trigolion sydd am gymudo i ganol y ddinas. Yn ystod y 12 mis cyn torri tir ar y datblygiad, derbyniodd Coastal alwadau gan dros 400 o bobl yn gofyn am lety un neu ddwy ystafell wely fforddiadwy yng nghanol y ddinas. Bydd y 57 fflat yn helpu ymdrin â'r galw hwn.

Mae'r unedau manwerthu, sydd wedi croesawu ystod o fusnesau annibynnol, yn fwyaf amlwg yn y diwydiannau creadigol, wedi helpu meithrin cefnogaeth dros fusnesau lleol a chyfrannu at yr economi leol, gan fynd yn lleoedd apelgar i bobl ymweld â nhw.

Bydd y datblygiad yn gwella cysylltedd â'r maestrefi cyfagos yn Abertawe tua'r dwyrain, yn ogystal â'r rhai ymhellach i ffwrdd. Mae'r cysylltedd gwell gyda

chludiant cyhoeddus o ganlyniad i hyn yn cyflawni amcan ehangach o leihau'r angen am deithio mewn car, gan ostwng costau tenantiaid ymhellach, creu buddion iechyd ehangach a helpu taclo tagfeydd a llygredd yn Abertawe.

Mae'r cynllun yn cynnwys datblygiad pensaernïol tirnod modern sy'n parchu hanes y Stryd Fawr, gan barhau i weddu i'w cymeriad ac ymddangosiad. Prynwyd adeilad rhestredig Gradd II fel rhan o gydosod tir ar gyfer y datblygiad, yr oedd Coastal yn bwriadu ei adnewyddu, er hynny bu'n rhaid ei ddymchwel oherwydd pryderon ynglŷn â'i gyfanrwydd adeileddol. Cydweithiodd Coastal yn agos ag adran gynllunio'r awdurdod lleol, CADW ac Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg a Gwent i sicrhau bod y datblygiad newydd yn ymgorffori ffasâd replica o'r adeilad rhestredig hwn.

Roedd trigolion wedi amlygu datgysylltiad rhwng natur fywiog y cynnig masnachol ar hyd y Stryd Fawr a Stryd y Gwynt a'r diffyg bywiogrwydd ar hyd y Strand - datgysylltiad a bwysleisiwyd gan newid mewn lefelau gan fod y Strand ar lefel sylweddol is. Bydd Urban Quarter yn anelu at ddileu'r hyn o beth.

Mae'r holl unedau preswyl wedi eu dylunio i fodloni gofynion Cartrefi Gydol Oes, gan sicrhau eu bod yn hygyrch ac y gellir eu haddasu i anghenion newidiol deiliaid, er mwyn lleihau'r posibilrwydd y bydd angen iddynt symud cartref wrth iddynt heneiddio neu brofi problemau iechyd. Mae'r fflatiau wedi cael eu hadeiladu i gyflwyno ardystiad lefel 3 y Côt Cartrefi Cynaliadwy hefyd ac mae'r perfformiad effeithlonrwydd ynni'n rhagori ar ofynion mandadol.

Canlyniadau a chyflawniadau

Symudiad cadarnhaol yn y ffordd y mae'r Strand a'r Stryd Fawr yn cael eu gweld, mae perchnogion eiddo a busnesau preifat ar y Stryd Fawr yn dewis buddsoddi yn eu hadeiladu trwy flaenau siopau newydd ac adnewyddiadau ac, yn achos Gwesty'r Grand, estyniad mawr.

Chiltern Close, Llanisien, Caerdydd

Tai Wales and West gyda Chyngor Caerdydd a Llywodraeth Cymru



Mae Chiltern Close yn ddatblygiad £10 miliwn o 82 o fflatiau ar safle tir llwyd gwag yn Llanisien, un o faestrefi mwyaf poblogaidd Caerdydd. Wedi'i anelu at y grŵp oedran dros 55 oed a'r rhai sydd ag anghenion hygyrchedd, mae wedi ei ddylunio i greu cymuned agos o fflatiau a hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol.

Mae'r ardal wedi gweld twf mewn datblygu preswyl gyda tai teulu a fflatiau preifat gerllaw, gan ddarparu cymuned gynaliadwy ar gyfer trigolion hŷn y cynllun yn y dyfodol.

Wedi'i adeiladu mewn pum bloc, gyda phob un o'r blociau tri llawr yn cynnwys rhwng 11 a 19 o fflatiau, mae Chiltern Close wedi'i ddylunio gan gadw cynhwysiad cymdeithasol mewn cof ac yn ceisio creu ymdeimlad o le ac osgoi amgylchedd oeraidd ac anghyfeillgar blociau fflatiau graddfa fawr.

Bydd y fflatiau'n gymysgedd o 66 o fflatiau un ystafell wely a 16 o fflatiau dwy ystafell wely gyda balconïau cymunedol lle gall trigolion cwrdd a chreu cyfeillgarwch. Mae dyluniad y datblygiad wedi'i greu i gyflawni ymdeimlad o gymuned a pherthyn gyda'r fynedfa i bob bloc yn wynebu tua'r tu mewn a thuag at ei gilydd, yn hytrach na sefyll yn unigol.

Bydd gan bob bloc fflatiau ardal gyntedd estynedig ger y fynedfa lle gall pobl eistedd a sgwrsio gyda'u cymdogion. Bydd hyn yn creu ymdeimlad o berthyn ar gyfer trigolion, y byddent ar yr un pryd yn gallu mwynhau preifatrwydd a diogelwch eu fflatiau eu hunain.

Fe'i dyluniwyd gan ddilyn profiad ac adborth gan drigolion mewn cynllun Tai Wales and West ar gyfer pobl hŷn a gwblhawyd yn ddiweddar eu bod yn gwerthfawrogi mannau cyfarfod lle gallent weld eu cymdogion ar hap a chael sgwrs.

Gan hynny, galwodd y briff dylunio ar y canllawiau HAPPI (Panel Arloesedd Tai ar gyfer ein Poblogaeth sy'n Heneiddio) i greu cartrefi deniadol, modern a chyfoes gyda hybiau mynedfa dan do cyfforddus a gofodau awyr agored llonydd a dymunol lle gallai trigolion weld eu cymdogion yn rheolaidd a chreu sgysiau.

Roedd agweddau eraill y dyluniad a'r fanyleb yn cynnwys y canlynol:

- cyflawnwyd y gofynion dylunio ac ansawdd (DQR) gan gynnwys y safonau Cartrefi Gydol Oes a Diogel trwy Ddyluniad
- mae'r lefelau inswleiddio ar gyfer pob fflat yn uwch na'r hyn sydd yn y rheoliadau adeiladu presennol
- offer rheoli gwresogi syml
- storfeydd diogel, penodedig ar gyfer parcio bygis
- cawodydd mynediad gwastad ym mhob fflat
- cyfleusterau sychu cymunedol allanol lled-breifat
- tirweddu deniadol gyda choed maint mwy ar ymyl y safle a gwelyau plannu addurnol mwy meddal o gwmpas y blociau, sy'n haws na gwair i'w cynnal a'u cadw.

Mae'r adeiledd yn anarferol gan fod rhannau mawr o'r cartrefi - gan gynnwys ffenestri, casetiau llawr a tho - yn cael eu cynhyrchu oddi ar y safle cyn cael eu cludo i'r safle fel unedau i'w cydosod. Golyga'r dechneg hon y bydd cartrefi'n cael eu hadeiladu'n fwy cost-effeithiol, o fewn graddfeydd amser mwy tynn, yn aml gydag ôl troed carbon iachach na datblygiadau sy'n defnyddio dulliau adeiladu traddodiadol.

Bydd y cartrefi hefyd yn defnyddio cynnyrch inswleiddio chwyldroadol o'r enw 'TrisoWarm Hybrid Insulated Panel' - mae'r panel cyfan yn cael ei inswleiddio o fewn amgylchedd ffatri. Mae gan y cynnyrch, a ddatblygwyd gan y contractwyr JG Hale ac a dderbyniodd gymeradwyaeth gan BBA y llynedd, y potensial i leihau biliau gwresogi a chyfnodau adeiladu'n sylweddol.

Trwy ddefnyddio'r system TrisoWarm ynghyd â'r contractwyr cynhyrchu oddi ar y safle, gall JG Hale gwblhau'r datblygiad yn gyflym heb orfod ystyried tywydd gwael a'r prinder bricwyr presennol.

Mae'r lleoliad yn ffactor allweddol yn y datblygiad hwn. Mae Llanisien yn faestref boblogaidd yng Nghaerdydd, gyda chymuned fywiog a rhwydwaith gwasanaethau a gefnogir yn dda. Mae arosfa fysiau a gorsaf reilffordd ar y garreg drws gyda chysylltiadau rheolaidd â chanol y ddinas a chymunedau gerllaw, gyda'r nod o ostwng defnydd trigolion o geir. Er hynny bydd 39 o leoedd parcio, gan gynnwys wyth lle anabl, yn cael eu darparu.

Mae Chiltern Close yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd ac fe gaiff ei gwblhau yn rhan gyntaf 2020.

Canlyniadau a chyflawniadau

Creu ymdeimlad o le:

Mae dyluniad y datblygiad wedi cael ei greu i gyflawni ymdeimlad o gymuned. Rhoddwyd y briff i bum cwmni pensaer a chynhaliwyd cyfweiliadau â hwy i gyflawni hyn orau. Bydd dyluniad dewisedig Powell Dobson yn creu cymuned gydlynol gyda'r fynedfa i bob un o'r blociau'n wynebu tua'r tu mewn a thuag at ei gilydd, yn hytrach na sefyll yn unigol. Bydd gan bob bloc ardal gyntedd estynedig/hyb cymdeithasol ger y fynedfa lle gall pobl eistedd a sgwrsio gyda'u cymdogion. Mae hyn yn osgoi'r angen am ystafelloedd cyffredin, gan wneud lefel y tâl gwasanaeth yn fwy fforddiadwy.

Diwallu anghenion tai yng Nghaerdydd:

Bydd Chiltern Close yn cyflawni'r angen am lety deniadol ar gyfer trigolion hyn sydd ar hyn o bryd yn tan-feddiannu cartrefi teulu mwy sylweddol yng Nghaerdydd, sydd wedi'i amlygu yn Strategaeth Tai Cyngor Caerdydd 2016-2021.

Mae tua 2,000 o bobl dros 50 oed ar restr aros tai Cyngor Caerdydd, yn bennaf ar gyfer llety un ystafell wely hygyrch. Pan gaiff ei gwblhau mae ganddo'r potensial i ryddhau 82 o gartrefi teulu cymdeithasol mwy sylweddol.

Manteision ar gyfer yr economi a chymunedau lleol:

- disgwylir i hyd at bedwar o brentisiaid newydd weithio ar y safle gyda'r contractwyr JG Hale Construction. Bydd hefyd yn cefnogi'r gadwyn gyflenwi a'r economi leol.
- mae JG Hale yn bwriadu buddsoddi bron £40,000 yn ôl i mewn i gymunedau Tai Wales and West, gan gynnwys cynlluniau i adnewyddu neuadd sgowtiaid adeiliedig ger y safle.

Rhos yr Arian - Cartrefi Caerdydd

Partneriaeth Breswyl Wates gyda Chyngor Dinas Caerdydd



Rhos yr Arian yw datblygiad cyntaf rhaglen Cyngor Caerdydd a Phartneriaeth Breswyl Wates, Cartrefi Caerdydd (CC). Mae CC yn fenter partneriaeth adfywio ar y cyd yng Nghymru i gyflwyno tai fforddiadwy newydd uchel eu hansawdd ac ar yr un pryd adfywio cymunedau a dod â safleoedd a danddefnyddir yn ôl i ddefnydd. Mae ansawdd y dylunio a chreu lleoedd wedi bod wrth wraidd y broses, er mwyn creu cymunedau newydd a bywiog ac i'w hintegreiddio i'r hyn sydd eisoes yn bodoli o'u cwrmpas. Penodwyd Wates yn bartner i Gyngor Caerdydd ym mis Ionawr 2016

Bydd CC yn cyflwyno 1500 o gartrefi dros gyfnod o ddeng mlynedd:

- 600 o gartrefi i'w rhentu gan gynnwys nifer i'w prynu trwy Gynllun Perchentaeth â Chymorth y Cyngor
- 900 o gartrefi i'w gwerthu
- pob cartref wedi'i frandio'n Gartrefi Caerdydd
- deiliadaeth niwtral ei hymddangosiad.

Wrth wraidd CC mae cyflwyno buddiannau buddsoddi cymunedol trwy hyfforddiant/gyflogaeth, cyfleoedd cadwyn gyflenwi ac adeiladu capasiti yn y cymunedau rydym yn gweithio ynddynt.

Mae Cartrefi Caerdydd yn cael ei gaffael mewn tri cham. Mae pum cynllun ar y safle ac mae pum yn cael eu datblygu'n barod i'w dechrau ar y safle o fewn y 12 mis nesaf. Mae pymtheg cynllun pellach yn destun arfarniadau dichonolrwydd cychwynnol ar hyn o bryd a bwriedir i dri dderbyn caniatâd cynllunio cyn Nadolig 2018. Dechreuodd gwaith galluogi ar Rhos yr Arian ym mis Ebrill 2017 gyda'r gwaith adeiladu newydd yn dechrau ym mis Mehefin 2017.

Yr angen am dai

Datblygwyd cymysgedd y cynllun mewn ymgynghoriad â Chaerdydd i ddiwallu anghenion tai ac mae'n cynnwys unedau hygyrch a chyfran uwch

o unedau llai fel fflatiau i'w rhentu ac i'w gwerthu, i ddenu'r rhai sy'n symud i gartref llai a'r rhai sy'n prynu am y tro cyntaf

Dylunio

Mae Rhos yr Arian yn ddatblygiad o 58 o gartrefi Cyngor fforddiadwy gyda 134 ar werth. Datblygodd Caerdydd eu safon ddylunio eu hunain ar gyfer y prosiect gyda dylunio o safon wrth ei wraidd, gyda'r nod o hyrwyddo creu lleoedd a chymuned gynaliadwy newydd. Mae enghreifftiau o'r dull hwn yn cynnwys:

- dyluniadau tirlunio meddal a chaled uchel eu hansawdd
- sgwâr werdd ffurfiol a sgwâr bloc fflatiau ganolog newydd
- strydoedd sydd â choed ar eu hyd
- ymyl werdd feddal sy'n ymgorffori nodweddion SUD
- dyluniad athraidd a chroyw pan fo'n hollbwysig, heb gyfaddawdu diogeledd
- mathau o gartrefi a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer y prosiect gan gynnwys fflatiau llawr gwaelod hygyrch ac unedau mabwysiedig.
- adolygiadau a beirniadaethau dylunio manwl a chynhwysfawr
- menter 'Dylunio'r Addewid' Wates i sicrhau y cynhelir ansawdd y dyluniad
- adolygiadau comisiwn dylunio Cymru

Cyflwyno masnachol

Mae CC yn cynrychioli partneriaeth i gyflwyno tai fforddiadwy newydd heb gyllid GTC. Mae'r model yn gweithio trwy:

- dir a ddarperir gan y cyngor
- arbenigedd datblygu Wates a chynlluniau derbyn cyllid o'r cychwyn cyntaf hyd at gynllunio a dechrau ar y safle
- Wates i ddarparu cartrefi fforddiadwy am y gost
- Wates i gymryd risg wrth werthu cartrefi ar y farchnad agored am elw sydd wedi'i gapio
- elw cymysg cyffredinol wedi'i gapio
- mecanwaith cyfartalog ar gyfer cynnydd mewn incwm o werthu

Bydd 40% o'r cartrefi i'w gwerthu a'u rhentu am gost fforddiadwy a bydd 60% i'w gwerthu ar y farchnad agored. Mae'r cymysgedd ar bob safle yn benodol i'r prosiect datblygu; mae Rhos yr Arian yn 70% gwerthu a 30% fforddiadwy.

Perfformiad ynni

Bydd yr holl eiddo'n cyflawni gwelliant o 17% uwchben y rheoliadau adeiladu trwy ddull ffabrig yn gyntaf a ddatblygwyd mewn cydweithrediad â BRE, er mwyn ymdrin â thlodi tanwydd mewn ffordd gynaliadwy.

Arloesedd yn y dyfodol

- caffael pedwar safle trwy ddatrysiad modiwlaid, gydag unedau'n cael eu cydosod mewn ffatrioedd gwib yn y ddinas
- mae Rhos yr Arian wedi cael caniatâd yn ddiweddar ar gyfer cynllun Passivhaus fforddiadwy a gwerthu marchnad agored o 42 o gartrefi.

Buddsoddi cymunedol

Mae Rhos yr Arian yn cyflwyno rhaglen buddsoddi cymunedol hynod uchelgeisiol, gan gynnwys:

- creu partneriaeth agos gydag Ysgol Meadowlane, gan gyflwyno mwy na 177 o oriau o ennyn diddordeb

- mewn prosiect wedi'i deilwra gwelwyd plant yn dylunio eu cartrefi delfrydol
- gweithdai o dimau dylunio i'r safle
- ymweliadau â chartrefi arddangos ar gyfer mwy nag 80 o blant
- cynhaliwyd menter beilot gyda Sefydliad y Deillion Merthyr a Paint 360 i gyflwyno byrddau safle gan ddefnyddio paent lleol wedi'i ail-beiriannu, a chyfrannwyd at ein gwariant o £100k ar fenter gymdeithasol yn lleol.

Tystlythyr

"Mae cynllun Cartrefi Caerdydd yn dod yn ei flaen yn wych Mae Wates yn gwneud cynnydd da iawn ar draws y ddinas hefyd ac mae'n gyfnod cyffrous gyda'n tai fforddiadwy cyntaf ar fin cael eu cwblhau cyn diwedd y flwyddyn. Mae Cartrefi Caerdydd yn dod â thai fforddiadwy newydd o safon i'r ddinas ar gyfer y bobl y mae arnynt eu hangen fwyaf ac, yn arwyddocaol, cyfrannu at ein targed o gyflwyno 2,000 o gartrefi cyngor newydd yn y ddinas."

Lynda Thorne, Aelod Cabinet, Tai a Chymunedau.

Canlyniadau a chyflawniadau

- enghraifft rhagorol o bartneriaeth rhwng yr awdurdod lleol, cleient, contractwr, tîm dylunio a chadwyn gyflenwi
- y pum cartrefi fforddiadwy cyntaf i gael eu trosglwyddo ar ddiwedd 2018
- 20 o gartrefi wedi'u gwerthu hyd yma
- prosiect o safon sy'n ffocysu ar ddylunio
- cymysgedd tai wedi'i yrru gan yr angen am dai fforddiadwy i'w gwerthu a'u rhentu
- manau gwyrdd wedi'u creu a nodweddion SUD wedi'u hymgorffori
- adfywio ac ansawdd dylunio wedi'u gwireddu
- gwelliant 17% mewn perfformiad ynni.
- sgôr Contractwr Ystyrlon o 41

- darparu cartrefi fforddiadwy ac i'w gwerthu
- cynhaliwyd digwyddiad cadwyn gyflenwi
- gwariant o £60k+ ar fenter gymdeithasol
- gwariant o £3m+ ar MBaCh ar y safle hyd yma yn ail chwarter 2018
- 135+ o oriau ennyn diddordeb mewn ysgolion lleol
- rhoddion gwerth dros £2,000 i ysgolion lleol
- ymweliad archeolegol â'r safle gan yr ysgol
- 100+ o ymwelwyr â'r safle trwy fentrau addysg
- 77% o MBaCh y gadwyn gyflenwi o fewn rhanbarth y ddinas.

Contractwr â ffocws ar y gymuned

Noddwyd gan



Mae'r wobwr hon yn cydnabod cyfraniad contractwyr tuag at y gymuned ac economi leol. Bydd y sefydliadau ar y rhestr fer wedi ymwreiddio cyflwyno buddion cymunedol yn eu rhaglenni gwaith. Maent wedi dangos:

- yr effaith leol y mae eu gwaith ar fuddion cymunedol wedi'i gyflwyno
- eu bod wedi cofleidio'r agenda recriwtio a hyfforddi a dargedir, gan gyflwyno swyddi a chyfleoedd hyfforddi'n lleol
- eu bod wedi rhagori ar eu hymrwymiad i greu buddion ar gyfer economi Cymru a darparu buddion i'r gymuned leol.

Mi-Space ac Ymddiriedolaeth Gymunedol Clwb Pêl-droed Abertawe

Mi-Space gydag Ymddiriedolaeth Gymunedol Clwb Pêl-droed Abertawe a Gwasanaeth Anaf Trawmatig i'r Ymennydd Ysbyty Treforys



Ym mis Mehefin 2017 cysylltodd Mi-Space ag Ymddiriedolaeth Gymunedol Clwb Pêl-droed Abertawe (SCCT) mewn ymgais i ddod o hyd i bartner newydd i gydweithio â hwy i wella'u rhaglen gwerth cymdeithasol bresennol yn y ddinas. Mae Mi-Space wedi bod yn gweithio yn Abertawe fel partner i ganol y ddinas, gan gyflwyno ceginau ac ystafelloedd ymolchi newydd mewn tua mil o gartrefi bob blwyddyn. Yn ogystal â gweithio gyda nifer o bartneriaid lleol eraill fel Beyond Bricks and Mortar a Cyfle, teimlodd Mi-Space fod mwy o gwmpas i greu partneriaethau newydd i dyfu ein hetifeddiaeth yn Ninas Abertawe.

Mae SCCT yn bodoli i wella ffordd o fyw unigolion a chymdogaethau o Ben-y-bont ar Ogwr i Hwlfordd. Mae'r ymddiriedolaeth gymunedol yn gwneud hyn

nid yn unig trwy gyflwyno prosiectau a sesiynau i wella iechyd a ffitrwydd pobl, ond trwy helpu addysgu mewn ysgolion a helpu pobl i oresgyn rhwystrau i ddod o hyd i gyflogaeth.

Ar ôl cyfarfod cychwynnol rhwng Mi-Space a SCCT, sefydlwyd rhaglen fentrau a fyddai'n gweld Mi-Space yn hwyluso cyfleoedd ar gyfer pobl yn ardal Abertawe mewn partneriaeth â'r ymddiriedolaeth gymunedol. Mae'r fenter wedi cynnwys:

- darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth asbestos ar gyfer tri deg o unigolion sy'n ddi-waith dros yr hir dymor er mwyn cynorthwyo nhw gyda'r cymwysterau y mae eu hangen i gyrchu'r diwydiant adeiladu neu ddychwelyd iddo
- cyflwyno sgysiau i adawyr ysgol yn ardal Dinas Abertawe i'w hysbysu am yr amrywiaeth o gyfleoedd a rolau sydd ar gael yn y diwydiant adeiladu a sut i fynd ati i chwilio am y cyfleoedd hyn
- ymgymryd â sesiynau 'Barod-am-Waith' ar gyfer pobl sy'n ddi-waith dros yr hir dymor gan gynnwys sgiliau llunio cv, sgiliau ac ymarfer cyfweliad a chysylltu pobl gydag asiantaethau a busnesau sydd am recriwtio staff newydd
- darparu cyfleoedd profiad gwaith uniongyrchol ar gyfer pobl ar brosiect Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi Abertawe, gan gynnig cyfle i bobl ddangos eu sgiliau, ymroddiad a doniau gwaith mewn amgylchedd byw

- yn fwy diweddar, trwy ei bartneriaeth gyda SCCT, mae Mi-Space wedi dod ynghyd gyda Gwasanaeth Anaf Trawmatig i'r Ymennydd Ysbyty Treforys ac yn darparu cyfleoedd i bobl sydd ag anafiadau niwrolegol gwblhau eu hailsefydlu trwy gyfleoedd dychwelyd i'r gwaith.

Bu deilliannau'r partneriaethau y mae Mi-Space wedi bod yn rhan ohonynt yn niferus gyda nifer o'r ymgeiswyr yn dod o hyd i gyflogaeth amser llawn ar y prosiect gan gynnwys; Rhydian Evans (QS) Jack Samuel (QS) Bobby Gray (llafurwr) Jack Gray (llafurwr) Matthew Dixon (sgaffaldiwr) Ben Parkin (plwmwr), Billy Morgan (paentiwr), Tom Jones (trydanwr), Leighton James (plastrwr), Jay Thomas (plwmwr), Sarah Groves (TLO).

Y fenter fwyaf cyffrous a gwobrwyol o bell sydd gan Mi-Space yw'r gwaith y mae'r cwmni'n ei wneud gyda Gwasanaeth Anaf Trawmatig i'r Ymennydd Ysbyty

Treforys. O ganlyniad i'r bartneriaeth hon, mae Mi-Space yn medru cynnig rhaglenni 'dychwelyd i'r gwaith' yn ardal Abertawe ar gyfer pobl sy'n gweld na allant ddychwelyd i'w dewis gyrfa gwreiddiol am resymau meddygol neu ymarferol yn dilyn anaf trawmatig i'r ymennydd. Effeithir yn enfawr ar eu hymdeimlad o ddiben wrth sylweddoli hyn, ac eto maent yn parhau'n benderfynol o adennill eu hannibyniaeth, cefnogi eu hunain a'u teuluoedd a mwyaf eu gweithrediad cymdeithasol. Mae Mi-Space wedi darparu nifer o gyfleoedd i ymgeiswyr sydd wedi'u hadnabod gan Wasanaeth Anaf Trawmatig i'r Ymennydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (BI PABM) gyrchu cyfleoedd dychwelyd i'r gwaith mewn amgylchedd diogel, cadarn a chefnogol.

Canlyniadau a chyflawniadau

Amcan cyfranogiad Mi-Space gyda SCCT oedd rhagori ar ddisgwyliadau a rhwymedigaethau ein perthynas gontract gyda Chyngor Abertawe a gadael etifeddiaeth yn y cymunedau y mae'r cwmni'n gweithio ynddynt.

Mae creu 11 o brentisiaethau, sydd wedi arwain at gyflogaeth amser llawn barhaus ar gyfer pawb dan sylw, wedi'i ategu gan waith Mi-Space gyda'r Uned Anaf Trawmatig i'r Ymennydd.

"Mae Mi-Space wedi rhoi cefnogaeth frwd i'r prosiect 'Sign Up To Success' gan gynnig cefnogaeth mewn meysydd niferus fel hyfforddiant pellach, profiad gwaith, cyflogaeth a chyfarpar ar gyfer dysgwyr. Mae Mi-Space yn dangos iddynt ba ymddygiad a ddisgwyllir gan bobl mewn diwydiant. Mae Mi-Space wedi dod â dimensiwn newydd ac mae eu cefnogaeth yn werthfawr tu hwnt"

Helen Felton – Pennaeth Cymunedau, SCCT

"Mae Mi-Space wedi bod yn bartner hynod ragweithiol wrth geisio gweithio gyda Gwasanaeth Anaf Trawmatig i'r Ymennydd Treforys yn ein hymdrechion i ddod o hyd i gyfleoedd cyflogaeth ar gyfer ein cleifion sydd am ddychwelyd i gyflogaeth yn dilyn eu hanaf. Rydym yn gyffrous iawn i fod yn gweithio gyda Mi-Space ar gynlluniau lleoliad gwaith ac yn ymchwilio i ddulliau ehangu hwn yn sylweddol"

Helen Hughes; Therapydd Galwedigaethol, Gwasanaeth Anaf Trawmatig i'r Ymennydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (BI PABM), Ysbyty Treforys, Abertawe.

Cynllun Adfywio Maelfa

Jehu gyda Chymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd (CCHA)



Yn ystod Cynllun Adfywio Maelfa mae dull Jehu yn y gymuned wedi ymwneud â datblygu partneriaeth hir dymor gyda CCHA. Gweithiodd y cwmni gyda CCHA i ddatblygu cynllun gweithredu buddiant cymunedol strategol, i greu effaith gadarnhaol gyffredinol ar gyfer yr amcanion busnes ac anghenion ehangach y gymuned. Mae'r cynllun hwn yn sicrhau bod yr holl bartion yn ymwneud ag ac yn ymrwymo i weithio ar y cyd i gyflawni mwy gyda'i gilydd na'r dull contractwr traddodiadol.

Mae Jehu yn integreiddio'r arfer busnes cyfrifol hwn trwy eu gweithrediadau bob dydd sy'n cael eu cyflwyno trwy'r cynllun. Mae'r broses hon wedi cynorthwyo Jehu i ymwreiddio busnes cyfrifol yn eu harferion craidd a'i hidlo trwodd i'w gadwyn gyflenwi, gan alluogi nhw i ddiwallu anghenion eu cleientiaid ac ar yr un pryd diogelu a gwella'r gymuned ehangach.

Recriwtio a hyfforddi a dargedir (TR&T)

Mae taclo cyflogadwyedd, ychwanegu gwerth ac ymgorffori cynhwysiad cymdeithasol yn rhan bwysig o'r contract hwn, yr angen am gryfhau'r economi leol a chreu cymunedau mwy cynaliadwy. Mae Jehu wedi rhoi rhaglen TR&T ar waith a chynnig nifer o gyfleoedd cyflogaeth, prentisiaeth a lleoliad gwaith trwy'r cwmni a'u his-contractwyr.

Ennyn diddordeb ysgolion

Fel rhan o'r cynllun mae Jehu wedi ennyn diddordeb ysgolion lleol a'r gymuned ehangach trwy fynychu a chyflwyno digwyddiadau lleol gyda CCHA. Mae'r gweithgareddau hyn yn cefnogi pobl ifainc ac yn hyrwyddo'r diwydiant adeiladu fel llwybr gryfa posib. Mae rhai o'r digwyddiadau a fynychwyd fel a ganlyn:

- Rhaglen SHEP Ysgol Gynradd Llanedern ac Ysgol Gynradd Springwood
- Digwyddiad gyrfaoedd Opportunity Knocks yn Powerhouse

- Digwyddiad Keeping it Equal yn Stadiwm Dinas Caerdydd
- Sgwrs iechyd a diogelwch ac ymweliad safle Ysgol Uwchradd Teilo Sant
- Diwrnod Hwyl Mawr CCHA Maelfa
- Digwyddiad cymunedol Nos Galan Gaeaf
- Digwyddiad cymunedol y Nadolig.

Diwrnodau gweithredu cymunedol

Mae Jehu yn ymwneud yn gyfredol â dau ddiwrnod gweithredu cymunedol - cynllun ardal ddysgu awyr agored Ysgol Gynradd St John Lloyd a chynllun Canolfan Ieuencid Maelfa.

Mae achos busnes cryf dros redeg rhaglen wirfoddoli, yn gyntaf oll i ddatblygu staff a'r gymuned ehangach yn barhaus ac agor yr holl gyfleoedd i fyny iddynt. Yr ail symbylydd allweddol yw gwneud newid diriaethol a chadarnhaol i'r cymunedau yr ydym i gyd yn byw ac yn gweithio ynddynt.

Tystlythyron

"Diolch yn fawr am heddiw, rydym yn ddiolchgar tu hwnt. Er gwaetha'r tywydd roedd yn ddiwrnod gwych, hollol anhygoel. Diolch yn fawr i chi unwaith eto, mae pawb yn Ysgol Gynradd Gatholig St John Lloyd mor ddiolchgar am eich cymorth a chefnogaeth gyda'r ardal ddysgu awyr agored."

"Cawsom ddiwrnod anhygoel yn yr ardd gyda'r plant heddiw!"

Maria Shore, SLTA Blynnyddoedd Cynnar, Ysgol Gynradd St John Lloyd

"Roedd yn ddiwrnod gwych a gwobrwyol o wirfoddoli ac yn llawer o waith caled, yn y glaw. Fel tîm o 14 o bobl gan gynnwys CCHA, Jehu, staff a rhieni St John Lloyd a'r rhoddion caredig gan ein contractwyr/cyflenwyr, roeddem yn gallu gwneud iddo ddigwydd. Bydd y plant a'r staff yn yr ysgol hon yn mwynhau hyn am flynyddoedd lawer, roedd yn bleser llwyr i fod yn rhan ohono."

Natalie Pillinger, Cydlynnydd Cymunedau ac Adfywio, CCHA

Gweithio gyda MBaCh a'r effaith llusoi arian lleol

Gweithio gyda MBaCh a chefnogi'r economi leol yw'r camau ymlaen tuag at greu dyfodol mwy cynaliadwy. Mae'r diwydiant adeiladu mewn sefyllfa unigryw i gefnogi twf economaidd a newid cymdeithasol.

Mae Jehu yn defnyddio cadwyn gyflenwi leol i helpu cyflwyno'r contract hwn sy'n gysylltiedig â'r cynllun TR&T, gan barhau i weithio gyda CCHA i gyflwyno eu Rhaglen JETS, cynllun cyflogadwyedd uchel ei statws i gefnogi tenantiaid sy'n profi diweithdra neu dlodi tra'n gweithio. Mae Jehu hefyd yn gweithio gyda'r ganolfan swyddi leol, Y-Prentis a rhaglenni cyflogadwyedd argymelledig eraill i daclo'r materion cyflogadwyedd lleol ac ymgorffori cynhwysiad cymdeithasol.

Canlyniadau a chyflawniadau

Isod mae rhestr o'r deilliannau y mae Jehu wedi'u cyflawni trwy gyflwyno Cynllun Adfywio Maelfa.

Cyfleoedd cyflogaeth amser llawn:

- Daniel Martin – llafurwr lleol
- Craig Ullah – briciwr lleol
- Hyfforddai – dymchwel baddon.

Prentisiaid:

- Ieuan Humphreys – plastrwr (deufis)
- Calum Powell – plastrwr (deufis)
- Anthony Stevens – saer coed (pum mis)
- Nathan Jenkins – briciwr (pedwar mis)
- Lee McDonald – sgaffaldiwr (deufis).

Ennyn diddordeb ysgolion:

- Digwyddiad Opportunity Knocks - enynnwyd diddordeb 50 o ddisgyblion Ysgol Gynradd St Philip Evans, Ysgol Gynradd Llanedern, Ysgol Gynradd Springwood, Ysgolion Uwchradd Illtud Sant ac Eastern
- Diwrnod Hwyl Maelfa 2017/18 – enynnwyd diddordeb 900 o'r rhai a oedd yn bresennol a 26 o sefydliadau partner.

- Digwyddiad Keeping it Equal – enynnwyd diddordeb 400 o fenywod ifainc 11-25 oed, gan ymdrin â swyddi anhraddodiadol, herio ystrydebau rhyw ac ehangu gorwelion gyrfa.

Canlyniadau'r Diwrnod Gweithredu:

- crëwyd adeiladu gallu'r gymuned
- datblygwyd perthynas gref gyda'r gymuned leol
- busnesau a chymunedau sy'n gweithio mewn ffordd fwy cysylltiedig
- teyrngarwch a chymhelliad staff cynyddol
- datblygu sgiliau personol a phroffesiynol cynyddol ar gyfer staff a'r gymuned
- ardaloedd cymunedol lleol gwell ac wedi'u mwyhau
- cafodd y busnes effaith gadarn ar gymuned sydd ag angen cymdeithasol
- dyheadau a hyder cynyddol ymysg cymunedau lleol
- codwyd proffil a brand yr holl fudd-ddeiliaid dan sylw, trwy gysylltiadau cyhoeddus cadarnhaol.

Creu Cymuned yn Nhreganna

Lovell gyda Tirion, Cymdeithas Tai Cadwyn a Chymdeithas Adeiladu Principality



Cymuned, addysg, cyflogaeth a chynnaladwyedd yw pedwar congrfaen ymrwymiad Lovell i fuddion cymunedol cynaliadwy.

I Lovell, y nod bob amser yw mynd ymhellach na'r sefyllfa bresennol, gan ymdrechu i adael etifeddiaeth sy'n parhau. Yn achos Y Felin, aeth y cwmni ati i greu ymdeimlad cynyddol o gymuned mewn ardal y

cefnwyd arni'n flaenorol. Gan gael effaith gadarnhaol ar economi Cymru, nid yn unig trwy greu swyddi newydd, ond hefyd trwy mewnlfriad o drigolion newydd. Mae datblygiad Y Felin wedi llwyddo i adfywio un o safleoedd tir llwyd mwyaf Caerdydd, gan greu cartrefi o safon y mae angen mawr amdanynt yn agos at ganol y ddinas.

Gyda'u partneriaid Tirion a Cadwyn, bydd Y Felin yn un o'r rhaglenni adfywio trefol mwyaf erioed yng Nghymru gydag 800 o gartrefi newydd. Cydran allweddol isadeiledd economi Cymru yw tai fforddiadwy o safon uchel a reolir yn dda. Ymdrin â'r angen hwn yw un o'r blaenoriaethau allweddol ar y safle, sef dyna pam y maent yn cynnig cartrefi ag ystod eang o brisiau, gan alluogi iddynt fod ar gael ar gyfer pob lefel o brisiau, yn unol â pholisi tai fforddiadwy Lovell. O ganlyniad i'r polisi hwn gwerthwyd 85 o'r 108 o gartrefi sydd wedi'u gwerthu hyd yma i brynwyr tro cyntaf - dyna dros 79%. At hynny, mae dros 400 o gartrefi'n cael eu cynnig trwy rent ar ddisgownt a rhent cymdeithasol, a bydd y cartrefi sy'n weddill ar gael ar y farchnad agored trwy Lovell.

Mae dros 120 o drigolion yn byd yn Y Felin ar hyn o bryd, gan gryfhau'r economi leol ymhellach.

Mae'r enw Lovell yn gyfystyr â rhagoriaeth mewn perthynas â gwerth cymdeithasol ac ymrwymadau

hyfforddi. Er mwyn cryfhau hyn ymhellach, mae Lovell wedi sefydlu 'Grŵp Cyflogaeth a Hyfforddiant Y Felin' gyda chynrychiolwyr Ymddiriedolaeth y Tywysog, Grŵp Tirion, Tai Cadwyn, Cymunedau'n Gyntaf, Gyrfa Cymru, Coleg Caerdydd a'r Fro, CITB, Yr Ymddiriedolaeth Adeiladu, Cynllun Y Prentis, Ex Forces Career & Transition Partnership.

Pan gaeodd yr hen felin bapur Arjo Wiggins ei drysau dros 20 mlynedd yn ôl, collwyd 460 o swyddi a gadawyd y gymuned gyda safle diffaith a gyfrannodd ddim byd, erbyn hyn mae dros 1,000 o swyddi wedi eu creu trwy'r datblygiad gan roi hwb y mae angen mawr amdano i'r economi leol.

Un o'r llwyddiannau mwyaf hyd yma yw cwrs 'Get into Construction' Lovell, a gyflwynwyd ar y cyd gydag Ymddiriedolaeth y Tywysog. Rhoddwyd cyfle i 16 o oedolion ifainc lleol sy'n ddi-waith wella'u cyfleoedd cyflogadwyedd. Cynnig sgiliau cyfweiliad/llunio cv, sgiliau penodol i adeiladu trwy samplu'r crefftau amrywiol y mae eu hangen yn Y Felin, caffael cymhwyster ieuchyd a diogelwch a cherdyn Cynllun

Tystysgrif Sgiliau Adeiladu. Wrth gwblhau, mae un hyfforddai wedi symud ymlaen i gael prentisiaeth grefftwr gyda Lovell a thri eraill gyda phartneriaid cadwyn gyflenwi'r cwmni.

Mae Otis, sy'n un ar ugain oed, yn creu ei yrfa newydd mewn adeiladu ar ôl cymryd rhan yn y cwrs, a leolwyd yn Y Felin.

Tystlythyr

"Rwyf wir yn teimlo fy mod wedi glanio ar fy nhraed. Mae'r brentisiaeth yn llwybr da i mi fod arno a bydd yn agor cyfleoedd newydd i fyny ar fy nghyfer. Byddaf yn gallu ehangu fy mhrofiadau o grefftau gwahanol ac mae'r opsiwn o symud i mewn i reoli hefyd. Dyma safle mawr iawn a bydd y profiad yr wyf yn ei gael yn werthfawr am weddill fy ngyrfa. Mae gweithio ar y cynllun yn golygu llawer i mi - rwy'n dod o ardal Treganna ac yn y dyfodol bydda i'n gallu gyrru heibio a dweud yr oeddwn yn rhan ohono."

Otis Simpson, 100fed cyflogai Lovell ac ymgeisydd Get into Construction.

Canlyniadau a chyflawniadau

Mae Lovell yn ymroddedig i adael "Etifeddiaeth Lovell" a thros y 18 mis diwethaf mae hyn wedi'i gyflawni trwy:

- ddarparu 58 wythnos o brofiad gwaith
- sicrhau bod 61% o'r cyfanswm gwariant sy'n cyfateb i £886,516.33 wedi ei sicrhau gyda chwmnïau yng Nghymru
- siarad â thros 500 o ddisgyblion lleol ac annog menywod i ymwneud ag adeiladu trwy gymryd rhan yn y digwyddiad 'Keeping it Equal'.
- 250 o oriau gwirfoddoli Lovell
- fel aelod cyswllt o'r Cynllun Adeiladwyr Ystyrlon, mae Lovell yn dangos parch ac ystyriaeth at y cymunedau cyfagos gyda sgôr bresennol o 43/50

- creu sied feiciau i storio beiciau Ysgol Gymraeg Treganna ar Sanatorium Road yn ddiogel, tarmacio llwybr newydd er diogelwch rhieni a gwarcheidwaid wrth iddynt gasglu eu plant a herio'r disgyblion gyda phrosiect i enwi un o'r strydoedd ar y datblygiad
- cefnogi Gŵyl Caerau a Threlái, cymryd rhan yn y 'Fenter Rhoi ac Elwa', lle gwirfoddolodd pump o'u staff fel dyfarnwyr yng ngŵyl rygbi tag blynyddol Gleision Caerdydd gan godi dros £1400 dros Ymchwil Canser Cymru yng Ngŵyl Badau Draig Caerdydd
- adnewyddu ystafelloedd newid Parc Jiwbilî yn Nhreganna.

Railway Close

ENGIE gyda Chymdeithas Tai Merthyr Tudful



Yn ENGIE 'Cymuned: mae wrth wraidd popeth a wnawn'. Mae eu gwaith yn mynd y tu hwnt i frics a mortar, maent yn cydnabod ei fod yn bwysig dros ben i gefnogi pobl leol a'u mentrau, i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl.

Mae'r tîm yn integreiddio'n llawn i'r cymunedau y mae'n gweithio ynddynt, i sicrhau bod y busnes yn gadael etifeddiaeth sy'n parhau ac effaith gadarnhaol ar yr ardal. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn unig, mae ENGIE wedi ymroi dros £10k i brosiectau cymunedol ac elusennol yn Ne Cymru.

Mae ENGIE ym ymroddedig i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant ar gyfer pobl leol, gyda 40% o'n gweithlu yng Nghymru'n hyfforddeion neu'n brentisiaid.

O wasanaethau ac ymweliadau safle i weithdai a sesiynau cyflogadwyedd â thema adeiladu, mae ENGIE yn gweithio gydag ysgolion a cholegau i'w hysbysu am beryglon chwarae ar safleoedd adeiladu, a helpu ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o ddoniau'r byd adeiladu.

Astudiaeth Achos – Railway Close, Walters Terrace

Penodwyd ENGIE gan Gymdeithas Tai Merthyr Tudful (MTHA) i adeiladu datblygiad tai £2.5 miliwn yn Aberfan, de Cymru.

Mae'r datblygiad Railway Close yn Walters Terrace yn cynnwys 23 o gartrefi; cymysgedd o fflatiau a thai teulu am rent fforddiadwy. Mae'r cynllun yn cynnwys saith cartref a addaswyd yn benodol i ddiwallu anghenion symudedd trigolion.

Fel teyrnged i hanes Railway Close, achubwyd y wal gerrig wreiddiol a fu'n perthyn i lwyfan yr orsaf reilffordd ac fe'i ail-adeiladwyd mewn tri lleoliad ar y safle, a dadorchuddiwyd plac gan Faer Merthyr Tudful, Y Cynghorydd Clive Tovey, i nodi agor y datblygiad yn swyddogol.

Yn ogystal â dod â chartrefi y mae angen mawr amdanynt i'r ardal, mae'r cynllun wedi galluogi ENGIE i ddarparu allbynnau gwerthfawr i'r gymuned leol, gan gynnwys:

- rhoi dros 250 awr i brosiect cymunedol ac elusennol lleol yn Aberfan
- cynnal diwrnodau agored ar gyfer trigolion sydd wedi'u hailgartrefu
- codi arian dros Gronfa Goffa Aberfan ar gyfer digwyddiad blynyddol nodi trychineb Aberfan
- cynnal dawns i gefnogi'r elusen cam-drin domestig Hafan Cymru
- rhoddi 10 tunnell o raeon i Ganolfan Plant a Theuluoedd Trinity ac adeiladu ramp i wneud eu gardd yn hygyrch i gadeiriau olwyn.

Tystlythyr

Meddai Tania Stephens, Rheolwr Canolfan Plant a Theuluoedd Trinity: *"Ni allwn ddiolch digon i ENGIE am gefnogi ni fel prosiect cymunedol. Am ddarparu deunyddiau a staff i osod rampiau sy'n arwain i'n buarth chwarae - gan alluogi ein plant sy'n gaeth i gadeiriau olwyn gael mynediad at ardaloedd chwarae'n well. Ac am ddarparu nifer o ymweliadau safle i alluogi ein plant i ymweld a chael gwybod am waith adeiladu yn ein cymuned. Hoffem ddiolch iddynt am ein gwneud yn rhan o'r prosiect a dod â'r gymuned ynghyd."*

At hynny, mae'r cynllun wedi galluogi ENGIE i ddarparu cyfleoedd hyfforddiant/cyflogaeth ar gyfer pobl leol, gan gynnwys:

- creu saith prentisiaeth, tri lleoliad profiad gwaith
- gweithio gydag ysgolion cynradd lleol yn Aberfan, darparu gweithdai â thema adeiladu ac ymweliadau safle
- gweithio gydag ysgolion uwchradd lleol yn Aberfan, gan ddarparu sesiynau ymwybyddiaeth iechyd a diogelwch.
- gweithio gydag aelodau'r grŵp ieuenctid lleol i'w cynorthwyo gydag ehangu eu rhaglen cyfranogiad cymunedol trwy helpu plant i adeiladu gwesty pryfed ar y safle
- gweithio mewn partneriaeth â MTHA a Communities for Work i lansio rhaglen hyfforddiant Induction to Construction ar gyfer 12 o ymgeiswyr, gan olygu y bydd aelodau'r gymuned yn ennill cymwysterau, hyder a chyflogaeth amser llawn
- darparu sesiynau ffug gyfweliadau i fyfyrwyr chweched dosbarth mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru i roi'r cyfle gorau iddynt gael swydd.

Meddai Lee Jones, Rheolwr Datblygu Cymunedol MTHA: *"Mae'r rhaglen digwyddiadau cymunedol a hwyluswyd gan ENGIE wedi rhagori'n fawr ar ddisgwyliadau'r gymdeithas tai; maent yn gredyd i'r fasnach adeiladu."*

Canlyniadau a chyflawniadau

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ENGIE wedi rhoi dros 1,400 o oriau person i brosiectau cymunedol/ elusennol a 400 o oriau gwerth cymdeithasol ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth/hyfforddiant yn Ne Cymru, gan gynnwys:

- buddsoddi dros £10k mewn CSR i roi'n ôl i'r gymuned leol
- codwyd arian dros elusen Tŷ Hafan, gan gynnwys aelodau staff a gymerodd ran yn y 'Bubble Rush Run' yng Nghaerdydd, dros y blynnyddoedd diwethaf mae'r tîm wedi codi'r swm anhygoel o £35k dros achosion elusennol
- cyfradd olyniaeth 100% ar gyfer prentisiaid, ymgeiswyr profiad gwaith ac ymgeiswyr Induction to Construction a sicrhodd gyflogaeth bellach ar ôl cwblhau eu hamser ar y datblygiad, gydag un yn mynd ymlaen i ennill gwobr Dysgwr Ennyn Diddordeb Hyfforddeiaeth y Flwyddyn yn y Gwobrau People Plus

- ennyn diddordeb dros 55 o ysgolion i ddarparu dros 200 o sesiynau gweithdy a 70 o gyfleoedd profiad gwaith
- mynychu dros 60 o ffeiriau gyrfaedd i ddysgu myfyrwyr am yrfaedd yn y byd adeiladu
- noddwyd y prosiect menter Tyfu Punt mewn ysgol gynradd leol fel ffordd o ddysgu disgyblion sut i reoli eu harian eu hunain.
- noddwyd y gystadleuaeth bresenoldeb Be In to Win mewn Ysgol Uwchradd yng Nghymru, sy'n gwobrwyo myfyrwyr gyda'r sgorau presenoldeb cyffredinol uchaf.

Cartrefi Caerdydd - Cefnogi Cymunedau Cynaliadwy

Wates Residential South gyda Chyngor Caerdydd



Mae Wates Residential (WR) yn rhan o'r cwmni teulu Wates Group, a sefydlwyd ym 1897, ac erbyn hyn yn un o fusnesau gwasanaethau adeiladu, datblygu ac eiddo preifat blaenllaw Prydain. Mae'n cyflogi tua 4,000 ac fe gynhyrchodd drosiant o £1.62bn yn 2017.

Yn 2016 lofnododd WR bartneriaeth menter ar y cyd mwyaf Cymru gyda Chyngor Dinas Caerdydd, 'Cartrefi Caerdydd'. Mae hon yn addo cyflwyno 1,500 o gartrefi y mae angen mawr amdanynt ar draws y ddinas erbyn 2026.

Mae gan y bartneriaeth gynllun buddsoddi sy'n amlinellu ymrwymadau clir, clyfar a mesuradwy; gan ganolbwyntio ar sgiliau a hyfforddiant cyflogaeth, twf economaidd, cydlyniant cymunedol, ennyn diddordeb a chyfrannu at addysg. Mae'r holl ymrwymadau'n cael eu monitro a'u harchwilio; gan gynhyrchu adroddiad chwarterol.

Gan fod y bartneriaeth unigryw hon yn ymestyn dros ddeng mlynedd mae wedi galluogi Cartrefi Caerdydd i ganolbwyntio ar brosiectau tymor hwy sydd â mwy o effaith a chanlyniadau mesuradwy, yn y cymunedau rydym yn gweithio ynddynt.

Cwblhaodd y fenter ar y cyd ei blwyddyn gyntaf ers dechrau ar y safle'n ddiweddar ac mae wedi parhau i fynd o nerth i nerth, gan gyflwyno canlyniadau go iawn yn barod. Mae mynd i'r afael â diweithdra'n lleol a darparu mentrau hyfforddiant i gefnogi hyn yn uchel ar agenda Cartrefi Caerdydd. Mae hyn wedi cynnwys rhedeg nifer o gynlluniau a gweithio ar y cyd gyda sefydliadau lleol i ddatblygu syniadau blaengar pellach ar gyfer dyfodol y cynllun.

Gan weithio gyda CAVC a Career Ready, mae'r bartneriaeth yn cefnogi myfyrwyr BTEC Lefel 3 mewn Adeiladu gan ddarparu mentora a chynnig tair interniaeth â thâl wrth gwblhau. Mae hyn yn galluogi ni i helpu pontio'r bwlch sgiliau yng Nghymru, gan gefnogi cydlyniant cymunedol cynyddol ac annog gostyngiad yn nifer y bobl sy'n symud allan o Gymru i chwilio am swyddi/hyfforddiant.

Cynigiwyd cwrs pythefnos nodedig Wates, Building Futures, i oedolion o ardal Caerdydd sy'n ddi-waith dros yr hir dymor hefyd. Gan gydweithio'n agos â'r gwasanaeth prawf a'r tîm 'I Mewn I Waith' a arweinir gan y cyngor, adnabuwyd 13 o ymgeiswyr. Graddiodd pob un, gan ennill tystysgrifau BTEC lefel 1, CSCS, marsialu trafndiaeth, trin a thrafod â llaw ac ymwybyddiaeth asbestos. O fewn wythnos ar ôl cwblhau'r cwrs, roedd pump ymgeisydd wedi sicrhau gwaith amser llawn, tri ohonynt gyda Wates. Mae cynigion swydd a lleoliadau profiad gwaith yn y broses o gael eu gwneud i'r ymgeiswyr eraill gan bartneriaid y gadwyn gyflenwi.

Er mor ymrwymedig y mae'r cwmni i bontio bwlch sgiliau'r diwydiant, maent yn deall nad yw adeiladu'n addas ar gyfer pawb. Mae'r cwmni eisiau sicrhau ei fod yn effeithio ar ac yn cefnogi cynifer o bobl â phosib yn y cymunedau y maent yn gweithio ynddynt ac ar yr un pryd yn gwella'r economi leol. Eleni noddwyd yr Ysgol Fusnes Wib ganddynt ar y cyd, rhaglen arloesol newydd a welodd dros 60 o bobl yn elwa o gwrs pythefnos am ddim sy'n darparu cefnogaeth ac arweiniad i gychwyn busnes heb y gost gychwynnol neu fynd i ddyled. Profodd i fod yn hynod o lwyddiannus, gan roi hwb i hyder, hapusrwydd a hunan-effeithlonrwydd y rhai a gymerodd ran.

Mae mentrau cymdeithasol (MC) a MBaCh Lleol wedi bod yn faes arall y canolbwyntiwyd arno, gan gynnal taith Gweld yw Credu yng Nghaerdydd i

arddangos busnesau lleol er mwyn dangos eu heffaith gymdeithasol ar yr ardal leol. Mae'r cwmni hefyd wedi cefnogi a mentora rhai o'r cwmnïau lleol hyn i'w helpu ennill achrediadau a fydd yn galluogi nhw i weithio gyda chontractwyr mawr eraill. O ganlyniad i hyn, penodwyd pump MC gan WR ar safleoedd Cartrefi Caerdydd, gyda gwerth o fwy na £100k mewn archebion. Gan gynnwys cynllun peilot i gynhyrchu byrddau safle gyda Sefydliad y Deillion Merthyr a Paint 360 (paent wedi'i ail-beiriannu lleol).

Mae pob MC a MBaCh Lleol wedi'i wahodd i ymuno, a darparwyd cefnogaeth iddynt gan yr 'Ysgol Cynladwyedd Cadwyn Gyflenwi'. Mae'r fenter hon a noddur gan Wates yn cefnogi busnesau i fodloni gofynion cynladwyedd eu cleientiaid, yn ogystal â'u huchelgeisiau twf busnes cynaliadwy eu hunain, gan alluogi ehangu'r busnes mewn ffordd fwy diogel.

Tystlythyrr

"Rydym ni yn MTIB wrth ein boddau â chael ein cynnwys yng nghadwyn gyflenwi Wates i ddarparu byrddau safle wedi'u paentio gan ddefnyddio paent wedi'i ailgylchu o Gymru trwy ein gwaith ar y cyd gyda Paint360. Mae ein cyflogeion anabl wrthi'n cynhyrchu'r cyntaf o'r hyn a fydd, gobeithio, yn nifer mawr o archebion a fydd yn helpu cynnal a diogelu eu cyflogaeth"

Richard Welfoot, Prif Weithredwr MTIB,

Canlyniadau a chyflawniadau

Canlyniadau a chyflawniadau Cartrefi Caerdydd – 2017-18

- 1795 o wythnosau hyfforddiant/cyflogaeth
- cyflogwyd 51 o bobl yn lleol
- 31 o brentisiaid
- 219 o oriau ennyn diddordeb mewn ysgolion
- 3734 o oriau gwirfoddoli
- buddsoddwyd £232,104 mewn elusennau lleol/achosion cymunedol gan gynnwys prosiect adnewyddu mawr yn 'Yr Hen Lyfrgell' yn Nhredelerch a gosod ystafell gawod yng Nghlwb Paffio Llanrhymni.
- dros £100,000 o wariant ar MC yn y flwyddyn gyntaf
- aelodaeth o BITC Cymru/Bwrdd Arweinyddiaeth Cyn-filwyr y Lleng Brydeinig Frenhinol

- gwefan benodedig Cartrefi Caerdydd gyda fforwm cymunedol mawr i helpu marchnata busnesau a digwyddiadau lleol am ddim
- ymwelodd 80 o blant â'r safle i gymryd rhan mewn prosiect ysgol seiliedig ar y cwricwlwm am bythefnos i ddylunio a gwerthu eu cartrefi eu hunain gyda chefnogaeth gan Wates
- yr ail flwyddyn o gefnogi 'Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf' Cyngor Dinas Caerdydd gyda 500 o blant yn cael eu cefnogi gyda bwyd a hwyl ar draws 10 o ysgolion trwy gydol cyfnod o bedair wythnos
- cynigiwyd cyfle anhygoel i fentorai gwblhau ei gradd peirianeg adeileddol gydag un o bartneriaid ymgynghori WR.

Gwobr syniadau a dulliau newydd

Noddwyd gan



Mae'r wobwr hon yn cydnabod y cymdeithasau tai, awdurdodau lleol a darparwyr tai eraill sy'n arloesi o ran datblygu dulliau newydd o gyflwyno gwasanaethau tai, neu brosiectau a mentrau a all ddangos defnyddiau arloesol o dechnoleg, neu brosiectau sydd wedi cynyddu mabwysiadu technoleg, lleihau anghydraddoldeb neu allgau digidol. Bydd prosiectau ar y rhestr fer yn cynnig dull neu syniad creadigol a all ddangos canlyniadau gwell neu effeithlonrwydd cynyddol. Mae'r ceisiadau ar y rhestr fer wedi dangos:

- bod y prosiect neu fenter yn ymdrin ag angen neu broblem benodol sydd wedi cael ei ddiwallu neu ddatrys yn briodol gan ddefnyddio dull newydd neu greadigol
- y sefyllfa 'cyn ac ar ôl', sy'n dangos bod y prosiect neu fenter wedi'i weithredu'n llwyddiannus
- deilliannau gwell ar gyfer defnyddwyr
- gwerth am arian.

Drysau Agored

Tai Pawb gyda'r Gymdeithas Landlordiaid Preswyl



Mae maint y sector rhentu preifat (SRHP) yng Nghymru'n cynyddu - nododd adroddiad gan CIH Cymru (2014) y bydd yn cyrraedd 20% o'r cyfanswm stoc erbyn 2020 os bydd tueddiadau cyfredol yn parhau.

Mae Tai Pawb yn sefydliad sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol mewn tai yng Nghymru. Tan 2017, roeddent wedi gweithio'n flaenorol dim ond gyda chymdeithasau tai a darparwyr tai awdurdodau lleol. Fodd bynnag, gan gydnabod pwysigrwydd cynyddol y SRHP yng Nghymru ac amrywiaeth y tenantiaid a oedd yn byw yn y sector hwn, penderfynant gymryd camau i ymdrin â hwn. Gan fabwysiadu dull arloesol o weithio mewn partneriaeth â sefydliad sector preifat, cysylltodd

Tai Pawb â'r Gymdeithas Landlordiaid Preswyl (RLA). Cydweithiodd y ddau i gyflwyno cais ar y cyd i'r Gronfa Loteri Fawr i greu prosiect a fyddai'n anelu at leihau anghydraddoldeb a gwahaniaethu yn y SRHP.

Canlyniad y cais hwn oedd y rhaglen Drysau Agored, sydd wedi bod yn weithredol ers mis Gorffennaf 2017. Mae'n ymateb i angen clir ac uniongyrchol iawn: nododd arolwg gan Ymddiriedolaeth Runnymede (2014) y gwahaniaethwyd yn erbyn 29% o atebwyr Du Caribiaidd wrth iddynt ymgeisio am dai preifat, a bod 28% o atebwyr Du Affricanaidd a 27% o atebwyr Pacistanaidd wedi teimlo y gwahaniaethwyd yn eu herbyn oherwydd eu cefndir ethnig, cenedligrwydd neu grefydd wrth ymgeisio am dai preifat. O'i gymharu â hynny, dim ond 1% o bobl groenwyn Brydeinig yn yr arolwg oedd wedi profi gwahaniaethu wrth ymgeisio am dai preifat.

Cyhoeddodd Stonewall Cymru ymchwil yn 2003 a ddangosodd fod bron 18% o bobl LHD yn yr arolwg wedi profi gwahaniaethu a fu'n ymwneud â chael eu taflu allan oherwydd gwahaniaethu ar sail eu rhywioldeb. Dengys ystadegau Stonewall (2012) fod 40% o bobl LHDT sy'n byw yn y SRHP yn teimlo'n annigol yn eu cartrefi eu hunain.

Mae Drysau Agored yn gweithio gyda thenantiaid a landlordiaid i ymdrin â rhai o'r problemau hyn, trwy sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'u hawliau a chyfrifoldebau. Gyda landlordiaid, rydym yn darparu hyfforddiant am ddim i sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'u rhwymedigaethau cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Rydym hefyd yn darparu gwybodaeth, cefnogaeth a chyngor ar gyfer materion cydraddoldeb penodol, ac wedi cynhyrchu canllaw

cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer landlordiaid preifat. Gyda thenantiaid, rydym yn ceisio addysgu a grymuso pobl i wybod eu hawliau trwy gefnogaeth unigol a sesiynau gwybodaeth grŵp. Rydyn yn eu hannog i gynyddu eu sgiliau i herio gwahaniaethu, a rhoi mwy o gyfle i denantiaid y SRhP ddweud eu dweud.

Un o'r ffyrdd y mae ein prosiect wedi ennyn diddordeb tenantiaid yw ffurfio partneriaethau gyda sefydliadau trydydd sector eraill, a darparu cefnogaeth a chymorth i unrhyw un o'u cleientiaid sy'n byw mewn llety'r sector rhentu preifat ac yn profi problemau. Un enghraifft arbennig o lwyddiannus o hyn o beth yw ein gwaith parhaus gyda Big Issue, a dywedodd Beth Thomas (Rheolwr Rhanbarthol, Cymru a De-orllewin Lloegr) y canlynol am ein prosiect:

"Mae Nazia wedi bod yn gweithio gydag un o fy nhîm, Lotty, i helpu nifer o werthwyr (a chyn-werthwyr) ynglŷn â nifer o broblemau. Mae Lotty wedi gweld ei bod yn barod i helpu, cyfeillgar, hawdd mynd ati ac â llawer iawn o wybodaeth. Hoffwn yn fawr ddweud diolch wrth Tai Pawb a Nazia yn benodol am ei chefnogaeth a gwaith caled. Mae hi wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i sefyllfaoedd tai llawer o werthwyr. Yn bersonol, rwy'n teimlo mai gwaith partneriaeth a gweithio ar y cyd yw'r ffordd orau o gyflawni canlyniadau da ar gyfer y bobl rydym yn cydweithio â nhw, ac rwy'n credu bod hon yn enghraifft dda iawn ac rwy'n falch dros Big Issue a Thai Pawb eu bod yn cydweithio i gefnogi a grymuso rhai o'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas."


Canlyniadau a chyflawniadau

Ar ddiwedd blwyddyn gyntaf ein prosiect (Awst 2018) cyflawnwyd y canlyniadau a ganlyn:

- adroddodd 182 o denantiaid am ymwybyddiaeth gynyddol o'u hawliau a chyfrifoldebau trwy gyrchu gwasanaethau a hyfforddiant allgymorth
- dywedodd 38 o landlordiaid eu bod yn teimlo'n fwy hyderus wrth osod i denantiaid amrywiol ac agored i niwed yn sgil defnyddio gwasanaethau'r prosiect
- mae gan 95 o landlordiaid wybodaeth gynyddol am ofynion deddfwriaeth gydraddoldeb ar ôl ymwneud â gwasanaethau prosiect Tai Pawb
- mae 596 o bobl wedi cyrchu gwybodaeth am eu hawliau a chyfrifoldebau ar hyb ar-lein Tai Pawb
- teimlodd 92 o landlordiaid yn 'fwy hyderus' ar ôl mynychu digwyddiadau Tai Pawb
- cafwyd cynnydd cyfartalog o 80% yn lefelau hyder awdurdodau lleol a sefydliadau trydydd sector wrth fedru ymwneud â a landlordiaid y sector rhentu preifat yn sgil cymryd rhan ym mhrosiect Tai Pawb
- recriwtiwyd chwe eiriolwr tenantiaid a phump eiriolwr landlordiaid sydd wedi gwella'r gallu a sgiliau i gefnogi pobl eraill
- mynychodd, trefnodd neu siaradodd Tai Pawb mewn 35 o ddigwyddiadau trwy gydol y flwyddyn
- lansiodd Tai Pawb ganllaw cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer landlordiaid preifat mewn digwyddiad nodedig yn y Senedd y daeth mwy na 30 o bobl iddo gan gynnwys wyth Aelod Cynulliad.

Review together

Review Together gyda CHT De Cymru, Llywodraeth Cymru, Trivallis a Chyngor Caerdydd



Crëwyd y prosiect Review Together wrth ymateb i ddi-ddordeb cynyddol Llywodraeth Cymru mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASB) ac ymateb landlordiaid cymdeithasol i hyn. Arweiniodd hyn, ynghyd ag amgylchedd polisi newidiol i ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chymunedau cydlynus, at sefydlu grŵp llywio a gadeiriwyd gan Alun Michael (Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru). Roedd ganddo'r dasg o edrych ar fater ASB mewn perthynas â'r cysyniad o fod yn agored i niwed a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Deilliant yr achos busnes gwreiddiol a thrafodaethau o fewn y grŵp lliwio oedd creu'r prosiect Review Together.

Mae Review Together yn 'offeryn hunanasesu a gefnogir', proses wedi'i hwyluso a grëwyd er mwyn helpu landlordiaid cymdeithasol i werthuso, myfyrio ac addasu eu hymateb a dull o ran ASB, pobl sy'n agored i niwed a pherthynas â chwsmeriaid. Mae'n cwmpasu syniadau cyfredol ar ddulliau perthynol, fel profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, amgylcheddau a gyfeirir gan ffisioleg a gofal wedi'i gyfeirio gan drawma, i ennyn meddwl a syniadau creadigol.

Bwriadwyd i'r egwyddorion cyffredinol a ddatblygwyd gael canlyniadau dysgu clir, wedi'u cyflwyno mewn ffordd a fyddai'n modelu'r ymddygiadau roeddem yn eu trafod gyda'r sefydliadau. Mae'r rhain yn cynnwys naws agored, gonestrwydd, parodrwydd i gaffael adborth a gweithredu arno, ac i rannu gwybodaeth.

Bwriadwyd i'r broses ei hun fod yn anfeirniadol, gan gynnwys lleisiau tenantiaid a staff a chan ddefnyddio'r technegau yr ystyrir eu bod yn bwysig wrth alluogi gweithio mewn amgylchedd PIE. Cyflwynir y prosiect trwy nifer o gamau ymgysylltu a sesiynau wedi'u

hwyluso gyda sefydliad ac fe ddaw i ben gyda sesiwn cynllunio gweithredu deinamig sy'n helpu sefydliadau i ddatblygu cynllun gweithredu ymarferol ar gyfer datblygu gwasanaethau yn y dyfodol.

Hunanasesu

Yn cynnwys tri holiadur, strategol, tîm cyflwyno a gwasanaethau cysylltiedig. Wedi'i ddylunio er mwyn i'r sefydliad fyfrio ar gyflwyno gwasanaethau cyfredol a chreu dealltwriaeth waelodlin o feysydd newid a datblygu potensial.

Sesiwn 1 cyfnewid a myfyrio

Mae'r sesiwn hon yn cynnwys gwybodaeth a myfyrio i helpu datblygu dealltwriaeth o syniadau cyfredol ar ddulliau perthynol a disgrifio'r cefndir yn gyffredinol. Mae'n dechrau'r broses greadigol o gwmpas datblygu gwasanaethau.

Sesiwn 2 mewnwelediad a llais

Dull creadigol o ddefnyddio offer myfyrio (dysgu trwy storïau a grŵp ffocws lleisiau defnyddwyr) i gynhyrchu syniadau ac awgrymiadau, creu mewnwelediad pellach i ddyfnhau dealltwriaeth a chyfeirio datblygu'r cynllun gweithredu.

Sesiwn 3 asedau a chatau gweithredu

Gan ddod â'r hyn a ddysgwyd o'r sesiynau blaenorol ynghyd, wedi'i siapio gan y canlyniadau, gwybodaeth a mewnwelediad staff, crëir cynllun ar gyfer newid ac, yn bwysigaf oll, mae Review Together yn gweithio gyda'r sefydliad i gynllunio sut i gefnogi'r newidiadau hynny.

Mae gan y prosiect ddau nod. Yn gyntaf, hwyluso symudiad gwybyddol i ffwrdd o ddeall gwasanaethau yn nhermau systemau i ddeall gwasanaethau yn nhermau perthnasoedd. Yn ail, cefnogi trafodaethau ynglŷn â sut y gellir gwneud hwn yn weithredol o fewn y sefydliad gan ei staff, aelodau, tenantiaid a budd-ddeiliaid.

"Mae'r gofod a chefnogaeth y mae eu hangen i staff ystyried defnyddio'r dull hwn, yr wybodaeth a'r mewnwelediad angenrheidiol a mewnbyn barn achwynyddion a'r rhai a y gwnaed cwynion yn eu herbyn yn gydrannau allweddol y broses adolygu"
Adolygiad Llenyddiaeth Review Together 2018.

Mae Review Together yn teimlo bod dull gweithio sy'n wahanol i ddulliau adolygu traddodiadol a dull arloesol o alluogi cymhwyso dulliau perthynol sy'n ymddangos mewn polisi cymdeithasol cyfredol yn ymarferol.

Canlyniadau a chyflawniadau

Dau sefydliad – Trivallis a Chyngor Dinas Caerdydd

Cymerodd tua 90 o bobl ran yn yr adolygiad o'r bwrdd ac arweinwyr strategol i swyddogion a thenantiaid rheng flaen

Teimlodd 80% y byddai'n newid eu harfer

"Mae profiad y ddau sefydliad o'r prosiect peilot wedi bod yn llwyddiannus, gyda staff a thenantiaid yn deall sut a pham y gallai'r symudiad i ddull perthynol o gyflwyno gwasanaethau ASB fod yn gadarnhaol. Mae sefydliadau wedi dechrau naill ai gweithredu newid yn barod, neu gychwyn y broses newid strategol." Prifysgol Fetropolitan Caerdydd Review Together, Adroddiad Gwerthuso Terfynol, Gorffennaf 2018

Tystiolaeth o ddyluniad y model Review Together yw ei fod yn helpu sefydliadau i ddeall pobl sy'n agored i niwed mewn cyd-destun ehangach a gellir ei gymhwyso i amrywiaeth o feysydd a sectorau cyflwyno gwasanaethau, gweledigaeth a gefnogir gan Bonnie Navarra, Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru.

'Mae'r dull wedi sicrhau bod Review Together yn broses gefnogol i sefydliadau drawsnewid dyluniad a chyflwyniad eu gwasanaeth yn effeithiol. Dangosodd y gwerthusiad annibynnol lwyddiant y model yn glir. Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried cyflwyniad Review Together yn y dyfodol ar hyn o bryd.'

Bonnie Navarra

Wake up to housing

Grŵp Pobl gyda Bron Afon a Llamau gyda NCH, Melin, CRISIS, a Gofal a Chefnogaeth Pobl



Y llynedd, sefydlwyd Grŵp Dan 35 Oed a Diwygio Lles Llywodraeth Cymru i edrych ar ddatrysiadau i liniaru'r materion sy'n wynebu pobl ifainc y mae angen tai arnynt. Ar y pwynt hwn, roedd y newidiadau i'r Lwfans Tai Lleol yn cael eu cymhwyso i dai cymdeithasol, felly roedd y grŵp yn awyddus i edrych ar ddatrysiadau llety amgen, fel rhannu, a materion eraill, fel cyflwyno Credyd Cynhwysol a dileu Budd-dal Tai ar gyfer pobl 18-21 oed.

A ninnau eisiau sicrhau nad oedd gweithwyr tai proffesiynol yn dylunio gwasanaethau i liniaru'r materion hyn heb wrando ar yr arbenigwyr yn gyntaf, cychwynnom ar 'Wake Up to the Changes' gan sefydlu is-grŵp i weithio ar y prosiect hwn.

Rhodddwyd y dasg i'r is-grŵp, a arweinwyd gan Charter (Pobl) Bron Afon a Llamau, o gywain barn pobl ifainc a oedd wedi profi digartrefedd a gofynnwyd iddynt bennu cwestiynau a dylunio fformat y prosiect. Gan ddefnyddio UNITY ac Afon Youth, Charter (Pobl),

Newport City Homes a fforymau pobl ifainc Bron Afon, gofynnem iddynt benderfynu beth mae angen ei wneud. Diystyriwyd y syniad o arolwg ysgrifenedig yn gyflym, ac yn lle, dyluniwyd cyfres o grwpiau ffocws rhyngweithiol i'w dilyn i fyny gan arolwg Facebook.

Yn dilyn sesiynau 'hyfforddi'r hyfforddwr' gyda phobl ifainc a gweithwyr proffesiynol ar draws Charter (Pobl), Llamau, Bron Afon, Solas, Melin, CRISIS a Newport City Homes, dechreuwyd cyflwyno'r grwpiau ffocws rhyngweithiol dros gyfnod o chwe mis.

Deilliodd pedair prif thema o'r gweithdai a chyfryngau cymdeithasol, sef diogelwch, addysg, dewis a chefnogaeth ond uwchlaw popeth arall roedd pobl ifainc eisiau rhywle diogel i fyw. Y realiti ar gyfer cynifer o bobl ifainc yw nad ydynt yn teimlo'n ddiogel ble maent yn byw a dywedodd rhai nad ydynt erioed wedi teimlo'n ddiogel. Amlygodd y prosiect hwn ei fod yn hynod o bwysig felly ein bod ni, fel gweithwyr tai proffesiynol, yn defnyddio dull wedi'i gyfeirio gan drawma a seicoleg i'n gwasanaethau llety a chefnogaeth.

Roedd yn sioc gweld faint o bobl nad oeddent yn gwybod am newidiadau'r Llywodraeth neu sut i gael cymorth. Ers hynny mae'r cyd-destun wedi newid, ond mae'r angen am opsiynau tai fforddiadwy ar gyfer pobl o dan 35 oed yn parhau, ynghyd â'r angen i bobl ifainc fod yn ymwybodol o'u hawlau a'r opsiynau sydd ar gael iddynt, gan sicrhau bod gan bobl ifainc yr addysg iawn, yn y lle iawn ac ar yr amser iawn.

Gyda hyn mewn cof, esblygodd 'Wake Up to the Changes' fel 'Wake Up to Housing', adnodd addysgol ar gyfer pobl ifainc 15+ oed. gan hysbysu nhw am eu hawlau tai a hyrwyddo dyheadau cadarnhaol ynglŷn â'u hopsiynau tai. Cydnabuwyd bod y dull hwn o ennyn diddordeb pobl ifainc ynglŷn â'u hopsiynau tai'n ddull llawer mwy cadarnhaol, grymusol a chynhwysol o gyfleu neges i bobl ifainc.

Ers hynny mae 'Wake up to Housing' wedi ei fabwysiadu gan Bron Afon a Charter (Pobl) fel prosiect ymyrraeth/addysg gynnar a dull cadarnhaol o ymgynghori â phobl ifainc, wedi'i gysylltu â'r Bwrdd Housing Futures a grŵp llywio Casnewydd, gyda'r nod o ddatblygu neges gyson i bobl ifainc ynglŷn â'u hopsiynau tai a chyfle dysgu ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gyfrifol am ddatblygu gwasanaethau.

Amcanion y Prosiect Wake up to Housing Project:

- datblygu dealltwriaeth pobl ifainc o dai
- codi ymwybyddiaeth o symud allan a'r costau cysylltiedig

- cyfeirio pobl ifainc at y gefnogaeth a gwybodaeth sydd ar gael
- cyflwyno rhaglen ymwybyddiaeth addysgol gynnar mewn ystod o leoliadau
- wedi'i arwain gan gymheiriaid gan gynnwys aelodau Unity ac Afon Youth
- parhau i gywain adborth a data ynglŷn â barn pobl ifainc ar opsiynau tai ar gyfer pobl o dan 35 oed i gynnwys modelau llety a rennir.

Canlyniadau a chyflawniadau

Wake up to the Changes' - Ar y Diwrnod Tai 2017, hyfforddwyd 30 o bobl a rhoddwyd y dasg iddynt i fynd allan i siarad â chynifer o bobl ifainc â phosib o fewn y raddfa amser beilot chwe wythnos. At ei gilydd, cyflwynwyd 18 o sesiynau, ymgynghorwyd 124 o bobl ifainc ac enynnwyd diddordeb 50 pellach mewn pleidlais ar Facebook.

At hynny, yn dilyn dysgu ac esblygiad 'Wake up to the Changes', mae sesiynau 'Wake up to Housing' bellach wedi'u cyflwyno i dros 500 o bobl ifainc rhwng Ionawr a Gorffennaf 2018 ar draws Torfaen, gyda chadarnhad gan ysgolion yn dilyn adborth cadarnhaol yr hoffent gyflwyno'r rhaglen i'r holl ysgolion yn Nhorfaen. Mae Grŵp Llywio Casnewydd hefyd yn ymgorffori hwn

yn eu llwybr addysgol tai ar gyfer pobl ifainc yng Nghasnewydd gan gynnwys cyflwyniad i golegau, unedau cyfeirio disgyblion, darparwyr hyfforddiant a chynlluniau digartrefedd ieuencid.

Mae'r prosiect hwn wedi darparu gwerth am arian trwy waith partneriaeth a datblygu dulliau a rennir. Ni dderbyniodd y prosiect hwn unrhyw gyllid allanol a dibynnodd ar ddod ag adnoddau ynghyd gydag ymrwymiad ac ewyllys a rennir y bartneriaeth i gyflwyno amcanion y prosiect.

Mae'r ymchwil hon hefyd wedi cyfeirio dull sefydliadau o sicrhau bod gwasanaethau ar gyfer pobl ifainc wedi'u cyfeirio gan PIE.

Porth y Gymuned

Cyngor Sir Ceredigion gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a CAVO



Datblygodd y gwasanaeth Porth y Gymuned ddull gweithio newydd a roddodd fwy o bwyslais at atal ac ymyrraeth gynnar, gan weithio gydag unigolion, teuluoedd a chymunedau i ddod o hyd i'w hatebion

eu hunain i gefnogi a hyrwyddo annibyniaeth yn eu cartrefi eu hunain.

Mae Porth y Gymuned (PyG) wedi bod mewn lle ers mis Ebrill 2018 ac yn galluogi aelodau'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol i gyrchu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth a ddarperir gan y trydydd sector a gweithgareddau yn y sector cymunedol. Mae PyG yn cydweithio'n agos â'r porth gofal cymdeithasol a thai, gan sicrhau bod y rhai na allant cyrraedd trothwy statudol ar gyfer ymyrraeth yn cael eu cefnogi ar sail 1:1 dros chwe wythnos, i atal eu hanghenion rhag gwaethygu i bwynt argyfwng. Yn dilyn sgwrs Beth sy'n Bwysig i Mi, yn seiliedig ar arwyddion diogelwch / egwyddorion a defnyddio technegau cyfworld cymhelliannol, galluogir dull datrysiaid wedi'i dargedu, wedi'i gyflwyno gan y trydydd sector a sector cymunedol yn lle gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol statudol.

I wella lles rhywun a'u gallu i ymadfer o gyfnod anodd, cydnabuodd PyG mai nid dim ond y gwasanaethau y gallant eu cyrchu sy'n bwysig ond hefyd yr amgylchedd y maent yn byw ynddo, gan gynnwys eu cartref a chymuned. Yn ystod ymweliadau 1:1 â phobl

yn eu cartrefi, mae gan PyG gyfle pwysig i adnabod pryderon o ran tai mewn cam cynnar, gan gyfeirio achosion o adfeiliad, llety a rentir anaddas, cronni eiddo, atal cwmpo, cartrefi oer a chyfleoedd addasu. Os na all PyG roi gwybodaeth am y mecanweithiau i gefnogi unigolion a'u cartrefi o fewn eu cartrefi eu hunain, gallwn adnabod cefnogaeth gan wasanaethau tai awdurdodau lleol, gwiriadau cartref y gwasanaeth tân a grwpiau trydydd sector. Wrth wneud hyn, gall cyfrannu'n sylweddol at eu lles o'r cychwyn cyntaf ac maent wedyn mewn sefyllfa i barhau i adnabod y gefnogaeth ehangach yn seiliedig ar benderfynolion ehangach lles, gan gynnwys mynediad i weithgareddau cymunedol a gwasanaethau trydydd sector.

Mae'r cynllun hwn hefyd yn darparu pwynt mynediad i wasanaethau anstatudol ar gyfer pobl sy'n camu i lawr o wasanaethau gofal cymdeithasol ataliol a hir dymor. Mae cysylltyddion cymunedol yn y gwasanaeth Porth y Gymuned yn gweithio gyda chymunedau i gael gwybod beth sydd ar gael yn eu hardaloedd, i greu cysylltiadau cymunedol â Dewis Cymru, gan gryfhau eu sylfaen wybodaeth leol a chyfleoedd cyfeirio posib ar gyfer y rhai y maent yn eu cynorthwyo.

Gwasanaeth gydol oes yw hwn, wedi'i gyflwyno gan wasanaeth cyswllt cwsmeriaid y cyngor sir, mae wedi'i ddylunio i fod yn fodel cynaliadwy trwy gysylltu gwerth buddsoddi mewn atal er mwyn lleihau galw ar gyflwyno gwasanaethau statudol sydd o dan bwysau ac osgoi anghenion rhag gwaethygu a chyrraedd pwynt argyfwng. Mae cael y gwasanaeth hwn hefyd yn galluogi'r cysylltyddion cymunedol i godi ymwybyddiaeth o Dewis Cymru ac annog a chefnogi grwpiau cymunedol i roi eu gwybodaeth ar y porth gwybodaeth. Eto, mae hwn wedi'i ddylunio i fod yn ateb mwy cynaliadwy i sicrhau y cefnogir gwefan Dewis Cymru'n dda o safbwynt rhoi gwybodaeth ar y wefan yn ogystal ag annog ei defnydd o bersbectif hunan-gefnogaeth.

Disgwylir y bydd hyn yn creu model mwy cynaliadwy ar gyfer hunanwasanaeth o fewn y sir. Mae budd-ddeiliaid yn cynnwys; Cyngor Sir Ceredigion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion, Heddlu Dyfed Powys a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorrlewin Cymru.

Canlyniadau a chyflawniadau

Mae cyfeiriadau cynnar yn cael eu derbyn gan y gwasanaethau cymdeithasol, tîm gadael y brifysgol, therapyddion galwedigaethol, Macmillan, hunan-gyfeiriadau a hefyd gan deulu a ffrindiau.

Mae dros 100 o gyfeiriadau wedi eu derbyn yn ystod tri mis cyntaf y gwasanaeth. Yr arwyddion cynnar yw bod hyn yn llenwi bwlch sydd angen ei llenwi'n fawr, gan gynnig gwasanaeth mwy cyfannol i'r cwsmer a chan sicrhau y ceisir gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolion neu eu gwasanaeth.

At hynny, trwy'r gwasanaeth hwn gall PyG adnabod ble y mae'r galw, yn seiliedig ar yr hyn y gall y cwmni ei gofnodi o sgysiau a'r hyn sy'n bwysig yw y gall PyG adnabod bylchau mewn gwasanaethau a gweithgareddau cymunedol yn ogystal â rhwystrau i ddefnyddio.

Mewn ardal wledig lle mae unigedd cymdeithasol yn broblem, mae cludiant i weithgareddau a all fod yn ateb yn gyfyngedig, a all effeithio ar werth cyfeirio. Bydd cofnodi'r wybodaeth hon yn helpu mesur pa mor helaeth y mae'r mater hwn a chyfeirio opsiynau wedi'u targedu i oresgyn y cyfryw rhwystrau i fynediad.

Gwobr gwerthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth

Noddwyd gan 

Mae'r wobr hon yn cydnabod gwaith cymdeithasau tai, awdurdodau lleol, neu unrhyw sefydliad yn y sector tai, i gynyddu amrywiaeth a chydaddoldeb. Bydd sefydliadau ar y rhestr fer wedi datblygu mesurau cydraddoldeb ac/neu amrywiaeth rhagorol, a byddant wedi'u rhoi ar waith yn llwyddiannus. Mae cynigion ar y rhestr fer wedi dangos o leiaf un o'r canlynol:

- dull sy'n cydnabod y diffyg amrywiaeth mewn arweinyddiaeth tai ac sydd wedi cymryd camau i fynd i'r afael ag ef
- amrywiaeth a chydaddoldeb cynyddol yn y gweithlu
- canlyniadau cadarnhaol ar gyfer grwpiau penodol a fu wedi'u heithrio neu eu tangynrychioli'n flaenorol, neu sydd angen cefnogaeth ychwanegol.

Dads can

Cymdeithas Tai Sir Fynwy



Ariennir Dads Can gan y Gronfa Loteri Fawr i ymdrin â'r anghydaddoldebau rhyw sy'n bodoli mewn cymdeithas fel bod gan dadau a dynion sy'n gweithredu fel tadau rwydwaith cefnogi cadarn ar draws Sir Fynwy a Chasnewydd.

Cyfeirir tadau at y gwasanaeth oherwydd cyfranogiad y gwasanaethau cymdeithasol, diffyg ymwneud â gwasanaethau cefnogi, cyswllt emosiynol gwael â'u plant neu ddiffyg mynediad am resymau troseddu, salwch meddwl, bod yn agored i niwed neu'r ffaith eu bod yn byw mewn tldi. Gwahaniaethir yn erbyn tadau'n aml oherwydd bod cymdeithas a gwasanaethau cefnogi'n aml yn canolbwyntio at ennyn diddordeb mamau a phlant.

Mae Dads Can yn cefnogi tadau ym mhob agwedd ar ddatblygu yn y dyfodol gan gynnig gwasanaeth arloesol ac wedi'i deilwra a anelir at ddynion. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar baratoi'r ffordd ar gyfer newidiadau gwleidyddol a sefydliadol fel bod gan

gymdeithas ddull mwy cynhwysol o gynnwys tadau a'u bod nhw hefyd yn derbyn y gefnogaeth y mae arnynt ei hangen yn fawr.

Mae'r prosiect yn lleihau effaith digwyddiadau trawmatig a brofir gan deuluoedd. Mae profiadau niweidiol yn ystod plentynod (ACE) yn creu risg gynyddol i ddatblygiad plant yn y dyfodol ac felly mae'r prosiect yn canolbwyntio ar dorri'r cylch hwn rhwng y cenedlaethau trwy gefnogaeth 1 i 1 ac ymwreiddio newid ymddygiadol cadarnhaol.

Mae Dads Can yn defnyddio dull anogaeth i gefnogi tadau wrth adnabod datrysiadau i broblemau y maent yn eu hwynebu fel hunan-barch isel, salwch meddwl, chwalfa perthnasoedd, mynediad i blant a dewisiadau ffordd o fyw negyddol.

Mae Dads Can wedi creu rhwydwaith cefnogaeth trwy fentora cymheiriaid, modelu rolau, eiriolaeth a brocera perthnasoedd gyda darparwyr cefnogaeth lleol. Mae Dads Can hefyd yn darparu cyngor ac arweiniad a chyfluoedd i gyrchu rhaglenni gwella teuluoedd.

O ganlyniad i wasanaethau ganolbwyntio ar famau, mae llawer o dadau'n teimlo'n unig yn ystod blynyddoedd cynnar eu plentyn. Adroddodd 75% o dadau eu bod yn teimlo wedi'u heithrio ac ar yr ymylon yn ystod y cyfnod hwn, felly nid yw'n syndod darganfod bod 25% o dadau'n profi iselder yn y flwyddyn gyntaf, sydd bron bob amser heb ei ddiagnosisio. Dominyddir gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar gan fenywod yn bennaf, gan greu amgylchedd sy'n fenywaidd yn bennaf nad yw tadau eisiau camu i mewn iddo. Mae gwaith Dads Can o gyd-gyflwyno rhai o'r sesiynau hyn yn golygu yr enynnwyd diddordeb tadau'n effeithiol yn y rhaglenni hyn.

Dengys ystadegau fod plant 15 oed yn fwy tebygol o berchen ar ffôn clyfar na thadau yn y cartref a bod un o bob tri o blant yng Nghymru'n byw heb eu tad. Mae'r Llysoedd Teulu bellach yn canolbwyntio ar fynediad

cyfartal ar gyfer y ddau riant ond mae problemau'n codi pan atalir tadau rhag gweld eu plant. Mae tadau'n aml yn cael eu camlywio ac yn cael eu gadael heb fedru talu ffioedd llysoedd. Mae tadau sy'n profi tlodi tra'n gweithio'n aml yn awchus am weld eu plant ond ni allant gyrchu cymorth cyfreithiol sydd yn ei dro'n cael effaith negyddol ar eu dewisiadau iechyd a ffordd o fyw.

Mae'r rhaglen Dads Can bellach yn ehangu i Flaenau Gwent mewn partneriaeth â'r rhaglen Dechrau'n Deg trwy Gronfa Etifeddiaeth Llywodraeth Cymru. Diben y bartneriaeth hon fydd ehangu darpariaeth y gefnogaeth mewn sir newydd gyda'r nod o ddatblygu darpariaeth 'Dads Can' ar draws Gwent yn y dyfodol.

Tystlythyron

"Rwyf wedi gweld bod Dads Can yn brosiect defnyddiol iawn ar gyfer tadau nad ydynt yn gwybod ble i ddechrau gyda chefnogaeth ac maent yn aml yn amharod i ymwneud â chefnogaeth. Mae cael gwasanaeth penodedig i helpu tadau i oresgyn stigma'n eu cefnogi i greu cysylltiadau â gwasanaethau eraill ac yn y pen draw ni all ond eu helpu wrth gefnogi nhw i fod yn dadau gwell i'w plant."

Dawn Moore, Gwasanaethau Cefnogi Teuluoedd Integredig.

"Mae'r sefydliad hwn yn golygu cymaint i mi. Heb Dads Can ni fyddwn wedi cael unrhyw un i siarad â nhw am gefnogaeth moesol ac emosiynol." Ben Beynon, Tad.

Canlyniadau a chyflawniadau

Rhwng ein dau weithiwr datblygu dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweithio mewn cydweithrediad â thros 100 o sefydliadau fel y gwasanaethau cymdeithasol a'r Tîm o Gwmpas y Teulu i gefnogi'r tadau hynny sydd wedi cymryd rhan.

Mae Dads Can wedi darparu gwasanaethau cefnogi i fwy na 120 o fuddiolwyr ac o hynny mae 79% o'n tadau wedi ymwneud ag asiantaethau eraill ac mae 94% o'n tadau'n teimlo'n fwy hyderus a chadarnhaol am eu dyfodol.

Mae canlyniadau eraill trwy ymwneud yn gynyddol â gwasanaethau cefnogi'n golygu ein bod wedi cefnogi 10 o blant sydd wedi'u tynnu oddi ar y gofrestr amddiffyn trwy gefnogi ein tadau i ymwneud yn effeithiol â gwasanaethau cymdeithasol a datblygu fel model rôl cadarnhaol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae Dads Can wedi cyflwyno 700 awr o gefnogaeth uniongyrchol a thrwy'r gwaith hwn mae gan 55% o ddefnyddwyr gwasanaeth berthynas well â'u teuluoedd. Mae 16 o dadau wedi cael mynediad at eu plant. Mae 77% wedi gwella amser o safon uchel gyda'u teuluoedd ac mae dau draean yn agosach at y farchnad lafur.

NuLife furniture

Cymdeithas Tai Cadwyn



Sefydlwyd NuLife Furniture ar egwyddor cyfle cyfartal. Eu nod craidd yn 2014 oedd darparu dodrefn fforddiadwy wedi'i adnewyddu i aelwydydd ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg. Dros y pedair blynedd ddiwethaf mae NuLife Furniture wedi darparu dodrefn

i fwy na 400 o gartrefi, a thrwy wneud hynny wedi sefydlu rhaglen hyfforddi, gweithdy gwaith saer a chanolfan trwsio nwyddau gwyn.

Gweledigaeth drosgynnol NuLife yw y bydd unrhyw un sy'n cael ei gyfeirio neu sy'n hunangyfeirio'n cael lleoliad gwaith heb ystyried eu cefndir, galluoedd, unrhyw gyflyrau a ddiagnoswyd neu unrhyw hanes blaenorol arall. Yr unig ofyniad sydd gan y cwmni yw bod y gwirfoddolwyr yn barod i dyfu ac ymrwymo i'w llwybr datblygu gwirfoddoli.

Mae'r dull drws agored hwn o recriwtio a chadw gwirfoddolwyr yn golygu bod gan y cwmni amrywiaeth enfawr ar draws ei dimau ar sail bob dydd, gan gyflwyno perthnasoedd sy'n newid bywydau i bobl sy'n agored i niwed mewn ffyrdd cymhleth y byddant fel arfer yn cael eu diarddel o leoliadau gwaith prif ffrwd neu o weithio wrth ochr pobl o gefndiroedd gwaith mwy traddodiadol.

Ar hyn o bryd mae NuLife Furniture yn cyflogi oedolion sydd ag anableddau dysgu, unigolion sydd â phroblemau camddefnyddio a dibyniaeth ar sylweddau, pobl sy'n gadael gofal, troseddwyd sydd ag anghenion cymhleth cyd-gysylltiedig, ffoaduriaid

ac ystod o weithwyr medrus a lled-fedrus. Mae'r lleoliadau gwaith hyn oll yn rhedeg ochr yn ochr â'i gilydd, nid yn unigol, gan roi cyfle i holl wirfoddolwyr NuLife Furniture weithio ochr yn ochr â'i gilydd, a chael y dysgu gwerthfawr y mae'r amrywiaeth ac integreiddio hyn yn ei gynnig.

Ar hyn o bryd neilltuir 44% o leoliadau gwaith NuLife Furniture i oedolion sydd â diagnosis anhawster dysgu a 33% i bobl sydd wedi'u diagnosisio gyda chyflwr iechyd meddwl sydd wedi'u diarddel o'r gwaith yn hanesyddol. O'r gwirfoddolwyr hyn mae gan hanner hanes o gyflyrau iechyd a reolir yn wael, ailbwl o ymddygiadau camddefnyddio sylweddau neu ymddygiadau cymryd risgiau neu droseddu. Mae eu holl waith wedi'i integreiddio â'n lleoliadau gwaith prif ffrwd. Tro ar ôl tro mae'r dull hwn wedi'i brofi i newid bywydau.

Tystlythyron

"Mae fy mywyd wedi newid yn gyfan gwbl ac mae fel fy mod yn rhywun newydd. Rwy'n byw ar ward oherwydd y troseddau a gyflawnais pan oeddwn yn byw ar fy mhen fy hun. Ers dechrau gyda NuLife gallaf reoli fy hwyliau'n well, mae gennyf gymhelliant a swydd sy'n golygu rhywbeth i mi. Rwyf allan yn y gymuned nawr, ac ar y ffordd i gael absenoldeb heb hebryngwr o fy lleoliad ysbyty a oruchwylir. Mae cael y swydd yma

gyda NuLife wedi rhoi diben i mi. Rwy'n cymysgu gyda phobl nad oes ganddynt anabledd dysgu am y tro cyntaf mewn oes, ac mae wedi fy helpu rheoli fy awtistiaeth ac ymddygiadau troseddu'n hynod o dda. Cyn hyn roeddwn dim ond gyda phobl yr oeddent wedi troseddu neu bobl sydd â'r un problemau a minnau a golygodd hynny na fyddwn yn gadael y ward yr oeddwn arno, a byddwn yn fy ystafell trwy'r amser. Mae NuLife yn fy helpu i wella, ac yn fy atal rhag ail-droseddu trwy ddangos i mi bod yna ffordd wahanol i fod. Cyn i mi weithio yma roedd y cyfle y byddwn yn aildroseddu ac yn dychwelyd i'r ysbyty yn enfawr, yn awr dw i ar fy ffordd i fyw yn y gymuned mewn tŷ â chefnogaeth. Dydw i ddim wedi cael y cyfle i fod allan yn fy lle fy hun ers dros bum mlynedd. Ni fyddwn i yma heb NuLife" Nathan, a ymunodd â lleoliadau gwaith NuLife Furniture yn 2015.

Mae lleoliadau gwaith integredig NuLife Furniture yn newid bywydau bob dydd, ni waeth p'un ai'n rhywun sy'n dychwelyd i'r gwaith oherwydd ei amgylchedd cefnogi cymheiriaid, rhywun yn cael yr hyder i gymysgu'n gymdeithasol, neu ddim ond rhywun sy'n teimlo ychydig yn well nag yr oeddent o'r blaen, mae i gyd yn deillio o'n dull cynhwysol o reoli gwirfoddolwyr sy'n rhoi cyfle cyfartal i bawb, cymuned gymheiriaid sy'n amrywio ac yn cyfoethogi o'u cwmipas a dechrau newydd.

Canlyniadau a chyflawniadau

O'r gwirfoddolwyr NuLife sydd â hanes o droseddu, mae cwmpo'n ôl i droseddu wedi gostwng 100%. Nid yw un o'r gwirfoddolwyr a gyfeiriwyd trwy bartneriaeth lleoliad ward diogel y cwmni wedi aildroseddu, er y bu aildroseddu'n ddigwyddiad rheolaidd ar eu cyfer yn flaenorol.

Mae wyth gwirfoddolwr sydd ag anghenion iechyd meddwl cymhleth wedi sicrhau eu cyflogaeth gyntaf â thâl erioed ar ôl lleoliad gwaith gyda NuLife.

Cyflwynodd NuLife dros 350 awr o leoliadau gwaith integredig bob wythnos.

Mae gwirfoddolwyr NuLife yn cynhyrchu eu casgliadau cynnyrch tymhorol y maent yn eu dylunio, dod o hyd i'r deunyddiau ar eu cyfer ac yn eu cynhyrchu. Wedyn, maent yn dysgu gwirfoddolwyr eraill sut i wneud y cynhyrchion hyn.

Mae NuLife wedi cefnogi 13 o wirfoddolwyr i ddod o hyd i gefnogaeth bellach gan gynnwys cyngor ariannol, cwnsela a chyngor gyrfaol.

Mae saith o wirfoddolwyr NuLife bellach yn darparu goruchwyliaeth a chefnogaeth i wirfoddolwyr eraill yn rhinwedd cymheiriaid.

QED – ansawdd mewn cydraddoldeb ac amrywiaeth

Tai Pawb gyda Melin Homes



Cydnabuodd Tai Pawb fod landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (RSL) yn awyddus i wella eu perfformiad cydraddoldeb ac amrywiaeth ond nid oeddent bob amser yn gwybod pa feysydd i ganolbwyntio arnynt neu beth oedd arfer da yn ei olygu, ac felly crëwyd QED (Ansawdd mewn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth) mewn partneriaeth â Melin. Mae QED yn farc ansawdd newydd sy'n trawsnewid sector tai cymdeithasol Cymru ac yn gosod safon ragoriaeth newydd mewn cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae QED yn fframwaith cynhwysfawr sy'n benodol i Gymru ar gyfer adolygu a gwella effaith cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasau tai ar draws llywodraethu, gwasanaethau, mynediad, cyfranogiad a diwylliant. Gweithredodd Melin fel peilot ar gyfer QED, i helpu Tai Pawb i fireinio a datblygu'r broses QED trwy gyflawni asesiad trwyadl o waith Melin ar gydraddoldeb ac amrywiaeth a llunio cynllun gweithredu cynhwysfawr i Felin ymgymryd ag ef dros chwe mis cyn cael ei ail-asesu. O ganlyniad i waith caled a gwelliant Melin trwy'r broses QED, ym mis Mai nhw oedd y gymdeithas tai gyntaf yng Nghymru i dderbyn y dyfarniad QED gan banel annibynnol. Cyflwynwyd y dyfarniad i Felin gan yr ymgyrchydd cydraddoldeb mawr ei fri Peter Tatchell yng nghynhadledd flynyddol Tai Pawb.

Mae QED yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys arolygon staff a budd-ddeiliaid, grwpiau ffocws staff a thenantiaid, cyfweiliadau manwl gydag uwch reolwyr ac aelodau bwrdd ac asesiad desg llawn er mwyn dod i ddealltwriaeth drwyadl o arfer ac agweddau cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws swyddogaethau cymdeithas tai. Mae QED yn edrych ar bum canlyniad allweddol:

1. mabwysiedir dull strategol clir i gyflawni hyfforddiant ym mhopeth y mae'r sefydliad yn ei wneud

2. mae'r gwasanaethau a gyflwynir yn deg, nid ydynt yn gwahaniaethu ac maent yn diwallu anghenion pobl, gan ymateb yn barhaus i newidiadau a heriau wrth iddynt ddatblygu
3. mae pawb yn ymwybodol o'r gwasanaethau a gyflwynir, gallant gael mynediad atynt ac mae ganddynt brofiadau cadarnhaol ohonynt
4. o ganlyniad i ymgysylltu, mae'r sefydliad yn decach ac yn fwy ymatebol o ran sut mae'n gweithio a beth mae'n ei wneud.
5. mae'r sefydliad yn weithle cynhwysol gyda diwylliant sy'n gwerthfawrogi, hyrwyddo ac yn cofleidio cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae'r broses QED yn galluogi Tai Pawb i adnabod meysydd i'w gwella mewn RSL yn ogystal ag amlygu enghreifftiau o arfer da. Bydd cymdeithasau tai sy'n cyflawni QED yn gwella profiadau eu tenantiaid, cwsmeriaid a staff amrywiol, byddant yn gallu cynllunio ar gyfer gwelliant parhaus ac yn bodloni gofynion rheoleiddio mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth. Dyfernir y marc QED am dair blynedd, gyda gwiriadau blynyddol i sicrhau bod y RSL yn parhau i wella ac ymwreiddio cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws ei waith i gyd. Mae Melin wedi gweld bod cymryd rhan mewn QED wedi cael effaith nid yn unig ar allbynnau a chanlyniadau, ond hefyd ar ddiwylliant y sefydliad cyfan ac agweddau at gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae dau RSL pellach wedi cwblhau cam un QED erbyn hyn, gyda Tai Pawb yn llunio cynlluniau gweithredu manwl iddynt eu rhoi ar waith, ac mae RSL arall wrthi'n cael ei asesu ar hyn o bryd. Yn y cyfamser, mae RSLs eraill yn cynllunio i ddechrau QED yn y flwyddyn nesaf, ac yn paratoi trwy gynyddu eu gweithgarwch cydraddoldeb ac amrywiaeth, hyfforddi staff, sefydlu gweithgorau cydraddoldeb ac amrywiaeth a gofyn i Tai Pawb gyflawni gwiriadau iechyd cydraddoldeb, er mwyn adnabod meysydd y gallant ddechrau gweithio arnynt cyn yr asesiad. Mae Melin wedi bod yn helpu cymdeithasau tai eraill i baratoi ar gyfer QED trwy rannu eu profiadau, rhoi cyngor ar wersi a ddysgwyd, a gweithredu fel arweinydd y sector ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Dros amser, trwy QED mae Tai Pawb hefyd yn adeiladu dealltwriaeth o dueddiadau a materion ar y cyd sy'n gyffredin i RSL yng Nghymru mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth, gan alluogi targedu adnoddau, cefnogaeth ac ymgyrchu'n well i wneud sector tai Cymru'n fwy cynhwysol ac amrywiol.

Canlyniadau a chyflawniadau

Mae Melin eisoes wedi gweld ystod o ganlyniadau a chyflawniadau cadarnhaol o gymryd rhan mewn QED, gan gynnwys:

- dealltwriaeth gynyddol ymysg staff o ddiben cywain data cydraddoldeb trigolion
- cyflwyno hyfforddiant ar Islam, ymwybyddiaeth drawsryw, cam-drin domestig a thuedd ddiymwybod, sydd wedi gwella agweddau tuag ar gydraddoldeb ac amrywiaeth
- mae gan grŵp cydraddoldeb ac amrywiaeth a fu'n amhoblogaidd restr aros erbyn hyn
- newid yn niwylliant y staff o sefydliad sydd eisoes yn gyfeillgar i un sy'n fwy cynhwysol a lle mae pobl yn fwy ymwybodol o sut y gallai'r hyn y maent yn ei ddweud effeithio ar eraill
- Mae gan fwrdd Melin well ymwybyddiaeth o'i rôl mewn perthynas â chydaddoldeb ac amrywiaeth a chraffu'r busnes yn gynyddol o ran sicrhau cynhwysedd ac ystyried effaith gydraddoldeb penderfyniadau busnes
- polisïau a gweithdrefnau mwy cadarn, sy'n cael eu hasesu o ran effaith ar gydraddoldeb
- mae cwestiynau gysylltiedig â chydaddoldeb wedi'u hymwreiddio i broses gaffael y gymdeithas
- cyfranogiad tenantiaid cynyddol trwy fenter ddigidol newydd, y gobeithir y bydd yn cynyddu niferoedd, yn enwedig trigolion BME, LHDT a thrigolion iau
- cyflawnir adroddiadau monitro data staff ac fe'u cymharir â phoblogaethau lleol, caiff y rhain eu defnyddio i asesu a gwella canlyniadau cydraddoldeb ar gyfer staff.

'We all matter' – prosiect cynhwysiad panel tenantiaid

Linc-Cymru gyda Phanel Tenantiaid Linc-Cymru



Ymgwymerodd panel tenantiaid Linc-Cymru (grŵp strategol â chyfansoddiad annibynnol) â hunanwerthusiad grŵp gyda chefnogaeth gan ymgynghorydd allanol.

Nid oedd staff yn rhan o'r sesiynau, ac ar ôl dau ddiwrnod daethant at y casgliadau a ganlyn:

- roedd diffyg amrywiaeth ar y panel 'rydym i gyd yn groenwyn'!
- byddai angen iddynt ymchwilio i syniadau newydd gyda'r gymuned ehangach ar sut i wella technegau ymgysylltu
- roedd gormod o reolau ysgrifenedig nad oeddent yn hawdd eu gweithredu/deall

- roedd angen proses ymgynefino newydd i gael pethau'n iawn o'r cychwyn cyntaf
- byddent yn ceisio mwy o gyfeiriadau gan denantiaid a dangynrychiolir gan ddefnyddio sgiliau staff tai rheng flaen.

Cytunwyd ar gynllun gweithredu gyda'r cadeirydd a dechreuwyd ar y daith. Er hynny, cafwyd y catalydd dros newid go iawn yn dilyn presenoldeb tenantiaid mewn cynhadledd ar gam-drin domestig gan BAWSO. "Agorwyd llygaid o ddifri" gan arwain at ddiddordeb parhaus a dealltwriaeth gynyddol o ystod ehangach o gymunedau.

Nododd y panel y grwpiau wedi'u tangynrychioli a ganlyn:

1. du a lleiafrifoedd ethnig (BME)
2. grwpiau lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryw (LHDT)
3. pobl ifainc
4. pobl anabl, yn enwedig y rhai sydd wedi'u tangynrychioli, fel y rhai sydd ag anabledd dysgu.

Dyma grynodeb o'r camau a gymerwyd:

BME - trafododd Linc-Cymru gymryd camau cadarnhaol gyda staff tai, trafodwyd yr iaith a ddefnyddir, hygyrchedd, amserau, dyddiadau, sut mae'r grŵp yn cael ei weld, a pha un a wnaed i'r holl aelodau deimlo eu bod wedi'u croesawu. Gwnaeth Linc-Cymru gynhwysiad yn flaenoriaeth ar bob achlysur. Gyda'u hegni newydd, cytunwyd y byddai tenantiaid yn arwain y broses ymgynefino o gynnwys tenantiaid newydd. I gefnogi hyn, mynychodd Linc-Cymru hyfforddiant ar y cyd a chyrchwyd mwy o

gefnogaeth allanol yn ogystal â'r sgiliau o fewn y sefydliad. Yn bwysicaf oll, anogwyd tenantiaid i herio ei gilydd.

Aeth tenantiaid allan i gartrefi tenantiaid a gwelsom o lygad y ffynnon ymdrech go iawn i ennyn diddordeb a dod â thenantiaid i mewn o gymunedau BME, dywedodd un tenant - 'Nid oeddwn erioed yn gwybod eich bod chi (cadeirydd y tenantiaid) fel hyn. Byddaf yn cymryd rhan yn bendant, roeddwn ychydig yn amheus ohonoch chi i ddechrau ond ie, cyfiri fi i mewn!'

LHDT - dywedodd un tenant 'Hoffwn wneud Pride yn fawr ac mi wna i er gwaethaf fy oedran (83 oed) a fy nghrefydd sydd yn erbyn ymarfer cyfunrywioldeb, mae'n rhaid i ni gynnwys pawb - dyna pam rydym ni yma - mae'n rhaid i ni wneud e!'

Ceisiodd y panel gymorth gan staff tai i gymryd camau cadarnhaol i geisio cyfranogiad tenantiaid LHDT. Gyrrodd y panel y neges y 'gallwch fod pwy bynnag y mynnwch' fel rhan o'r panel. Helpodd hyn i staff ddeall y panel yn fwy fel grŵp 'mwy cynhwysol a chynyddol'.

Pobl ifainc - mwy heriol ond ar ôl ymgeisiau llwyddiannus i ennyn diddordeb pobl ifainc yn y panel, gwnaed cynlluniau i ennyn diddordeb mewn ffordd wahanol. Hepgorwyd diwrnodau cymunedol wedi'u harwain gan staff a chyfeiriwyd cefnogaeth i mewn i'r cymunedau. Gyda chefnogaeth gan y panel mae pobl ifainc bellach yn cymryd rhan ar lefel fwy lleol fel 'Food and Fun, Our Suffragette Project, Lysaght Community Group, prynhawn crefftau Morrison, grwpiau rhieni lleol a mwy.

Pobl anabl - er bod pobl anabl yn fwy actif ar y panel na phobl sydd ag anabledd dysgu, ceisiodd y panel gefnogaeth gan Bobl yn Gyntaf Caerdydd ac aethant i hyfforddiant a redwyd gan bobl sydd ag anableddau dysgu. Gyda'r holl grwpiau hyn ymchwiliwyd i rwystrau sefydliadol fel 'adroddiadau cymhleth, iaith anhygyrch, clíciau, homogenedd, etc ac mae hygyrchedd bellach ar agenda pawb.

Canlyniadau a chyflawniadau

'Mae'r panel yn wahanol nawr - 'mae gennym lawer o aelodau newydd'. Yn ddiweddar maent wedi ystyried Còd Llywodraethu CHC. Rhai canlyniadau gwyh newydd ac mae'r daith yn parhau!

Grwpiau BME

- cryfhawyd y PT trwy hyfforddiant cydraddoldeb a seminarau
- mae aelodaeth BME y PT chwarter yn fwy bellach
- maent wedi asesu arfer cydraddoldeb ac amrywiaeth contractwyr
- graddiwyd 'arfer rhagorol' Tai Pawb
- cadeirydd y panel - Gwobr Tenant y Flwyddyn (2018)
- TPAS - 'Mae'r PT mor amrywiol nawr'.

Tenantiaid LHDT

Maent yn cael eu cynrychioli bellach ac mae'r awyrgylch mewn cyfarfodydd panel wedi mynd yn fwy agored a chyfeillgar. Yn dilyn sesiwn ennyn diddordeb digidol, mynegodd tenantiaid sydd wedi cymryd rhan o'r newydd awydd am grŵp LHDT.

Pobl ifainc

- mae nifer o bobl dan 25 oed wedi ymuno â grŵp craffu'r panel.
- mae chwe menyw ifanc newydd wedi cofrestru i bleidleisio yn y Senedd leuenctid newydd
- daeth pobl ifainc ynghyd â'u TRA i wneud ffilm fer - 'Our Suffragette

Project'

- enynnwyd diddordeb 1,000oedd o bobl ifainc (11-16 oed) mewn prosiectau eraill fel 'Steel Remembered' trwy ysgolion.

Pobl anabl

Sefydlwyd hyfforddiant gyda Phobl yn Gyntaf Caerdydd (wedi'i redeg gan a thros bobl anabl) ac yn fuan wedyn llwyddodd y panel i recriwtio.

Ac yn olaf, mae un tenant wedi creu blog fideo - gan bwysleisio cynhwysedd.

Gwobr adeiladu cymunedau mwy diogel

Noddwyd gan



Mae'r wobwr hon yn cydnabod prosiectau sy'n gweithio i adeiladu cymunedau mwy diogel, trwy ymdrin â phroblemau penodol a chefnogi pobl sydd wedi profi'r problemau hynny. Gall prosiectau fod wedi eu cychwyn gan unrhyw sefydliad, ond mae'n rhaid iddynt gynnwys elfen sydd wedi'i harwain gan dai. Mae partneriaethau rhwng awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a phartneriaethau/gwasanaethau perthnasol nad ydynt yn rhan o'r sector yn gymwys hefyd. Mae prosiectau ar y rhestr fer wedi medru dangos canlyniadau go iawn o ganlyniad uniongyrchol i'r camau a gymerwyd. Mae prosiectau ar y rhestr fer wedi ymdrin â'r meysydd gwaith a ganlyn (ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt):

- ymddygiad gwrthgymdeithasol
- cam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod
- caethwasiaeth fodern
- diogelu
- cyffuriau ac alcohol.

Agweddau trugarog at ymddygiad gwrthgymdeithasol

Trivallis



Mae 14% o oedolion Cymru wedi profi pedwar neu fwy o brofiadau niweidiol yn ystod plentynod (ACE). O ystyried y polisi cyfredol o ddyrannu tai cymdeithasol yn unol ag angen gellir darogan bod y gyfran hon yn uwch mewn tai cymdeithasol. O ystyried y cyfle cynyddol o ddefnyddio cyffuriau, bod yn yfwr risg uchel, trais a bod yn garcharor mae'n hawdd gweld y gyfatebiaeth rhwng ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASB) ac ACE.

Dechreuodd yr adolygiad o'r gwasanaeth ACE gyda'r tîm yn derbyn hyfforddiant ar effaith ACE, sut a pham mae trawma'n creu ymddygiadau a all ddwysau ASB a sut i greu amgylcheddau wedi eu cyfeirio gan seicoleg. Datblygodd dealltwriaeth fod gan lawer o bobl sy'n ymwneud ag ASB heriau wrth gyfathrebu emosiynau, a all arwain at ymddygiadau amddiffynnol neu ymosodol. Gall y rhain yn ei dro fod yn ddinistriol i berthnasoedd, gan olygu bod ASB yn esgoli'n gyflymach, gan waethygu datgysylltiad â gwasanaethau perthnasol. Mae'r ddealltwriaeth well hon o gymhelliannau pobl wedi helpu datblygu dull anfeirniadol a mwy trugarog o gyflwyno gwasanaethau

Mae dull newydd Trivallis yn cydnabod bod ASB yn symptom o anghenion neu drawma nas diwallir. I ymdrin ag ASB yn effeithiol, felly, rydym wedi symud ffocws y gwasanaeth o'r digwyddiadau ASB i ymddygiadau, cryfderau ac anghenion y ddau barti dan sylw.

Mae Trivallis wedi siarad â chyflawnwyr a dioddefwyr sydd wedi profi eu gwasanaethau. Gwnaethant gytuno eu bod yn teimlo'n fwy hyderus mewn gwasanaeth a gyflwynir gan arbenigwyr. Roeddent eisiau gonestrwydd a thryloywder am yr opsiynau sydd ar gael, roeddent eisiau bod yn rhan o wneud penderfyniadau ac nid oeddent eisiau gorfod ail-adrodd eu stori.

Fel RSL mae Trivallis yn cydnabod bod ymyrraeth gynnar mewn anghydfod ASB yn gwella canlyniadau nid yn unig ar gyfer yr unigolion dan sylw, ond ar gyfer y gymuned ehangach hefyd. Mae'r cwmni'n deall bod yr egwyddor hon o reoli achosion yn effeithiol yn hollbwysig nid dim ond ar gyfer yr achosion mwyaf difrifol ac achosion cymharol unigol o ASB, ond hefyd pan fydd natur gronns gweithredoedd gwrthgymdeithasol bach yn creu effaith arwyddocaol a pharhaus ar unigolyn neu gymuned.

Mae Trivallis wedi symud o ddull mwy traddodiadol lle ymchwilir i'r achos gan reolwr cymdogaeth generig sydd wedyn yn cael ei drosglwyddo i dîm diogelwch cymunedol arbenigol wrth i'r achos esgoli, i un sy'n defnyddio arbenigedd y sefydliad mewn ASB a chefnogaeth o'r cychwyn cyntaf. Mae hyn yn galluogi staff arbenigol i asesu'r achos o'r cychwyn cyntaf, gan ysbrydoli hyder, rheoli disgwyliadau, adeiladu gwydnwch, gostwng trallod ac isafu'r ail-drawmateiddio sy'n digwydd pan fydd unigolion lluosog yn trin achos. Gan hynny mae pob achos yn cael ei frysennu gan y swyddog diogelwch cymunedol sy'n ei drafod gyda'r achwynydd i geisio helpu nhw i ddod o hyd i ddatrysiad realistig a phriodol ar eu cyfer. Os yw'r achos yn gofyn am ymyrraeth bellach, crëir cynllun gweithredu gyda'r dioddefwr fel eu bod yn deall yn union pa gamau y byddwn yn eu cymryd a'r hyn y disgwylir iddynt hwy ei wneud. Neilltuir yr achos i reolwr cymdogaeth sy'n ymweld ac yn mynd â'r achos ymlaen. Ar y pwynt hwn ymwelir â'r cyflawnwr a'r dioddefwr gan weithiwr

cefnogi. Mae hyn yn galluogi cynnig sgiliau arbenigol ac adeiladu perthnasoedd gyda'r holl bartïon o'r cychwyn cyntaf.

Mae'r cydlynu a chydweithredu hwn yn golygu hefyd nad yw Trivallis yn creu gwrthdaro rhwng prosesau mewnol wrth i'r achos symud ymlaen. Wrth i Trivallis fynd trwy'r broses hon maent wedi dod i ddeall mai'r cyflawnwr yn bennaf sydd angen y gefnogaeth arbenigol, gan mai eu bregusrwydd nhw yw'r hyn sy'n arwain at yr ymddygiadau cythryblus sy'n achosi'r ASB.

Cyn cymryd unrhyw gamau cyfreithiol cynhelir cynhadledd achos rhwng yr holl bartïon i sicrhau y cyflawnwyd pob cam gweithredu gofynnol ac yr ymchwiliwyd i bob opsiwn arall.

Astudiaeth achos cwsmer

Mae Mr R yn cael ymwelwyr â'i gyfeiriad yn aml, mae ef a'i ymwelwyr yn aml yn feddw ar lefel sy'n gofyn am ymyrraeth gan yr heddlu. Mae gan Mr M, y dioddefwr, gyflwr y galon, mae'r straen a'r pryder am ymddygiad ei gymydog yn gwaethygu ei gyflwr. Y broses arferol fyddai defnyddio cytundeb gorfodi tenantiaeth. Yn gyntaf, nododd y gefnogaeth newydd fod Mr R yn defnyddio alcohol i liniaru poen, ar ôl i hyn gael ei ddatrys fe helpodd iddo ostwng ei ddefnydd o alcohol a newid ei ymddygiad. Helpwyd Mr M i ddatblygu dealltwriaeth o Mr R a alluogodd iddynt adeiladu perthynas, gan alluogi nhw i reoli unrhyw ddigwyddiadau rhyngddynt yn y dyfodol eu hunain. Mae Mr R wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau codi sbwriel cymunedol hefyd.

Canlyniadau a chyflawniadau

Mae 76 o achosion ASB wedi'u hadrodd i'r prosiect. Mae 27 bellach wedi eu cau, caewyd 13 o'r rheiny ar y pwynt brysennu. Mae hyn o ganlyniad uniongyrchol i'n hymyrraeth gynnar a brysennu arbenigol, sydd wedi arbed adnoddau sylweddol. Mae dim ond un

achos sydd wedi cael ei ail-agor. Ar gyfartaledd mae achos yn agored am 68 o ddiwrnodau, sy'n ostyngiad o 71 o ddiwrnodau. Nid yw'r un o'r achosion wedi eu datrys trwy ymyrraeth gyfreithiol.

Go girls... 'every 30 seconds' ... working to create cse hostile communities

Tai Cymunedol Bron Afon gyda Grŵp Pobl



Mae Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE) yn digwydd mewn cymunedau a chartrefi. Nid yw'n digwydd dim ond yn Rotherham, Rhydychen neu Birmingham, mae'n digwydd yma, gan effeithio ar denantiaid yng Nghymru, eu plant. Yr ymateb arferol ar ran sefydliadau tai yw taflu allan ar gyfer Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASB) gyda'r holl gostau ariannol cysylltiedig. Mae tenant yn cael partis niferus, llawer o bobl ac yn mynd ac yn dod o'r eiddo, cymdogion yn cwyno. Mae camau'n dechrau cael eu cymryd ar y denantiaeth. A ddylai darparwyr tai fod yn ymchwilio'n ddyfnach? A ddylai'r sector tai fod yn edrych ar beth sydd o dan y wyneb, trwy lens CSE? Gallai'r costau real iawn fod mewn termau dynol, ar gyfer y bobl ifainc yr effeithir a dylanwadir arnynt, barhau am oes.

Trwy gydweithio â Go Girls, mae Tai Cymunedol Bron Afon wedi edrych ar ddull gwahanol iawn o atal ac ysgogi adeiladu cymunedau mwy diogel.

Mae Go Girls yn grŵp gweithredu cymdeithasol ar gyfer menywod ifainc 15 i 25 oed, gan rymuso nhw i fod y gorau y gallant, gan adeiladu hyder a gwydnwch. Mae'n brosiect partneriaeth gyda Bron Afon a Thai Charter sydd â tair thema; perthnasoedd mwy diogel, cydraddoldeb ac amrywiaeth ynghyd ag iechyd a lles. Mae'r merched wedi canolbwyntio ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant, profiadau a rennir, dysgu gan ei gilydd gydag etifeddiaeth o rwydwaith cefnogi cryf.

Dysgodd y 'Go Girls' am CSE, masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern, beth ydyw, yr arwyddion, beth i gadw llygad allan amdano a ble i gael cefnogaeth a chymorth. I rai, roedd hyn yn cynnwys rhannu eu

profiadau, beth oedd wedi digwydd iddyn nhw. Roeddent eisiau codi ymwybyddiaeth, rhannu eu neges, hysbysu ac addysgu gweithwyr proffesiynol, atal eraill rhag cael eu dal i fyny yn y byd tywyll hwn a dangos bod ffordd allan ohono hefyd.

Gyda chefnogaeth ariannu gan Torfaen GUTS, hyfforddodd y Go Girls mewn theatr fforwm. Yn gweithio gyda Gwent Missing Persons gwnaethant ddylunio a datblygu'r theatr fforwm rhyngweithiol, 'Every 30 Seconds'. Maent yn angerddol am ei gyflwyniad ac fe lansiodd i gynulleidfa dan ei sang yn Theatr Glan yr Afon, Casnewydd. Mae'n agor llygaid y gynulleidfa, pobl ifainc a gweithwyr proffesiynol, gan ddarparu dealltwriaeth iddynt a chyfle i ymyrryd i newid cyfres o ddigwyddiadau. I lawer o weithwyr proffesiynol mae'n ennyn wirioneddol o 'weld y golau'.

Maent wedi cyflwyno i ac ennyn diddordeb 1,059 o bobl ifainc mewn pum sir ar draws ôl troed Gwent mewn ysgolion uwchradd, yn Rhwydwaith Diogelu De-ddwyrain Cymru, cynhadledd VAWDASV a lansio'r digwyddiad Free From Fear, gan ei wneud yn genhadaeth iddynt greu cymunedau sy'n elyniaethus i CSE a darparu ymwybyddiaeth o fasnachu pobl a chaethwasiaeth fodern.

Tystlythyron

'Mae Go Girls wedi fy helpu llawer trwy ddangos i mi sut i deimlo fel fy hun eto.'

'Diolch eto am fy ngwneud yn rhan o'r prosiect hwn y mae angen mawr amdano, roedd y merched yn edrych mor hapus a hyderus, nhw oedd awduron go iawn y darn, gwelodd eu hyder, gallai hyn fod yn ennyn a all newid bywydau ar gyfer rhai ohonynt neu efallai nhw i gyd' Eleanor Shaw

'Syfrdanol! Mor bwerus. Atgoffâd rhonc o'r realiti sy'n wynebu cynifer o ferched o ddydd i ddydd, byddai wedi bod yn dda petawn i wedi cael y gefnogaeth hon pan oeddwn yn 15 oed. Diolch yn fawr iawn am brofiad mor oleuedig.'

'Cyflwyniad ysbrydoliaethus ar bobl ifainc sy'n cael effaith ac yn gwneud gwahaniaeth gydag ACE'

Eleri Thomas, Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent.

'Ffordd ragorol o ddwyn CSE, Masnachu Pobl a Chaethwasiaeth Fodern at sylw pobl ifainc a gweithwyr proffesiynol!'

Canlyniadau a chyflawniadau

- cyflwyno i weithwyr proffesiynol ar draws ôl troed Gwent, gan godi ymwybyddiaeth, ysgogi syniadau am sut y gallai'r gymdeithas tai fod wedi ymyrryd a newid y gyfres o ddigwyddiadau?
- gwasanaethau tai sy'n gweithio'n wahanol, ai ASB neu CSE yw hwn? Cadw'r lens CSE mewn cof
- mae gwybodaeth ac ymwybyddiaeth gynyddol wedi arwain at newid prosesau a pholisi, gan gysylltu CSE a diogelwch cymunedol i newid a dylanwadu ar ein hymateb rheoli tai
- cydleo'i tîm Gwent Missing Persons ym mhencadlys Bron Afon, gan gydweithio i greu cymunedau sy'n elyniaethus i CSE
- cysylltu gwasanaethau iechyd, tai, heddlu a gwasanaethau cymdeithasol trwy MASE

- pobl ifainc sy'n cyflwyno i bobl ifainc eraill, gan greu'r newid sylweddol, digon yw digon.

Camau Nesaf

- bydd pobl ifainc yn parhau i gael eu grymuso i greu 'newid sylweddol' o fewn ein cymunedau, gyda Go Girls yn cyflwyno i bob Ysgol Uwchradd yn Nhorfaen
- datblygu CSE o fewn prosesau diogelu ac esgoli risg uchel Bron Afon
- dod o hyd i gyllid i gynyddu graddfa'r Prosiect Go Girls, gan ymgorffori Theatr Fforwm Every 30 Seconds.

Porth gwe free from fear

Grŵp Pobl gyda Thai Cymunedol Bron Afon, Tai Charter, Derwen Cymru, Cartrefi Melin, Cymdeithas Tai Sir Fynwy, Newport City Homes, Cymdeithas Tai Unedig Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Tai Cymunedol Tai Calon, Tai Gwalia, Linc Cymru, Cyngor Dinas Casnewydd, Tîm DA Rhanbarthol Llywodraeth Cymru, Partneriaeth Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru (sy'n cynnwys y darparwyr tai cymdeithasol Cymoedd i'r Arfordir, Cyngor Sir Bro Morgannwg a Trivallis) a Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent



Cychwynnwyd prosiect Free from Fear yn 2014 pan ddaeth grŵp o landlordiaid cymdeithasol ynghyd i wella ein hymateb i gam-drin domestig. Trwy gyflwyniad protocol rhannu gwybodaeth ar achosion o gam-drin domestig ar y cyd â Heddlu Gwent, agorwyd llygaid y cwmni at nifer yr achosion ymhlith eu tenantiaid. Gyda chynnydd o 500% yn nifer yr achosion a gyfeiriwyd, bu'r cwmni adnabod rôl landlordiaid

cymdeithasol wrth fynd i'r afael â cham-drin domestig sy'n effeithio ar ein tenantiaid a'n cyflogaion. Tra bod staff a chontractwyr wedi derbyn hyfforddiant i adnabod yr arwyddion, roedd nifer yn teimlo diffyg hyder wrth roi hyn ar waith, rhywbeth a oedd yn arbennig o wir sbel ar ôl yr hyfforddiant. Roedd staff y rheng flaen angen pecyn cymorth yn cynnwys y wybodaeth gywir a phroc a oedd yn darparu hyn yn y fan a'r lle.

Nodau'r prosiect oedd adnabod arferion gorau ac arloesedd wrth ymateb i'r sawl a oedd yn dioddef neu'n gyfrifol am gam-drin domestig ac i gynhyrchu pecyn cymorth ymarferol ar gyfer staff gweithredol yng Ngwent. Gyda chyflwyniad Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, fe ehangodd y prosiect ei bersbectif a dod yn rhan o'r peilot ar gyfer menter Gofyn a Gweithredu Llywodraeth Cymru.

Wedi ariannu eu hymchwil a phecyn cymorth eu hunain ar bapur, sylweddolion nhw ei bod yn anymarferol gofyn i staff gario hwn gyda nhw. Y datrysiad oedd www.freefromfear.wales adnodd ar-lein sydd ar gael ar ffônau clyfar, tabledi neu liniaduron.

Yn 2016, ymgeisiodd y prosiect am gyllid grant o raglen Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) Llywodraeth Cymru, ac yn 2017, gyda staff, dioddefwyr ac arbenigwyr, datblygon nhw becyn cymorth ar-lein yn seiliedig ar fframwaith hyfforddiant 'Gofyn a Gweithredu' Llywodraeth Cymru. Mae hwn yn darparu mynediad syml a hygyrch at wybodaeth ar gam-drin domestig ar gyfer staff, rheolwyr sy'n eu cefnogi neu'n ymdrin ag achosion mwy cymhleth, ac uwch reolwyr sy'n ymwneud â dulliau strategol.

Mae'r datrysiaid digidol yn dangos sut bod gallu cyrchu gwybodaeth yn ddi-oed yn gallu gwella sut mae staff yn ymateb i bobl sydd angen eu help. Mae meddwl mewn modd creadigol wedi arwain at gynhyrchu porth a ddyluniwyd yn y fath fodd bod staff, rheolwyr ac eraill yn gallu gweld yn syth pa rannau o'r porth sy'n berthnasol iddyn nhw. Mae'r ddolen at ysgogiad i staff <https://www.freefromfear.wales/staff/creating-right-environment-tool-staff> wedi'i ddylunio i newid pan fydd yn cael ei hagog ar ffôn clyfar.

Nid oes angen llawer o fewnbwn i ddiweddarau'r cynnwys gan fod mwyafrif y dolenni yn mynd i dudalennau Llywodraeth Cymru neu asiantaethau arbenigol sy'n diweddarau'r wybodaeth yn rheolaidd eu hunain. Trwy roi ein hadnoddau ynghyd a rhannu ein syniadau, pryderon ac arferion, mae Free from Fear wedi gwneud y gwaith hwn yn realiti. Mae graddfa'r cydweithio wedi bod yn gyflawniad gwych, ac yn esiampl ffantastig o ddod â nifer o wahanol bartneriaid ynghyd. Mae pob aelod o'r bartneriaeth wedi gwneud cyfraniad gan gydweithio ar elfennau o'r pecyn cymorth, rhannu arferion da, rhoi amser staff ac adnoddau ariannol er mwyn cyflawni ein nod. Pwysig yw nodi bod goroeswyr cam-drin domestig ac asiantaethau arbenigol wedi croesawu'r porth ac roedd eu mewnbwn yn amhrisiadwy ac mae

diddordeb hefyd wedi bod gan yr heddlu a sut y gellir ei addasu i'w defnyddio yn y gwasanaethau cymdeithasol.

Mae Grŵp Pobl yn credu y dylai ac y gall tai cymdeithasol ddarparu porth ar gyfer pobl sy'n dioddef camdriniaeth i allu cael mynediad at gefnogaeth, gan eu galluogi i gyflawni mwy o annibyniaeth, gwell gwydnwch a byw bywyd heb ofn.

Tystlythyron

"Mae hwn wedi bod yn gyfle unigryw i'r landlordiaid cymdeithasol (cyngor a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig) a gymerodd ran i ddysgu o'i gilydd ac i weithio'n gydweithredol i ddatblygu prosesau ac offer a fydd yn fuddiol i unrhyw un o'n tenantiaid sy'n dioddef o gam-drin domestig."

Rachel Thornett, Cyngor Caerffili.

"Mae'n siop un stop gyda'r nod o roi'r cyfarpar i unrhyw sefydliad tai i 'godi'r gêm' a gallu rhoi'r hyder a sicrwydd i unrhyw un sy'n dioddef o gam-drin domestig y byddwn ni, fel eu landlord, yno i'w cefnogi a'u cyfeirio ar yr help sydd ei angen arnynt, pan fydd ei angen arnynt."

Kathryn Edwards Rheolwr Gyfarwyddwr Tai a Chymunedau Pobl.

Canlyniadau a chyflawniadau

Mae Free from Fear yn arwain y blaen yng Nghymru wrth fynd i'r afael â cham-drin domestig o fewn sector, mae wedi

- dylanwadu ar agenda Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, gan sicrhau bod landlordiaid bellach yn rhan o'r sgwrs
- adeiladu mwy o berthnasau cadarnhaol rhwng tenantiaid, staff ac asiantaethau arbenigol

Mae Free from Fear yn dangos newid rhyfeddol o feddylfryd ... rhaid i ni weithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â cham-drin domestig Trydar Shelter Cymru

- mae staff yn hoff iawn ohono, roeddent yn rhan o'r gwaith dylunio a phrofi. "Mae system y porth yn hawdd ei defnyddio ac mae'n cynorthwyo gweithwyr proffesiynol o ddydd i ddydd i'w galluogi i ddarparu'r gefnogaeth ac arwyddbyst gorau i ddioddefwyr cam-drin domestig." Liz Davis, NCH
- gwneud staff yn fwy ymwybodol o gam-drin domestig a sut i helpu

- cynnig cefnogaeth i denantiaid yn gynt (gan gynnwys risg a gwaethygiad)
- mwy o denantiaid yn rhoi gwybod am y sefyllfa; yn dweud eu bod yn teimlo'n fwy diogel; yn fwy ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael; yn gallu aros yn eu cartref neu symud yn gyflym ac yn ddiogel os oes angen; yn fwy tebygol o ymwneud â gwasanaethau arbenigol am gefnogaeth barhaus 'roedd y staff yn wych, ymatebon nhw'n sydyn' Tenant Linc
- Soniodd TWA bod llai o deuluoedd mewn lloches
- Swyddfa Archwilio Cymru wedi sôn am y prosiect fel enghraifft o arfer gorau.

Mae'r porth bellach yn cael ei defnyddio ledled Cymru ac yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg, felly gall pob landlord cyhoeddus wella'u hymateb a helpu pobl yng Nghymru i 'Fyw heb Ofn'.

Taclo siarcod benthycu

Tai Tarian gyda Grŵp Tai Coastal ac Uned Benthycu Arian Anghyfreithlon Cymru



Dyfarnwyd grant o £6,000 i sefydliad Tai Tarian o Uned Benthycu Arian Anghyfreithlon Cymru gan ymrwymo i godi ymwybyddiaeth o'r peryglon o arian anghyfreithlon ymhlith tenantiaid, staff a'r cyhoedd yn fwy cyffredinol.

Roedd Tai Tarian yn awyddus i gynnwys ein tenantiaid yn y prosiect er mwyn sicrhau bod y neges yn cael ei ledaenu mor bell â phosib. Cyflawnwyd hyn trwy drefnu digwyddiad cyd-ddylunio ym mis Mehefin 2017 i roi cyfle i staff a thenantiaid gynllunio beth fyddai'n cael ei gynnwys mewn taflen wybodaeth am fenthycu arian anghyfreithlon. Yna, cafodd ei chynhyrchu, ei hargraffu a'i dosbarthu i amryw swyddfeydd y cwmni a'i chynnwys yn y pecynnau i denantiaid newydd.

Anogodd Tai Tarian i denantiaid gymryd rhan yn eu digwyddiad cymunedol 'Pwysigrwydd Arbed Arian' a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2017, gyda nifer o drigolion lleol Tai Tarian yn mynychu ac yn helpu yn ystod y diwrnod. Yn y digwyddiad, roedd stondinwyr o amryw asiantaethau lleol, megis Undeb Credyd, Hawliau Llesiant, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Dŵr Cymru ac Uned Benthycu Arian Anghyfreithlon Cymru, i enwi ychydig yn unig. Roedd y sefydliadau hyn yn gallu cynnig cefnogaeth a chynghor yn ymwneud â rheoli arian.

Gan weithio gyda'r adran datblygiad sefydliadol, mae modiwl e-ddysgu am fenthycwyr arian didrwydded a benthycu arian anghyfreithlon wedi cael ei gynhyrchu a'i dosbarthu i bob aelod o staff Tai Tarian. Mae'r cwmni'n gobeithio y bydd hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith staff ac yn eu caniatáu i adnabod yr arwyddion os yw tenant mewn perygl. =

Roedd rhan fawr o'r prosiect yn cynnwys Tai Tarian yn cynhyrchu fideo sy'n adrodd ail-gread o stori un o denantiaid go iawn Tai Tarian a oedd wedi bod yn ddioddefwr siarc benthycu am dros bedair blynedd. Fe weithiodd y cwmni'n agos gyda'r tenant er mwyn sicrhau bod y ffilm yn gynrychiolaeth wir o'i stori. Mae'r ffilm fer yn adrodd stori ei artaith frawychus a sut iddo oresgyn ei anawsterau ariannol gyda chymorth ein Tîm Cynhwysiant Ariannol.

Ceir dolenni i ddwy fersiwn y ffilm fer isod:

Saesneg - <https://www.youtube.com/watch?v=vZ4Sne0wdxY>

Cymraeg - <https://www.youtube.com/watch?v=XKBppY3rm1U>

Mae amryw ffynonellau'r cyfryngau wedi rhoi sylw i'r stori, gan gynnwys BBC Wales Today, Wales Online, South Wales Evening Post, Swansea Sound a The Wave. Mae ymgyrch benthycu arian anghyfreithlon Tai Tarian wedi cyrraedd 1.5 miliwn o bobl.

Mae'r ymgyrch wedi bod yn llwyddiant mawr ac mae Tai Tarian wedi cael nifer o denantiaid yn dod atynt i ddweud cystal y portreadwyd y mater ac y byddent yn hynod falch pe byddai Tai Tarian yn ddigon ffodus i ennill y wobr. Ar ôl gwyllo'r fideo anfonodd y tenant, a gafodd ei leisio gan actor yn y ffilm, neges destun gyda'r adborth canlynol:

"Newydd wyllo'r ffilm. Daeth llawer o deimladau o fod yn y sefyllfa honno yn ôl i mi, rwy'n gobeithio y bydd pobl sydd yn yr un sefyllfa yn gwyllo'ch ffilm ac yn cael yr help a dderbyniais i gan Tai Tarian. Fe newidiodd chi fy mywyd yn llwyr a galla'i ddim â diolch ddigon i bawb yn Tai Tarian sy'n gwneud gwaith ardderchog yn helpu pobl sydd mewn trafferth, yn ariannol neu fel arall. Cadwch i fyny gyda'r gwaith da a diolch am bopeth."

Canlyniadau a chyflawniadau

Defnyddiwyd y grant i roi'r canlyniadau a chyflawniadau canlynol ar waith:

Canlyniadau:

- cynnal cyfarfod cyd-ddylunio i gytuno ar gynnwys taflen wybodaeth yn rhybuddio am beryglon siarcod benthyca.
- cynhyrchu a dosbarthu'r daflen.
- trefnu a chynnal digwyddiad cymunedol "Pwysigrwydd Arbed Arian" ar gyfer trigolion, staff ac asiantaethau lleol.
- cynhyrchu modiwl e-ddysgu am siarcod benthyca.
- cynhyrchu fideo (ail-gread o stori tenant go iawn) Cymerwch olwg ar y dolenni isod:
- Saesneg - <https://www.youtube.com/watch?v=vZ4Sne0wdxY>

- Cymraeg - <https://www.youtube.com/watch?v=XKBppY3rm1U>
- defnyddio ffynonellau'r cyfryngau i gyrraedd dros 1.5 miliwn o bobl.
- darparu adborth gan denantiaid yn dweud cystal y portreadwyd y mater.

Cyflawniadau:

- mae'r fenter yn dangos ein hymrwymiad at fuddsoddi mewn cymunedau ac at gyflwyno'r hyn sy'n bwysig i'n cwsmeriaid trwy ddarparu cyfarwyddyd am sut i aros yn ddiogel a mynd i'r afael â pheryglon megis benthycwyr arian anghyfreithlon.
- rydym wedi llwyddo cyflwyno'r fenter hon gan ddilyn egwyddorion cyd-ddylunio trwy harneisio asedau cymunedol i gyflawni canlyniad mwy diogel.

Gwobr gweithio gyda sectorau eraill

Noddwyd gan

resource
making it happen

Mae'r wobr hon yn cydnabod y prosiectau sydd angen ymrwymiad sefydliadau o'r tu allan i faes tai. Ymhlith yr esiamplau mae partneriaethau gyda sectorau megis iechyd, addysg a chyllid personol, ond fe ystyrir unrhyw brosiect sydd angen ymrwymiad â sefydliad y tu allan i faes tai. Mae'r prosiectau ar y rhestr fer wedi gallu dangos:

- Bod y prosiect angen cydweithio â sefydliad y tu allan i faes tai er mwyn cyflawni'r canlyniadau dymunol
- Bod tai yn bartner pwysig wrth gyflwyno'r prosiect
- Gwell canlyniadau i bobl leol neu ddefnyddwyr gwasanaeth
- Gwerth am arian

Awtistiaeth mewn tai cymdeithasol

Mi-Space ac Outside



Ar gychwyn 2017, soniodd tîm Mi-Space o Swyddogion Cyswllt Tenantiaid yn ystod eu gwaith, eu bod yn gweld cynnydd sylweddol yn nifer y trigolion a oedd yn eu cynghori bod un neu ragor o'r meddianwyr yn y cartref yn cael diagnosis o Awstistiaeth neu gyflwr cysylltiedig. Gyda'r nod o gael gwell dealltwriaeth o'r cyflwr gynyddol gyffredin hwn, aeth Mi-Space ati i ddysgu mwy am y cyflwr gyda'r nod o hyfforddi ei gweithlu am y cyflwr, dim ond i ddarganfod bod dim llawer o gyfleoedd i ddysgu am awtistiaeth. Doedd dim gwybodaeth ar gael ar sut i addasu dulliau gweithio yn y sector tai cymdeithasol i ymateb i anghenion trigolion gyda'r diagnosis hwn.

Ar ôl swm sylweddol o ymchwil, bu i Mi-Space ddarganfod busnes newydd o'r enw AutSiDe Education & Consultancy Limited yn Ne Cymru. Ar ôl

esbonio eu hanghenion i AutSiDe, roedd Mi-Space yn teimlo mai'r darparwr hwn o gyngor arbenigol ar Awstistiaeth oedd y partner perffaith i ddadansoddi eu dulliau gweithio ac i ddarparu modiwl ar gyfer eu gweithlu ar sut i gyflwyno'u gwasanaethau'n well yng nghartrefi trigolion gyda'r cyflwr hwn a chyflyrau cysylltiedig eraill.

Er mwyn i Donna Sharland ac Emma Durham o Outside ddeall gweithgareddau Mi-Space ym maes tai cymdeithasol, roedd angen eu hymgorffori yn y gweithlu ar nifer o'u prosiectau tai cymdeithasol yng Nghymru. Ar ôl ymweld â holl brosiectau gweithredol Mi-Space yng Nghymru, roeddent yn gallu deall gwir effaith yr atgyweiriadau a gwaith uwchraddio mewn eiddo a feddiannir ar y trigolion sydd ag Awstistiaeth.

Gyda'r wybodaeth hon, aeth Donna ac Emma ati i baratoi eu modiwl hyfforddiant o'r enw 'Awtistiaeth mewn Tai Cymdeithasol' ar y cyd â Mi-Space gan lwyddo creu cyflwyniad unigryw a llawn gwybodaeth ddefnyddiol ar y pwnc. Wrth i'r cyflwyniad ddatblygu, sylweddolodd Mi-Space y byddai'n werth chweil rhannu'r cyfle am hyfforddiant gyda'i chadwyn gyflenwi a'i phartneriaid yn y sector tai cymdeithasol.

Gan lansio ei darlith gyntaf yn Stadiwm Liberty, Abertawe ar 29 Mawrth yn ystod yr Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth Awstistiaeth, traddododd Mi-Space ar y cyd ag Outside eu darlith gyntaf i staff a chadwyn gyflenwi Mi-Space, cynrychiolwyr o awdurdodau lleol a sefydliadau tai ac aelodau asiantaethau llywodraeth genedlaethol a phartion trydydd parti. Yn dilyn llwyddiant y ddarlith hon, ailadroddwyd y digwyddiad ym Merthyr Tudful ar 3 Mai ac yn swyddfeydd Cymdeithas Tai Wales and West ar 18 Mehefin.

Darparwyd i'r sawl a ddaeth i'r ddarlith "â dealltwriaeth gefndir o beth yw awtistiaeth a sut mae'n effeithio ar fywyd o ddydd i ddydd, y gallu i roi'r wybodaeth hon ar waith i gydnabod rhwystrau posib y gallai ei beri ym maes Tai Cymdeithasol tra'n adnabod strategaethau i

reoli'r sefyllfa mewn modd effeithiol ac i'ch galluogi i gynorthwyo unigolion awtistaidd a'u teuluoedd, tra'n gwella eu hamodau byw a chyflawni eu dyletswydd i'r sefydliadau tai cymdeithasol."

Canlyniadau a chyflawniadau

"Fe fynychais yr hyfforddiant diweddar ar Awtistiaeth mewn Tai Cymdeithasol a gyflwynwyd ym Merthyr Tudful gan Mi-Space mewn partneriaeth ag AutSiDe. Roedd yr hyfforddiant yn wych a baswn yn ei argymhell yn gryf i sefydliadau eraill. Fe greodd argraff mor dda arnom i ni gynnig cynnal y digwyddiad nesaf yn ein Pencadlys yng Nghaerdydd gyda hwnnw hefyd yn derbyn adborth ffantastig gan ein staff."

Carly Hodson, Pennaeth Datblygu Pobl - Cymdeithas Tai Wales and West

"Fel darlithydd profiadol ym maes awtistiaeth, prin yr wyf yn gweld cwmnïau sector preifat yn cymryd camau mor bwrpasol i ymateb i anghenion y gymuned nad yw'n niwro-nodweddiadol, a gwell fyth, yn rhannu'u gwybodaeth yn agored. Ar ben hynny, mae comisiwn

Mi-Space o AutSiDe wedi fy ngalluogi i gymryd fy nghwmni ymgynghori bach i'r lefel nesaf ac i gynnig mwy o hyfforddiant i gynulleidfa ehangach."

Donna Sharland, Cyfarwyddwr AutSiDe Education and Consultancy Ltd

Lleoliad	Abertawe	Merthyr Tudful	Caerdydd (Wales and West)
Niferoedd a hyfforddwyd	41	33	25

Mae cyfanswm o 99 o bobl wedi derbyn hyfforddiant ar fodiwl "Awtistiaeth mewn Tai Cymdeithasol".

Fit & fed

Cymdeithas Tai Merthyr Tudful gyda Gemau Stryd Cymru, Bwrdd Iechyd Cwm Taf, Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful, Interlink, CBS Merthyr Tudful, CBS RhCT, Prosiect Ieuenctid 3G's, Fforwm Ieuenctid The Willows, Clwb Bechgyn a Merched Pant a Dowlais, Clwb Bechgyn a Merched Treharris, Sefydliad Gelli-deg, Think Family - MIA (Cymorth Ymyrraeth Luosog) a Barnardo's.



Ar ddiwedd gwyliau ysgol haf 2017, daeth Cymdeithas Tai Merthyr Tudful yn dra ymwybodol o'r gofynion cynyddol a roddir ar gyllid teuluol yn ystod gwyliau ysgol ar ôl ymgynghori â theuluoedd a gymerodd ran yn eu gweithgareddau grŵp ieuenctid. Soniodd nifer o deuluoedd sut roeddent yn trafferthu i ddod o hyd i'r

arian ychwanegol a oedd ei angen i fwydo eu plant ac i ddarparu gweithgareddau iddynt yn ystod gwyliau'r ysgol, gyda'r sefyllfa'n gwaethgu yn ystod y gwyliau haf hirach. Sylweddolodd y gymdeithas tai, er mwyn darparu cymorth i denantiaid Tai Merthyr yn ogystal â'r gymuned gyfan, y byddai angen iddynt ymrwymo ag asiantaethau partner er mwyn mynd i'r afael â'r broblem ar raddfa mor eang â phosib.

Gan ddefnyddio eu sefyllfa fel sefydliad seiliedig yn y gymuned, roedd eisoes gan Gymdeithas Tai Merthyr Tudful gysylltiadau â nifer o sefydliadau lleol a oedd hefyd am fynd i'r afael â'r broblem. Trwy fynychu cyfarfodydd cyfranogiad gyda darparwyr grwpiau ieuenctid lleol a'r gwasanaeth ieuenctid lleol, yn ogystal â chysylltu â'r bwrdd iechyd lleol a Gemau Stryd Cymru, roeddent yn teimlo y gallent wella'r sefyllfa'n sylweddol ar lefel lleol. Trwy'r cyfarfodydd hyn, daeth yn amlwg yn sydyn bod gan yr holl bartneriaid o faes iechyd, yr awdurdod lleol, y gwasanaeth ieuenctid, Gemau Stryd Cymru a Thai agenda debyg ond eu bod yn methu mynd i'r afael â'r broblem yn unigol. Trwy weithio gyda'n gilydd, fodd bynnag, roeddent yn gallu cronni ein hadnoddau priodol a cheisio sicrhau bod pobl ifainc ledled y fwrdeistref yn gallu cael mynediad at weithgareddau am ddim gyda phrydau bwyd a byrbrydau iachus am ddim trwy gydol cyfnod y gwyliau ysgol.

Roedd gan bob sefydliad partner ei arbenigedd a gwerth ei hun i'w darparu i'w grŵp a rôl Cymdeithas Tai Merthyr Tudful oedd cyrchu ffrydiau ariannu a chydlynu cyflwyniad y rhaglen. Wedi llwydo sicrhau ariannu trwy'r bwrdd iechyd lleol, derbyniodd

Tai Merthyr y grant cyn mynd ati i gadw golwg ar gyflwyniad y prosiect yn ogystal â chyd-lynu'r monitro er mwyn sicrhau bod modd darparu manylion ar fuddion y prosiect mewn modd effeithiol. Dyma oedd y rôl allweddol yn llwyddiant cyflwyniad y prosiect gan fod angen i bob safle ac asiant cyflwyno gytuno i ethos y rhaglen ac i gyflwyno'r safon a gytunwyd, tra hefyd â'r rhyddid i gyflwyno rhaglen a oedd yn addas i'w hardaloedd a phobl ifainc penodol. Fe greodd hyn nifer o anawsterau, ond trwy weithio ar y cyd â phob un o'r safleoedd a chreu cytundeb lefel gwasanaeth, roeddent oll yn gallu cytuno i weithio mewn modd tebyg iawn ond hefyd â'r hyblygrwydd i gyflwyno'r cynllun mewn gwahanol ffordd.

Mae'r dull hwn o gydweithio wedi caniatáu i'r prosiect wella'r gwasanaeth cyffredinol a gynigir i bobl ifainc yn y fwrdeistref yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae hefyd wedi cael effaith fawr ar sicrhau bod pobl ifainc agored i niwed yn cael y cyfle i fynychu darpariaeth hamdden am ddim ac yn cael y cyfle i fwyta prydau a byrbrydau iachus o leiaf tair gwaith yr wythnos trwy gydol gwyliau'r ysgol. Mae'n bosibl mai'r canlyniad pwysicaf i ddefnyddwyr cyfredol y gwasanaeth, ynghyd â rhai'r dyfodol, yw bod y prosiect wedi creu templed y gellir ei dyblygu ar gyfer prosiectau cyfredol a rhai'r dyfodol. Trwy'r dull cydweithredol, mae cost y rhaglen wedi cael ei gadw'n isel gan ddefnyddio arbenigedd y

sawl a oedd ynghlwm ac osgoi talu am wasanaethau allanol, sy'n golygu bod yr ariannu o lai na £13,000 wedi bod yn ddigonol i ddarparu'r gwasanaeth ar draws 7 safle ar gyfer y 6 wythnos o wyliau yn ogystal â 2 wythnos ychwanegol hanner tymor, sy'n sicrhau bod y prosiect yn cyflwyno gwerth eithriadol am arian.

"Mae pobl ifainc wedi dweud bod yr haf hwn wedi bod yn llawn gweithgareddau ffantastig iddynt. Buasem wrth ein boddau yn gweld y fenter hon yn digwydd bob blwyddyn oherwydd mae wedi bod yn ddull ymrwymo gwych ar gyfer gweithwyr ieuenctid."
(Clwb Bechgyn a Merched Troedyrhiw)

"Does dim amheuaeth bod Cymdeithas Tai Merthyr Tudful yn gwybod gwir ystyr gweithio mewn partneriaeth a sut i'w roi ar waith - edrychwn ymlaen at gydweithio eto yn y dyfodol!" (Interlink a Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful)

"Mae Cymdeithas Tai Merthyr Tudful wedi cydlynu 7 safle cymunedol, gan gefnogi sefydliadau lleol i ddarparu'r canlynol mewn modd effeithiol: prydau bwyd iachus a maethlon i bobl ifainc, cyfleoedd chwaraeon cadarnhaol ac awyrgylch diogel lle mae pobl ifainc yn gallu chwarae, cymdeithasu, tyfu, datblygu a hyd yn oed gwirfoddoli."
(Gemau Stryd Cymru)

Canlyniadau a chyflawniadau

Canlyniadau gwreiddiol y prosiect oedd mynd i'r afael ag eisiau bwyd yn ystod y gwyliau trwy ddarparu nifer o brydau bwyd am ddim i bobl ifainc a allai fod fel arall yn mynd heb fwyd yn ystod gwyliau'r ysgol a hefyd i ddarparu'r bobl ifainc hyn at fynediad at weithgareddau hamdden. Mae'r prosiect wedi bod yn fwy llwyddiannus nag yr oedd Cymdeithas Tai Merthyr Tudful wedi ei obeithio gyda phob un o'u partneriaid yn cyflwyno cymysgedd amrywiol ac eclectig o weithgareddau i bobl ifainc sydd wedi gwella iechyd a llesiant a sicrhau eu bod yn gallu bwyta prydau bwyd iachus yn ystod cyfnod pan allent fel arall fod mewn perygl o unigedd cymdeithasol, diffyg maeth a

nifer o amddifadiadau eraill. Maen nhw wedi rhagori ar eu rhagamcaniadau gwreiddiol ar ymrwymïadau dros gyfnod y gwyliau gyda dros 500 o bobl ifainc yn cyrchu'r ddarpariaeth a gyda phob un o'r bobl ifainc hyn yn derbyn mynediad am ddim i weithgareddau yn ogystal â phrydau bwyd a byrbrydau iachus. Er y bydd y bobl ifainc sy'n gwneud defnydd o'r gwasanaeth yn elwa o'r cynllun ac yn gweld gwelliant cysylltiedig yn eu hiechyd a llesiant, cyflawniad mwyaf y prosiect yw'r dull gweithio ar y cyd. Mae'r dull hwn wedi datblygu templed a fydd yn galluogi dichonoldeb hir dymor y prosiect, gan sicrhau y bydd mwy o bobl ifainc ar eu hennill yn y dyfodol.

Cefnogaeth magu plant tŷ nightingale

Cymdeithas Tai Cadwyn gyda Dechrau'n Deg



Hostel 26 ystafell wely ar gyfer teuluoedd sy'n dioddef digartrefedd yw Tŷ Nightingale, a reolir gan Gymdeithas Tai Cadwyn. Aeth Tŷ Nightingale at brosiect Dechrau'n Deg i ddatblygu menter ar y cyd ym mis Ebrill 2017 i gyd-gyflwyno dau gwrs penodol gyda'r nod o wella sgiliau magu plant a gwydnwch teuluoedd. Cwrs deng wythnos yw Parent Nurturing sy'n canolbwyntio ar lesiant a gwydnwch rhieni, ac ar yr un pryd yn ymdrin â strategaethau i ymateb i, a rheoli, ymddygiad plant mewn modd cadarnhaol. Cwrs 6 wythnos yw Gro Brain sy'n canolbwyntio ar feichiogrwydd hyd at flwydd oed gan ddysgu rhieni am greu cwlwm a chysylltiad a sut mae rhieni'n gallu gosod y sylfeini ar gyfer llesiant emosiynol gydol oes eu plentyn.

Cyn dechrau cydweithio, roedd Dechrau'n Deg yn cyflwyno'r cyrsiau yn y gymuned felly roedd rhaid i drigolion â diddordeb orfod teithio gyda'u plant i fynychu lleoliadau oddi ar y safle. Mae canran uchel o drigolion Cymdeithas Tai Cadwyn yn ffoi rhag cam-drin domestig, felly roedd teithio yn bryder o ran diogelwch. Maen nhw'n dra ymwybodol bod mwyafrif eu trigolion wedi dioddef trawma ac yn aml yn cael trafferth yn adeiladu perthynas gyda gweithwyr proffesiynol nad ydynt yn eu hadnabod. Bu'r gymdeithas ddarganfod bod y ffactorau hyn yn anghymell trigolion neu ei fod yn sefyllfa rhy anodd ei reoli a'u bod yn stopio mynychu.

Penderfynodd y gymdeithas hyfforddi staff Tŷ Nightingale i gyflwyno'r cyrsiau'n fewnol ar y cyd â Dechrau'n Deg oherwydd eu bod yn teimlo y gallent oresgyn y rhwystrau uchod. Roedd cyflwyno'r cyrsiau yn yr hostel yn helpu trigolion i deimlo'n fwy cyfforddus mewn amgylchiadau cyfarwydd. Yn

ganolog i'r gefnogaeth a gynigir yn Nightingale mae'r berthynas gref rhwng staff a thrigolion, ac roedd Cymdeithas Tai Cadwyn yn teimlo, trwy gynnwys staff Nightingale wrth gyflwyno'r cyrsiau, y byddai yna gynnydd yn lefel yr ymrwymiad. Dywedodd Diane Brookes (Dechrau'n Deg) "Roedd staff allweddol yn yr hostel yn adnabod manteision cyd-gyflwyno, ac mae hyn wedi ein galluogi i gronni adnoddau a phrofiad er mwyn cyflwyno darpariaeth o ansawdd. Trwy weithio mewn partneriaeth, mae'n rhoi cyfle i ddarparu cefnogaeth 'gyflawn' i'r trigolion, oherwydd cynefindra'r staff a'r lleoliad. Mae hyn yn caniatáu i drigolion gael cefnogaeth barhaus gan weithiwr hwyluso allweddol yn dilyn sesiwn. Dyma rywbeth sy'n unigryw i'r bartneriaeth hon."

Fe hyfforddwyd aelod o staff gwrywaidd hefyd ac ar hyn o bryd, ef yw'r unig ddyn sy'n cyflwyno'r cyrsiau yng Nghaerdydd. Roeddem yn ymwybodol y cyflwynwyd y cyrsiau'n flaenorol oddi ar y safle gan dîm o fenywod yn unig ac roeddem yn teimlo ei bod yn bwysig bod y cyrsiau'n ddeniadol i drigolion gwrywaidd hefyd. Dywedodd Aileen Johnson (Dechrau'n Deg) "Mae bob tro'n fwy buddiol i'r teuluoedd gael pobl sydd eisoes yn eu hadnabod. Yn arbennig gan fod rhai o'r rhieni'n teimlo'n agored i niwed ac yn teimlo eu bod yn methu ag ymddiried ym mhobl nad ydynt yn eu hadnabod. Rwyf wedi cyflwyno PNP ddwywaith yn Nightingale ac wedi cael llwyddiant bob tro. Rhan o'r rheswm dros hyn yw bod y staff yn Nightingale eisoes wedi adeiladu perthynas dda gyda'r teuluoedd, felly maen nhw'n teimlo'n fwy cyfforddus i fynychu."

Doedd dim cost ynghlwm â'r cydweithrediad hwn. Darparwyd y cyrsiau hyfforddiant i staff Nightingale am ddim. Darparodd Nightingale feithrinfa am ddim ar gyfer y plant ynghyd ag ystafell hyfforddiant i gyflwyno'r cwrs.

Gydag ymwybyddiaeth gynyddol o effaith profiadau niweidiol yn ystod plentynod, mae'n fwyfwy amlwg bod plentyn angen awyrgylch cartref a magwraeth ddiogel ac ysgogol. Bu i'r gymdeithas adnabod y byddai'r cyrsiau hyn yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â nifer o'r pryderon a all arwain at ymyraethau gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ac, mewn rhai achosion, maent wedi golygu bod plant wedi eu tynnu o'r gofrestr. Gyda budd profedig pellach bod y cyrsiau'n lleihau dibynadwyedd hir dymor ar wasanaethau iechyd gan fod rhieni'n gwneud dewisiadau mwy iachus a hysbys, mae'r cydweithrediad hwn bellach wedi dod yn rhan annatod o'n cefnogaeth i bob un o'n teuluoedd digartref.

Canlyniadau a chyflawniadau

Ers mis Ebrill 2017, mae 20 o deuluoedd wedi ymrwymo gyda Gro Brain a Parent Nurturing. Bu i 90% lwyddo cwblhau 6 wythnos o Gro Brain a 10 wythnos o Parent Nurturing. Dyma gyfradd gwblhau drawiadol o ystyried natur ein grŵp o gleientiaid sydd yn aml â ffyrdd o fyw cythryblus. Roedd Cymdeithas Tai Cadwyn yn gallu adnabod teuluoedd yr oedd angen cefnogaeth ychwanegol arnynt e.e. datgelodd mam ifanc ei bod yn dioddef o seicosis ôl-enedigol. Sicrhodd staff yr hostel ei bod yn derbyn cefnogaeth arbenigol a arweiniodd ati'n derbyn triniaeth briodol a oedd yn golygu ei bod yn gallu parhau i ofalu am ei mab.

Roedd y cyrsiau'n ymdrin â materion megis parchu teimladau plant, gofalu am ein hunain, sut mae straen yn effeithio ar blant a chanmoliaeth. Ar ôl cwblhau, dywedodd 100% o'r teuluoedd bod eu lefelau hyder naill ai'n hyderus neu'n hyderus iawn.

Dywedodd 100% o deuluoedd a gwblhaodd y cwrs y byddent yn argymhell y cwrs i eraill.

Dyma rai esiamplau o'r adborth a dderbyniwyd:

- 'Rwy'n dod yn fam fwy digyffro, llai ffwdanus sy'n gweiddi llai ac yn mwynhau treulio amser gyda fy merch.'
- 'Rwy'n fwy amyneddgar ac empathig fel rhiant.'
- 'Rwy'n sylweddol nawr bod angen i mi ofalu amdanaf i fy hun fel bod egni gennyf yn ystod y diwrnod gyda fy merch.'
- 'Rwy'n chwarae mwy gyda fy mab. Mae gennyf well dealltwriaeth o deimladau fy mhiant.'

Gwobr grymuso a chynnwys cymunedau

Noddwyd gan  united living

Mae'r wobwr hon yn adnabod dulliau llwyddiannus o gynnwys, grymuso a chefnogi tenantiaid a thrigolion i lunio gwasanaethau, i yrru gwelliannau ac i gyflwyno newidiadau pwrpasol mewn sefydliadau neu gyda'r gymuned. Mae'r prosiectau ar y rhestr fer wedi gallu dangos o leiaf un o'r canlynol:

- Bod aelodau o'r gymuned wedi helpu llunio sut y cyflwynir gwasanaeth, gan ddangos buddion gwirioneddol y dull newydd
- Bod aelodau o'r gymuned wedi cael eu grymuso i yrru gwelliannau mewn unrhyw agwedd ar y busnes, gan ddangos canlyniadau unrhyw welliant gan ddefnyddio senario cyn ac ar ôl
- Bod y gymuned wedi gweld newid pwrpasol o ganlyniad i waith sefydliad i gefnogi aelodau o'r gymuned i'w gyflwyno - rhaid darparu tystiolaeth o'r newid i gefnogi hyn.

Cydweithfa tai cymdeithas pentref loftus

Grŵp Pobl gyda Chymdeithas Pentref Loftus



Mae Cydweithfa Tai Cymdeithas Pentref Loftus yn brosiect tai bywiog ac ysbrydoledig sydd wedi grymuso 19 o unigolion a theuluoedd i weithio gyda'i gilydd i greu cymuned newydd, lewyrchus yn Nwyrain Casnewydd.

Cydweithfa Tai Cymdeithas Pentref Loftus yw cydweithfa tai gyntaf Casnewydd a'r unig gydweithfa perchnogaeth a rennir/aml-ddeiliadaeth yn y Deyrnas Unedig. Mae'n un o dri chynllun cydweithfa dai arloesol a gychwynnwyd gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru.

Mae creu cydweithfa tai wedi bod yn gromlin ddysgu serth i Grŵp Pobl fel sefydliad ac ar gyfer y cydweithredwyr. Ychydig iawn o'r bobl a oedd ynghlwm oedd yn gwybod unrhyw beth am dai cydweithredol (sy'n dod mewn sawl ffurf), felly maen nhw wedi adeiladu a dysgu gyda'i gilydd.

Mae wedi bod yn daith anodd ar adegau lle'r oedd gofyn am lawer o amynedd, hyblygrwydd a dysgu gan bawb. Ar gyfer aelodau'r gydweithfa, mae wedi ymwneud ag ennill yr hyder a sgiliau i gymryd cyfrifoldeb dros eu cartrefi a'u cymuned.

Mae'r gydweithfa'n casglu'r rhent ar ran Charter, yn ymdrin ag ôl-daliadau lefel isel, achosion niwsans yn y gymdogaeth, symudiadau i lety newydd ac aelodau newydd. Mae staff Pobl wedi gorfod dysgu sut i adael fynd ac ymddiried mewn grŵp embryonig i gyflawni swyddogaethau rheoli allweddol.

Cyn symud i mewn dwy flynedd yn ôl, byddai'r cydweithredwyr yn cwrdd bob pythefnos am dros flwyddyn gan fynd i'r afael â'r tasgau cymhleth o gydysgrifennu cytundebau rheoli, polisïau casglu rhent ac ôl-daliadau, yn ogystal â'u cyfansoddiad a rheolau eu hunain. Roedd llawer o'r gwaith hwn yn fanwl, yn llafurus ac yn anodd.

Pan symudant i mewn, daeth y realiti o fyw'n gydweithredol i'r amlwg. Mae'r theori wedi bod yn realiti am ddwy flynedd ac mae Cydweithfa Tai Cymdeithas Pentref Loftus yn parhau i dyfu mewn hyder, i ymgymryd â heriau newydd, ac i ddarganfod mwy am eu hunain a beth mae bod yn gydweithfa wir yn ei olygu.

Maen nhw wedi bod yn ddewr, gan alw Pobl a'r awdurdod lleol i gyfrif am fodurwyr a oedd yn goryrru a chysylltu â Sustrans i gyflwyno mesurau gostegu traffig yn eu stryd.

Maen nhw wedi bod yn ddygn, gan blagio i gael y newidiadau gofynnol i drawsnewid garej cymunedol i adeilad y gallant ei defnyddio fel man cyfarfod dan do.

Mae eu gardd gymunedol brydferth yn deyrnged i egni ac ymrwymiad nifer o'r aelodau a weithiodd i greu ardal o harddwch a thawelwch.

Maen nhw wedi defnyddio pŵer bargeinio ar y cyd i sicrhau cyfraddau gwych i aelodau ar gyfer costau'r cartref e.e. cynnal a chadw boeleri a biliau ynni.

Maen nhw wedi cyflawni pob un o'u tasgau rheoli tai, mae ganddyn nhw 0% o ôl-daliadau ac ar ben hynny maen nhw wedi gosod un tŷ a threfnu ailwerthu un arall.

Mae gan y gydweithfa offer garddio y maen nhw i gyd yn eu rhannu. Oherwydd y galw, fe brynwyd peiriant lladd gwair mwy eleni. Trwy rannu'r peiriant lladd gwair, gallant arbed hyd at £2,000 ar eu gwariant cartref.

Mae'r gydweithfa wedi gweithio'n galed i ddod â'r gymuned ehangach ynghyd. Mae wedi trefnu digwyddiadau yn y gymuned a oedd yn cynnwys canu carolau adeg Nadolig, diwrnodau llawn hwyl adeg

Calan Gaeaf a'r Pasg, diwrnodau chwarae yn y stryd, a digwyddiadau cymdeithasol, anffurfiol yn y stryd, gyda gwahoddiad i'r gymdogaeth gyfan.

Mae plant lleol (rhai sydd ddim yn byw yn y stryd ond sy'n byw gerllaw) wedi helpu gyda'r ardd gymunedol ac wedi mwynhau dysgu am y mwynhad a ddaw wrth dyfu pethau.

Yn ystod eu Diwrnod Chwarae Allan diweddar, roedd cyfle i'r plant chwarae'n ddiogel yn y stryd, gan wahardd cerbydau modur am y diwrnod. Y Gydweithfa drefnodd cau'r ffordd ynghyd â phrynu'r offer chwarae gan gynnwys sialc, cylchau hwla a rhaffau sgipio.

Nid yw popeth wedi bod yn wych. Mae gwahaniaethau o farn wedi bod, apathi gan rai, rhai heriau cymhleth a phenodol iawn, a'r cwyno mae pob un ohonom yn rhagori arno.

Serch hynny, mae'r Gydweithfa a Grŵp Pobl yn dal i weithio'n galed. Rhyngddynt, maen nhw'n darparu esiampol ffantastig o rymuso a chynnwys cymunedau.

Canlyniadau a chyflawniadau

- creu cydweithfa tai gyntaf Casnewydd
- hyfforddi a gwella sgiliau 19 o unigolion ym maes rheoli tai ac egwyddorion cydweithfa
- creu cymuned ddiogel, werdd, gynhwysol a hunan-ddibynnol
- creu model cyfreithiol ac ariannol newydd ar gyfer tai cydweithredol y gall eraill ei fabwysiadu
- cyflawni cymuned wyrddach, amgylcheddol-gynaliadwy gydag adnoddau a rennir
- lleihau ôl-troed carbon y stryd trwy rannu adnoddau
- herio a newid ymddygiadau gyrru er mwyn creu stryd fwy diogel
- lleihau costau cartref aelodau trwy fargeinio ar y cyd
- rhedeg gardd gymunedol a phrosiect tyfu bwyd i hyrwyddo addysg a rhyngweithio cymdeithasol trwy dyfu llysiau
- casglu 100% o'r rhent / 0% o ôl-daliadau
- hyrwyddo synnwyr o hunaniaeth a pherthyn a gwneud cyfraniad mawr at gydlyniant cymunedol yn y gymdogaeth gyfan
- hyrwyddo democratiaeth trwy ddefnyddio Dotmocratiaeth fel modd o wneud penderfyniadau. (Dyma le rydych yn defnyddio nifer gyfyngedig o sticeri dotiau i bleidleisio ar fater)
- cydnabyddiaeth gan Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent am ei waith i gynnig gweithgareddau sy'n dangos undod, yn caniatáu i bobl ofalu am ei gilydd ac i rannu adnoddau
- cymeradwyaeth gan Adfywio Cymru am ei waith yn helpu i greu Cymru wyrddach, fwy cynaliadwy
- darparu gweithgareddau dysgu ar gyfer plant lleol (nid aelodau'r Gydweithfa yn unig).

Saving the terrace

Cymdeithas Tai Teuluoedd gyda Thenantiaid sy'n byw yn Hazel Court



Taro'r wal

Roedd Saving the Terrace wedi taro'r wal! O leiaf, dyma sut roedd yn teimlo yn Hazel Court, un o'u cynlluniau gofal ychwanegol yn Abertawe sy'n darparu cartrefi i 150 o denantiaid mewn 120 o fflatiau.

Problem y gymdeithas oedd bod eu bwyty yr oeddent yn ei is-gontractio ddim yn gwneud unrhyw arian a doedd heb fod yn gwneud unrhyw arian ers blynnyddoedd - doedd hyn methu â pharhau!

Roeddent wedi bod yn rhoi cymhorthdal mawr i'r bwyty bob blwyddyn. Roedd dirywiad wedi bod yn nifer y tenantiaid a oedd yn ei defnyddio ac roedd penderfyniad y cyngor i dynnu allan o ddarparu prydau bwyd gofal yn golygu bod y colledion yn cynyddu. Roeddent yn gwybod bod nifer o gymdeithasau tai eraill wedi cael gwared â'u darpariaeth arlwygo oherwydd eu bod hwythau hefyd ar golled. Fodd bynnag, ar ôl ymgynghori gyda thenantiaid y gymdeithas a ddywedodd wrthynt ba mor bwysig oedd y bwyty, roeddent eisiau dod o hyd i ffordd iddo allu parhau - cau'r bwyty fyddai'r dewis olaf.

Dull radical

Gyda gweithgor bach yn cynnwys tenantiaid a staff y Gymdeithas Tai Teuluoedd, ynghyd â chefnogaeth ymgynghorydd, fe benderfynom gychwyn proses deialog cystadleuol. Pennodd Saving the Terrace yr hyn a fyddai'n cynrychioli'r "gwasanaeth delfrydol" ar gyfer eu tenantiaid a'r Gymdeithas Tai Teuluoedd ac fe gynhyrchon nhw friff gwasanaeth a'i hyrwyddo ar GwerthwchiGymru, trwy gyfryngau cymdeithasol ynghyd â'i anfon yn uniongyrchol at nifer o fusnesau bach lleol.

Aethant ati'n weithgar i wahodd sefydliadau a busnesau bach i gwrdd â nhw, i fynd ar daith o'r lleoliad ac i gwrdd â'r tenantiaid gan roi cyfle iddynt roi'r holl wybodaeth ariannol gyfredol iddynt ac i fod yn agored iawn am y sefyllfa gyfredol.

Y broses ddethol

Dewisodd Saving the Terrace 6 sefydliad i ddod i siarad â nhw, gan gynnwys arlwywyr preifat, busnesau preifat lleol a menter gymdeithasol.

Cyfwelwyd bob sefydliad gan y gweithgor a oedd yn cynnwys tenantiaid, staff rheng flaen a rheolwyr y Gymdeithas Tai Teuluoedd. Fel y gallwch ddychmygu, roedd gan bob sefydliad syniadau a chynlluniau tra gwahanol am sut i ddarparu'r gwasanaeth ynghyd â gwahanol gynigion ariannol. Gofynnodd y tenantiaid a'r staff amrediad o gwestiynau i bob sefydliad er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r hyn roedd pob un yn ei gynnig.

Sgoriwyd pob sefydliad gan bob aelod o'r gweithgor, gyda sgôr tenantiaid a staff yn cyfri'n gyfartal.

Ar ddiwedd y diwrnod roedd pawb yn unfrydol yn cytuno pwy i'w roi ar y rhestr fer a dewisodd y gymdeithas tri sefydliad i symud i mewn i broses tendro cystadleuol.

Torri drwodd

Cyflwynodd bob un o'r sefydliadau dendr, ac fe ddewiswyd sefydliad newydd i ddarparu'r arlwygo gan banel o ddau aelod o staff a dau denant, gyda phleidleisiau'r staff a thenantiaid yn cyfri'n gyfartal unwaith eto.

Datblygodd y gymdeithas weledigaeth newydd o sut ddylai'r gwasanaeth edrych ar gyfer y tenant, gan ddewis symud o berthynas is-gontractwr i brydlesu'r bwyty, y gegin a'r holl gyfarpar i'r darparwr newydd (neu'r tenant, fel maen nhw'n cael eu galw nawr!)

Y Dyfodol

Busnes lleol gyda nifer o fwytai eraill (y mae'r tenantiaid yn hoff iawn ohonynt!) enillodd y broses tendro. Mae Saving the Terrace dal ar gychwyn eu taith ac maen nhw wedi'i sefydlu ers ychydig dros 2 fis.

Barn tenantiaid

Dywedodd Layton: "Roedd yn foddhaol iawn ac rwy'n ei gwerthfawrogi'n fawr."

Roedd Naomi "Yn teimlo wedi fy nad-rymuso oherwydd salwch ac roeddwn wedi colli fy swydd, fe roddodd hyn grym i mi yn fy mywyd. "Ers hynny, mae Naomi wedi bod yn cyfranogi yn y bwyty ac wedi gofyn i fod yn rhan o'r panel tenantiaid."

Canlyniadau a chyflawniadau

Bellach mae gan Saving the Terrace lesddeiliad sydd wir yn datblygu'r bwyty i gyrraedd ei lawn botensial ac maen nhw'n edrych ymlaen at y dyfodol. Hyd yn hyn, maen nhw wedi gweld:

- gwelliant yn ansawdd y bwyd a'r opsiynau a gynigir - gan gynnwys coginio bwyd ar archeb - rhywbeth nad oedd neb yn credu oedd yn bosib o'r blaen!
- oriau agor estynedig
- ennyn diddordeb tenantiaid er mwyn sicrhau eu bod yn darparu gwasanaeth maen nhw ei eisiau
- dod â masnach newydd i mewn o'r ardal gyfagos gan gyfrannu at wneud Hazel Court yn adnodd cymunedol

- mae'r adborth gan denantiaid wedi bod yn gadarnhaol iawn ac maen nhw'n gefnogol o'r fenter newydd
- roedd yr adborth gan denantiaid am yr holl broses yn gadarnhaol iawn ac roeddent yn teimlo wedi'u gwerthfawrogi ac yn rhan o redeg a llunio cyfeiriad strategol Hazel Court.

Ar ben hynny, mae mwy o gyfranogiad wedi bod gan denantiaid ym mhob agwedd ar Hazel Court e.e. strwythurau staffio, recriwtio staff, datrysiadau parcio.

The feeling is mutual

Tai Cymunedol Bron Afon



Golyga dull cyd-fuddiannol Bron Afon bod ymglymiad cymunedol yn fwy na gweithgaredd yn unig. Fel gwerth craidd, mae'n fodd o weithio sy'n tanategu'r penderfyniadau a wneir ganddynt, y gwasanaethau a ddarperir ganddynt a'r cyfeiriad a gymerir ganddynt fel sefydliad.

Mae aelodaeth Bron Afon wedi tyfu i bron i 2000 o bobl sy'n cael dweud eu barn i ddylanwadu ar y gwasanaethau a ddarperir. Mae hyn yn golygu mai dyma un o'r cwmnïau cydfuddiannol a chydweithfeydd mwyaf yn y wlad.

Tra bod eraill yn tynnu'n ôl, maen nhw'n cynnal eu presenoldeb yn y gymuned a byddant yn gweld cynnydd cynyddol ar eu gwasanaethau yn sgil hyn. Yn y cyd-destun hwn, bydd eu cwsmeriaid yn chwarae rôl gynyddol hanfodol wrth ddiffinio eu blaenoriaethau a'r modd orau o gyflwyno gwasanaethau effeithiol a phriodol sy'n darparu gwerth am arian i bawb.

Cyflawnwyd hyn trwy'r gweithrediadau canlynol:

- dyfodol cydfuddiannol - yn darparu cyfleoedd i Tai Cymunedol Bron Afon ymestyn eu haelodaeth ehangach i helpu i lunio a dylanwadu ar lefel strategol, mae'n flaenoriaeth allweddol a chaiff ei gyflawni trwy gyfarfodydd rheolaidd yn ystod y flwyddyn iddynt wrando ar farn, sylwadau ac awgrymiadau ein haelodau sy'n helpu i lunio ein gwasanaethau at y dyfodol.
- Fforwm Gwasanaethau Tenantiaid - yn sicrhau bod Bron Afon yn adolygu perfformiad yn erbyn safonau gwasanaeth a lefelau boddhad tenantiaid ac yn cytuno, pan fo'n briodol, ar gynlluniau i gyflwyno gwelliannau neu newidiadau.
- y tîm craffu - fel grŵp annibynnol maen nhw'n goruchwylio polisiâu a gweithdrefnau Bron Afon gan sicrhau eu bod yn deg i bawb, yn addas i'r diben ac yn darparu gwerth am arian. Cafwyd esiampl o hyn yn ystod yr adolygiad o'r gwasanaeth Atgyweiriadau Ymatebol pan sylwodd y tîm bod angen diweddarur polisi ar Ailgodi Taliadau y mae pob adran yn ei dilyn.

Ar hyn o bryd, nid yw Bron Afon yn gallu digolledu arian a gollwyd oherwydd atgyweiriadau y mae'r tenant yn gyfrifol amdanynt. O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, mae'r cyfarwyddwr eiddo a datblygu wedi comisiynu gweithgor i greu gweithdrefn newydd a'i roi ar waith.

Dywedodd cadeirydd y tîm craffu bod y broses yn oleuedig a'i bod yn wych gweld eu hargymhellion yn cael eu rhoi ar waith.

Mae gan Bron Afon amrywiaeth o grwpiau ychwanegol sy'n cynnig ymrwymiad teilwredig sy'n helpu i gefnogi anghenion a buddion ein haelodau.

Yn eu plith mae'r canlynol;

- grŵp cyfeirio amrywiaeth a chydaddoldeb
- fforwm cwynion
- Fforwm Ymddeoliad Afon
- grŵp diogelwch tân - nododd aelod sefydlol ei fod yn teimlo'n ddiogel yn byw mewn bloc uchel o fflatiau a'i bod yn falch gyda'r dull newydd a'r syniadau arloesol a gynigwyd gan y grŵp
- grŵp prydles.

Yn ogystal ag ymglymiad ffurfiol, mae swyddog Bron Afon yn gweithio ar draws y fwrdeistref yn ymgymryd â gwaith datblygu cymunedol, gan gefnogi pobl a chymunedau i greu newidiadau sy'n bwysig iddynt yn lleol, er mwyn creu mannau cynaliadwy, gwydn a ffyniannus lle mae pobl yn falch o fyw a gweithio. Maen nhw'n darparu cefnogaeth bwrpasol, hyfforddiant a datblygiad ar gyfer grwpiau lleol ac eiriolwyr cymunedol er mwyn iddynt allu cyflwyno cynlluniau gweithredu pwrpasol wedi'u teilwra yn unol ag anghenion a blaenoriaethau lleol.

Ymhlith yr esiamplau mae'r canlynol;

- Academi Aelodaeth - hyfforddiant am ddim, ar-lein yn seiliedig ar weithdai. Soniodd un o'r aelodau, Donna, am ei phleser o ennill swydd o ganlyniad uniongyrchol o ymgymryd â'r hyfforddiant
- datblygu Clwb Ieuencid newydd yn Garnsychan.
- amrediad o brosiectau rhwng y cenedlaethau sy'n herio canfyddiadau am oedran ac yn mynd i'r afael ag unigrwydd megis meithrinfa'n ymweld â chynllun ymddeoliad, pobl ifainc yn cefnogi pobl hŷn gyda phrosiectau garddio a'r prosiect Byth yn Rhy Hen
- prosiect dementia
- datblygu mannau chwarae i blant
- cynllun rhannu bwyd cymunedol, dywedodd cadeirydd Grŵp Cymunedol Northville bod hwn yn brosiect newydd ffantastig a fydd yn darparu cefnogaeth sydd ei hangen yn fawr i deuluoedd yn y gymuned sy'n dioddef o dlodi bwyd
- mentrau amgylcheddol e.e. perllan gymunedol a phrosiect tirwedd fwytdwy.

Canlyniadau a chyflawniadau

Mae ffordd newydd Bron Afon o weithio wedi gweld llawer o ymrwymiad gan bobl leol sydd wedi cyfrannu at nifer o benderfyniadau, gwelliannau a phrosiectau. Maen nhw wedi cyrraedd cyfanswm o 2,783 o aelodau sef cynnydd o 635 o bobl eleni, gyda dros 3250 o oriau gwirfoddolwyr wedi'u buddsoddi ym Mron Afon

- Dywedodd 97% o'r aelodau eu bod wedi derbyn gwybodaeth newydd neu ddefnyddiol a'u bod yn teimlo bod eu barn yn cael ei werthfawrogi
- Roedd 98% o'r aelodau'n teimlo eu bod yn gallu gwneud cyfraniad a bod pobl yn gwrando arnynt
- Ar hyn o bryd mae Bron Afon yn cefnogi 63 o grwpiau cymunedol ac maen nhw wedi sicrhau £60105.00 i gyflwyno prosiectau seiliedig yn y gymuned. Rhoddwyd cydnabyddiaeth i Swyddog Ymglymiad Bron Afon gan aelod o Grŵp Gweithredu St Dials a dywedodd ei bod yn wych yn eich helpu gyda cheisiadau am ariannu, cyrsiau ac yn ein cefnogi i wneud ein cymuned yn lle mwy diogel

- Roedd 100% o'r bobl yn ein cymunedau yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u grymuso i wneud newid yn eu cymuned, ac o ganlyniad mae eu synnwyr personol o lesiant ac ansawdd bywyd wedi gwella
- Dyfarnwyd dros £17000 i ymddiriedolaeth Bron Afon i gefnogi grwpiau lleol gyflwyno amrediad o weithgareddau yn seiliedig ar y gymuned sy'n darparu cyfleoedd i bobl gael eu cynnwys yn gymdeithasol a gwireddu eu potensial.

Grŵp tasg a gorffen gwasanaethau digidol cwsmeriaid

Newport City Homes



Sefydlwyd y grŵp tasg a gorffen Gwasanaethau Cwsmeriaid gan Newport City Homes i ddatblygu safonau gwasanaethau cwsmeriaid sy'n rhoi trigolion wrth wraidd eu gwasanaethau a gweithgareddau. Ei nod oedd sicrhau y byddai tenantiaid yn rhan uniongyrchol o'r broses o wneud penderfyniadau o ran datblygu safonau gwasanaethau cwsmeriaid a datblygu mecanweithiau y byddai trigolion Newport City Homes yn gallu eu defnyddio i dderbyn y gwasanaethau hyn ac i roi adborth.

Cyn sefydlu'r grŵp, dyma oedd y sefyllfa:

- nid oedd y safonau gwasanaethau cwsmeriaid cyfredol wedi cael eu mabwysiadu'n llawn ar draws Newport City Homes ac roedd nifer o staff a thrigolion ddim yn ymwybodol ohonynt
- nododd adborth am wefan Newport City Homes ei bod yn anhrefnus, hen ffasiwn ac yn anodd ei llywio. Roedd data monitro'r safle'n dangos bod dim llawer o bobl yn ymweld â'r wefan a bod mwyafrif yr ymweliadau i'r tudalennau recriwtio. Dywedodd y trigolion nad oedd y wefan yn ddull ddefnyddiol o gael gwybodaeth am Newport City Homes
- Nid oedd Newport City Homes wedi cylchredeg arolwg bodlonrwydd trigolion ers sbel, felly roedd y data ar fodlonrwydd yn hen ac yn seiliedig ar arolwg Llywodraeth Cymru a gynhaliwyd dwy flynedd yn gynharach
- roedd nifer o drigolion yn teimlo ei bod yn anodd mynychu swyddfeydd tai'r ardal, gyda rhai angen dal sawl bws neu gerdded pellteroedd sylweddol i gyrraedd swyddfa lle roeddent yn gallu cwrdd â staff wyneb yn wyneb.

Bu'r grŵp gorchwyl a gorffen Gwasanaethau Cwsmeriaid recriwtio dîm a oedd yn cynnwys cymysgedd o drigolion a oedd wedi cymryd rhan yn

flaenorol a rhai nad oedd erioed wedi cymryd rhan. Roeddent yn gymysgedd o drigolion o wahanol ardaloedd o'r ddinas, gan gynnwys cyfranwyr o saith cymuned, rhwng 23 a 76 oed ac yn cynnwys trigolion gyda phroblemau symudedd a nam ar y golwg, oherwydd roedd yn bwysig cael persbectif aelodau amrywiol ein cymuned a'u hanghenion penodol.

O ganlyniad i waith y grŵp, crëwyd arolwg bodlonrwydd STAR newydd. Cylchredwyd yr arolwg i 25% o'r trigolion bob chwarter, er mwyn osgoi tueddiadau tymhorol, felly ar ôl 12 mis, byddai pob trigolyn wedi derbyn yr arolwg, gan roi darlun o fodlonrwydd trigolion ar draws y ddinas.

Helpodd is-grŵp dirprwyedig i benodi datblygwyr gwe a fyddai'n adeiladu gwefan newydd Newport City Homes. Yna, fe weithiodd y grŵp ehangach gyda Newport City Homes ac ymgynghorwyr y grŵp gorchwyl a gorffen Gwasanaethau Cwsmeriaid i ddatblygu gwefan newydd, fwy ymatebol, y gall trigolion fewngofnodi iddi i gyrchu rhai gwasanaethau'n uniongyrchol a chwblhau rhai gweithgareddau hunanwasanaeth. Fe brofon nhw gynnwys a strwythur llywio'r safle cyn ei hadeiladu ac, wedi ei hadeiladu, fe brofon nhw'r safle cyn iddi fynd yn fyw. Yn ogystal â hyn, cynhaliodd y sefydliad sesiynau Cwestiwn ac Ateb ar-lein i gyrraedd trigolion nad oeddent wedi cymryd rhan yn draddodiadol. Mae Newport City Homes bellach hefyd yn darparu opsiwn sgwrsio ar y we er mwyn i drigolion allu cysylltu â rhywun yn fyw trwy'r wefan (www.newportcityhomes.com).

O ganlyniad i'r ymgynghori gyda thrigolion ar draws y ddinas ac ar y cyd â'r grŵp, mae Newport City Homes wedi agor swyddfa galw heibio newydd yng nghanol dinas Casnewydd, gyferbyn â'r orsaf bysiau, er mwyn gwneud y sefydliad yn fwy hygyrch i drigolion y grŵp.

Pwysicaf oll, efallai, gan weithio gyda staff ac uwch reolwyr, mae'r grŵp wedi datblygu Safonau Gwasanaethau Cwsmeriaid newydd Newport City Homes. Ar y cyd, fe gwblhaodd y grŵp fap o daith y cwsmer i archwilio gwasanaethau cyfredol y grŵp tasg a gorffen Gwasanaethau Cwsmeriaid cyn mynd ymlaen i weithio gyda'i gilydd i wneud gwelliannau a datblygu'r safonau gwasanaeth newydd. O ganlyniad i'r prosiect hwn, mae pob aelod o staff ar draws Newport City Homes wedi derbyn hyfforddiant uniongyrchol ar y safonau gan y rheolwr Profiad Cwsmeriaid, ac mae'r safonau wedi cael eu cyhoeddi a'u gwneud yn weladwy i'r trigolion. Ceir yr esiampl fwyaf amlwg o hyn yn swyddfa wyneb yn wyneb newydd y grŵp, lle mae'r safonau wedi'u harddangos yn fawr ar y wal gyda chyfle i drigolion ysgrifennu ar y wal, gan roi eu hadborth am gyflawniad y grŵp o'u safonau gwasanaethau cwsmeriaid.

Canlyniadau a chyflawniadau

- cynnydd yn y defnydd o wasanaethau ar-lein
- cyflwyno gwasanaethau'n well trwy'r wefan - 261 ymholiad yn y mis cyntaf, amser aros o 11 eiliad ar gyfartaledd
- darpariaeth hunanwasanaeth ar y wefan - crëwyd 143 achos a datrys 140 yn y mis cyntaf, mae'r rhain ar gael y tu allan i oriau, gyda chynlluniau i ymestyn yr amrediad o wasanaethau dros amser
- swyddfa newydd yng nghanol y ddinas nesaf yr orsaf fysiau gan ostwng amser teithio i nifer o drigolion "Lleoliad gwell, haws i'w gyrraedd na Thŷ Nexus" - Jim, Dyffryn. "Mae'r swyddfa hon lawer gwell! Llawer llai o gerdded i mi... Dywedais wrthynt yn Nexus ac fe dalon nhw sylw..." - dienw, Ringland
- cynnwys y trigolion mewn adolygiadau o wasanaethau, gan ymgorffori'r rhain yn y safonau gwasanaeth cwsmeriaid newydd gydag adolygiad o lety yn esiampl allweddol o hyn, gan i'r sefydliad gysylltu â 744 o trigolion, gyda 94 yn adrodd i mewn i'r adolygiad
- cynhaliwyd arolwg bodlonrwydd gyda chyfradd ymateb o 15%. Daeth 5 thema allweddol i'r amlwg ac fe roddwyd camau ar waith i fynd i'r afael â'r materion a godwyd e.e. rhoddwyd gweithrediadau ar waith gyda'r heddlu i wella diogelwch cymunedol, recriwtiwyd mwy o staff i wella amseroedd ymdrin â galwadau, recriwtiwyd tîm gofalu newydd i wella awyrgylch ein cymunedau a newidiwyd ffocws gwasanaethau cwsmeriaid i ffocysu ar ddatrys problemau ar y pwynt cyswllt cyntaf ac fe ailstrwythurwyd ein tîm Gwasanaethau Trigolion i adlewyrchu'r newid hwn mewn ffocws.

Gwobr rhagoriaeth cwsmeriaid

Noddwyd gan



Mae'r beirniaid wedi bod yn chwilio am ddull gwasanaethau cwsmeriaid ardderchog sy'n dangos lefelau uchel o fodlonrwydd ar gyfer y gwasanaeth a gyflwynwyd. Mae'r sefydliadau ar y rhestr fer wedi dangos ymrwymiad â chyflogeion ym maes gwasanaethau cwsmeriaid, ac wedi dangos gwelliannau ar draws y busnes. Edrychom ar y dull cyffredinol a'r canlyniadau penodol a gyflawnwyd. Mae'r beirniaid wedi bod yn edrych am geisiadau i ddangos esiamplau a allai gynnwys:

- cyflawni lefelau uchel o foddhad
- cyflogeion sy'n gwbl ymroddedig i wasanaethau cwsmeriaid
- tystiolaeth "cyn ac ar ôl" o welliannau a gyflawnwyd trwy ddatblygu gwella gwasanaeth i gwsmeriaid

Strategaeth mewnwelediad cwsmeriaid

Cymoedd i'r Arfordir gyda Energise Learning and Development Ltd, Mustard Research Ltd, Greenstone Data Solutions Ltd a'r Sefydliad Gwasanaeth Cwsmeriaid



Datganiad o Gefnogaeth

Blaenoriaeth strategol allweddol Cymoedd i'r Arfordir yw sicrhau bod y cwsmer yn ganolog i'w busnes - ond roedd angen iddyn nhw ddeall sut roedd cwsmeriaid yn teimlo amdany'n nhw ac ansawdd eu gwasanaethau. Roedden nhw eisiau darganfod beth oedd yn bwysig i'w cwsmeriaid a defnyddio'r mewnwelediad hwnnw i newid sut mae eu cydweithwyr yn rhyngweithio ac yn ymddwyn gyda chwsmeriaid, a newid sut maen nhw'n cyflwyno eu gwasanaethau i wella'r profiad cyffredinol i gwsmeriaid.

Creodd Cymoedd i'r Arfordir eu Strategaeth Mewnwelediad Cwsmeriaid i ennill y wybodaeth hon gan ddadansoddi'r data er mwyn iddynt allu deall y prif resymau dros fodlonrwydd eu cwsmeriaid. Fe

weithion nhw gyda 3 phartner allweddol i dynnu dull cynhwysfawr o ddeall eu cwsmeriaid ynghyd gan droi'r wybodaeth hon yn fewnwelediad y gellir gweithredu arno ac y gellir ei roi ar waith, sef yr hyn a olygir gan 'sicrhau bod y cwsmer yn ganolog i'w busnes'.

Mae'r strategaeth yn cynnwys 4 elfen integredig a chafodd ei chymeradwyo gan fwrdd y sefydliad ym mis Medi 2017:

- 1) Prynodd y busnes ddata o Greenstone Data Solutions Ltd a alluogodd iddynt adeiladu proffil o'u cwsmeriaid - fe lwyddon nhw uno data â 70% o'u cwsmeriaid a dechrau deall maint a chyfansoddiad eu haelwydydd; ble a sut roedd cwsmeriaid yn gwario eu harian; y lefelau o ddyled roeddent yn eu rheoli; sut roeddent yn defnyddio'r rhyngwrwyd a'u dewisiadau siopa; y papurau newydd a'r cyfryngau roeddent yn ymwneud â hwy - a llawer mwy - lefel o ddealltwriaeth a oedd yn gwbl newydd i sefydliad Cymoedd i'r Arfordir.
- 2) Aeth Cymoedd i'r Arfordir ati i gynnal arolwg dros y ffôn gyda'i bartner ymchwil Mustard Research Ltd. Mae cwsmer yn gynnwysedig o fewn sampl yr arolwg yn dilyn rhyngweithiad gwasanaeth allweddol (atgyweiriad i'w cartref; gosod llety newydd; gwaith cynnal a chadw boeler nwy; cwblhau gwaith a gynlluniwyd neu ymwneud â'u tîm Materion Arian). Mae'r arolwg yn mesur bodlonrwydd cwsmeriaid gyda'r gwasanaeth maen nhw newydd ei derbyn a bodlonrwydd cyffredinol gyda sefydliad Cymoedd i'r Arfordir. Roedd hefyd yn mesur i ba raddau roeddent yn 'ffans' o sefydliad Cymoedd i'r Arfordir trwy ofyn iddynt ba mor debygol oeddent o argymhell Cymoedd i'r Arfordir i'w ffrindiau a theuluoedd - dyma sut gynhyrchwyd ein Sgôr Hyrwyddwr Net. Mae'r arolwg misol hwn yn golygu ei bod yn ymrwymo â dros 1200 o gwsmeriaid yn ystod y flwyddyn - sef adborth gan 20% o'u sail

cwsmeriaid. Mae cwsmeriaid yn dweud wrthynt i'w gwneud yn haws iddynt gysylltu, ymrwymo a thrafod gyda sefydliad Cymoedd i'r Arfordir.

- 3) Roedd deall pam roedd cwsmeriaid yn teimlo fel yr oeddent yn dangos pwysigrwydd cydweithwyr wrth gyflwyno'r gwasanaethau hyn - tynnodd sylw ar y gwerth a roddwyd ar bobl Cymoedd i'r Arfordir gan ein cwsmeriaid a ddywedodd bod cydweithwyr yn gwrtais, yn gyfeillgar, yn ddeallgar ac yn ofalgar ond roedd Cymoedd i'r Arfordir yn ymwybodol bod rhai cydweithwyr yn dangos y rhinweddau hyn yn well nag eraill! Felly fe ddatblygon nhw raglen Adeiladu Gwasanaeth Ardderchog gyda'n Gilydd ar y cyd â Energise Learning and Development Ltd, gyda'r nod o hyfforddi pob cydweithiwr ar yr hyn a olygir gan brofiad gwych i gwsmeriaid; sut i gyflwyno hynny a sut gall eraill ar draws y sefydliad gyflwyno profiad gwych, dro ar ôl tro. Helpodd Energise y busnes

i ddatblygu eu rhaglen Adeiladu Gwasanaeth Ardderchog gyda'n Gilydd bersonol gan gwrdd â 70 cydweithiwr, yn ogystal ag aelodau ein bwrdd a chwsmeriaid, i ddeall problemau gyda'r gwasanaeth a'u rhwystredigaethau, a'r pethau sy'n gweithio'n dda neu y gellid eu gwella - ysgrifennwyd y rhaglen gan gydweithwyr a chwsmeriaid - nid rhaglen gwasanaethau cwsmeriaid 'parod' oedd hon!

- 4) Daeth Cymoedd i'r Arfordir yn aelod o'r Sefydliad Gwasanaethau Cwsmeriaid er mwyn gallu cyrchu'r ymchwil a'r meddwl diweddaraf am brofiadau gwych i gwsmeriaid a hefyd er mwyn meincnodi eu hunain yn erbyn y sefydliadau gorau yn y Deyrnas Unedig o ran canolbwyntio ar eu cwsmeriaid.

Canlyniadau a chyflawniadau

Mewn llai na 12 mis, defnyddiodd Cymoedd i'r Arfordir y ddealltwriaeth hon i hysbysu'r newidiadau a wnaed i'w gwasanaeth:

- 1) Rhoi system sgwrsio ar y we ar waith er mwyn i gwsmeriaid allu siarad â nhw'n uniongyrchol ar eu gwefan
- 2) Cyflwyno Homehunt (y Landlord Cofrestredig Cyntaf yng Nghymru!) - gan awtomeiddio eu prosesau cyfredol a'i gwneud yn haws i gwsmeriaid ymgeisio am gartref
- 3) Defnyddiodd Cymoedd i'r Arfordir negeseuon testun i gadarnhau apwyntiadau atgyweiriadau tai gydag unigolion ac i anfon negeseuon atgoffa ddweud wrth y cwsmer pan roeddent ar y ffordd!

Mae holl gyflogeion Cymoedd i'r Arfordir wedi cwblhau rhaglen hyfforddiant Adeiladu Gwasanaeth Ardderchog gyda'n Gilydd - bellach mae ganddynt iaith gwasanaethau cwsmeriaid newydd ac unigryw y maen nhw'n ei defnyddio o amgylch y busnes! Bodlonrwydd cydweithwyr gyda'r rhaglen oedd 96.81% - y sgôr uchaf erioed!

Mae Bodlonrwydd Cwsmeriaid (Ansawdd Cyffredinol y Gwasanaeth) a fesurwyd gan Mustard wedi codi 7% i 85.6% ers mis Mai 2017.

Cynyddodd Sgôr Hyrwyddwr Net cwsmeriaid i +55 ym mis Awst 2018 o'r waelodlin a gymerom gyda'r Sefydliad Gwasanaethau Cwsmeriaid ym mis Rhagfyr 2017, sef +37.6.

Ym mis Ebrill 2018, defnyddiodd Cymoedd i'r Arfordir ddata Greenstone i weithio gyda 603 aelwyd yr oeddent wedi'u hadnabod fel rhai a allai fod wedi trafferthu gyda'r cynnydd mewn rhent - fe lwyddodd y tîm Materion Arian sicrhau buddion pellach gwerth cyfanswm o £79,000 ar gyfer y cwsmeriaid hyn.

Mae dal rhagor i'w wneud - mae Cymoedd i'r Arfordir yn defnyddio'r mewnwelediad hwn i lunio eu model hunanwasanaeth ar gyfer 2019.

It's all about the base – our customer base

Cartrefi Conwy

Keeping the Customer Service Excellence communications flowing.



Screen Wobbler

Examples of items and publications used to involve colleagues in giving Customer Service Excellence to our customers.



Our Customer Promise

Ym mis Awst 2014, gyda Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid a thîm Gwasanaethau Cwsmeriaid newydd, dechreuodd Cartrefi Conwy ganolbwyntio ar godi ei broffil gyda'i holl gydweithwyr.

Ers hynny, mae pob agwedd o'n profiad i gwsmeriaid wedi gwella, gan gynnwys:

- ymdrin â chwynion a chanmoliaeth
- ymateb i atgyweiriadau
- rheoli gwaith i wella llety
- dealltwriaeth o fywyd o ddydd i ddydd a llesiant
- rhyngweithio â chwsmeriaid.

Mae Cartrefi Conwy wedi bod yn ceisio dod yn sefydliad 'Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid' ac fe lwyddon nhw!

"Roedd yn glir o ansawdd a manylder y dystiolaeth a gyflwynwyd ar gyfer yr asesiad bod Cartrefi Conwy yn weithgar o ran ceisio bodloni ethos a gofynion y Safon Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid." Robin Croft, Prif Aseswr

Sut lwyddon nhw

Roedd cael gwir fewnwelediad i'w sail o gwsmeriaid a gwneud 'Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid' yn flaenoriaeth o ran perfformiad y busnes yn allweddol i ddatgloi eu potensial. Mae cydweithwyr nawr yn siarad am brofiad cwsmeriaid - ymadrodd nad oedd yn cael ei glywed o'r blaen.

Mae Cartrefi Conwy wedi creu swydd swyddog Gwella Gwasanaethau sy'n ffocysu ar reoli cwynion. Roeddent eisiau cwsmeriaid bodlon a oedd â ffydd a hyder ynddynt. Mewn cyfnod byr iawn o amser, gyda'r hyfforddiant cywir, roedd cydweithwyr yn gallu cymryd cyfrifoldeb dros reoli cwynion yn dda.

Mae Swyddog Cyswllt Cwsmeriaid yn gweithio'n rhagweithiol ar y pwynt cyswllt cyntaf gyda thenantiaid mewn perthynas â gwelliannau arfaethedig. Mae'n ymdrin ag unrhyw anawsterau er mwyn iddynt allu rheoli'r gwaith yn seiliedig ar anghenion tenantiaid. Golyga hynny mai anaml iawn y bydd unrhyw bryderon yn datblygu yn gwynion ffurfiol

Tua'r un amser yn 2014, dechreuodd Cartrefi Conwy reoli ei gwasanaeth Cynnal a Chadw Eitemau Nwy yn fewnol a gyda'r arbedion a wnaed, roeddent yn gallu creu dwy rôl Partner Cartref newydd.

Yn ystod cynnal a chadw eitemau nwy, mae'r Partneriaid Cartref yn cynnal arolwg proffilio wyneb yn wyneb gyda thenantiaid, yn eu cartrefi - unwaith y flwyddyn - bob blwyddyn! Mae'r proffilio hwn nid yn unig yn darparu data a gwybodaeth bwysig ond hefyd, yn fwy arwyddocaol, yn rhoi cyfle iddynt weld eu tenantiaid, sy'n mynd y tu hwnt i'r data.

Mae'r mewnwelediad hwn mor werthfawr iddynt i helpu eu tenantiaid reoli eu tenantiaethau. Mae hefyd wedi cael effaith fawr ar y gwaith maen nhw'n ei gwneud gyda'u partneriaid, yn arbennig Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, yr awdurdod lleol a'u chwaer-sefydliad, Creating Enterprise.

Ni fyddai'r uchod wedi bod yn bosib heb newid sut mae cydweithwyr yn siarad â'r cwsmeriaid.

Defnyddiodd Cartrefi Conwy sawl menter ryngweithiol wahanol i helpu newid dulliau cydweithwyr at Ragoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid, gan gynnwys:

- gwneud Wythnos Genedlaethol Gwasanaethau Cwsmeriaid yn un o'r wythnosau pwysicaf yn eu calendr
- yn 2016, fe gyflwynwyd cynllun "People not Properties - Handle Complaints with CARE" gyda CARE yn niwmonig Saesneg; Care, Act, Respond, Explain (Gofalu, Gweithredu, Ymateb, Esbonio)
- yn 2017, fe gyflwynwyd cynllun SMILE - Ein Haddewid i Gwsmeriaid a ddatblygwyd gan Gydweithwyr a Thenantiaid sy'n dweud y byddwn: Yn cefnogi anghenion cwsmer, Yn creu argraff dda, Yn hysbysu ac yn diweddarau, Yn gwrando ac yn Gweithredu ac yn Uniaethu
- ers 2016, mae'r tîm wedi creu tri chyhoeddiad i gadw i fyny gyda sgysiau am brofiad cwsmeriaid: mae Gripes and Glory, PACE a Let's Talk oll yn rhoi diweddariadau ac awgrymiadau ar berfformiad
- maen nhw'n defnyddio eu harolwg bodlonrwydd fel arf dysgu, mae'n cael ei anfon allan ar ôl datrys unrhyw faterion ac fe rannir y pethau a ddysgir gyda phob tîm
- mae Cartrefi Conwy yn cadw cofnod o ganmoliaeth ac yn e-bostio cydweithwyr i ddweud diolch
- maen nhw hefyd yn ysgrifennu at y cwsmer i ddweud diolch am y ganmoliaeth
- mae Cartrefi Cymru yn aelod o Ymgyrch 'Plain English' sy'n golygu eu bod bellach yn ysgrifennu mewn modd sy'n fwy cyfeillgar i gwsmeriaid
- bob blwyddyn, mae cydweithwyr bellach yn cydnabod Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid ac yn enwebu ei gilydd am wobrau. Mae Cartrefi Cymru yn gwobrwyo Eiriolwyr Gwasanaethau Cwsmeriaid, Enillwyr Medal Aur ac mae hyd yn oed ganddynt chwe Uwcharwr Gwasanaethau Cwsmeriaid.

Connecting linc

Linc-Cymru



Cyflwyniad

Mae Linc wedi ymrwymo at wella'r gwasanaethau a gynigwn i denantiaid a thrigolion. Dros y 12 mis diwethaf, maen nhw wedi cymryd camau enfawr tuag at gyflwyno gwasanaethau cwsmeriaid ardderchog i bob cwsmer.

Sut ydyn ni wedi gwella?

Blaenoriaeth

Mae Linc wedi gwneud 'clywed llais y cwsmer' yn un o'r blaenoriaethau strategol allweddol ar gyfer ei bwrdd ac ar draws y busnes cyfan. Caiff ymrwymiad bwrdd a sefydliad Linc i wrando ar eu cwsmeriaid ac i wella gwasanaethau ei fonitro'n rheolaidd ac mae'n dangos eu hamcanion cadarnhaol i yrru gwelliant trwy weithio gyda a gwella profiad cwsmeriaid i denantiaid a thrigolion.

Y broses

Yn ogystal â gwneud gwasanaethau cwsmeriaid yn flaenoriaeth, roedd Linc hefyd eisiau profi ei gwasanaethau, gan ddefnyddio fframwaith i yrru gwelliannau parhaus, yn ogystal â chael her a dilysiad allanol. Mae nifer o 'achrediau gwasanaethau cwsmeriaid' ar gael ond fe benderfynon nhw ymgeisio am un o'r achrediau mwy heriol, 'Safon Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid'. Iddyn nhw, nid ennill yr achrediad oedd yn bwysig, ond dadansoddi sut roeddent yn gweithio, ac edrych ar sut gallent wneud pethau'n well ar gyfer eu tenantiaid a thrigolion.

Mae'r safon yn profi cyflwyniadau gwasanaethau cwsmeriaid, terfynau amser, gwybodaeth, yn ogystal â phroffesiynoldeb ac agwedd staff.

Treuliodd aseswr annibynnol deuddydd gyda Linc, gan gyfnewid â dros 30 o denantiaid, staff a rhan-

ddeiliaid gan asesu yn erbyn y safonau. Linc yw un o'r unig gymdeithasau tai i gyflawni'r safon, gan ddangos arferion canmoladwy mewn pum maes. Dyma ran o adborth yr aseswr:

"Cymerir llawer o ofal i ddatrys problemau ac i wneud pethau'n iawn i gwsmeriaid, mewn modd cyfeillgar a phroffesiynol."

"Gwelwyd agwedd hynod ragweithiol ymhlith yr holl staff y siaradwyd â hwy yn Linc."

"Ceir esiampl o ddiwylliant y sefydliad yn y pwysigrwydd mae'n ei roi ar arloesi a gwella gwasanaethau, grymuso pobl i wneud y penderfyniadau cywir sy'n cael effaith gadarnhaol ar brofiad cwsmeriaid."

Ochr yn ochr â'r safon gwasanaethau cwsmeriaid, mae Linc hefyd yn gweithio gyda'u tenantiaid i brofi gwasanaethau. Dywedodd y tenantiaid wrthynt fod cwynion ddim yn cael eu hymdrin yn drylwyr ac y dylai fod un pwynt cyswllt er mwyn sicrhau cysondeb, fel bod tenantiaid yn gwybod beth sy'n digwydd.

Derbyniodd Linc yr argymhelliad hwn yn llwyr gan roi pwynt cyswllt canolog mewn lle ac ailwampio sut roeddent yn ymdrin â chwynion. Y cyfrifoldeb nawr yw 'archwilio unwaith, archwilio'n dda', ac mae'n ymwneud â gwneud pethau'n iawn ar gyfer y cleient ar yr adeg gynharaf bosib.

Pobl

Mae tîm Linc wedi cael ei ennill nifer o sgiliau dros y flwyddyn ddiwethaf. Maen nhw'n parhau i fuddsoddi yn y tîm trwy ddysg a datblygiad pellach ar gyfer pob aelod o staff mewn meysydd yn amrywio o gyfraith tai, cyngor ar lesiant i sgiliau cyfathrebu fwy meddal o weithio mewn modd adferol. Ar adegau roeddent yn teimlo bod eu staff yn gwneud pethau ar gyfer tenantiaid, neu'n gwneud pethau i denantiaid, ac roedd yn hanfodol eu bod yn symud i fodel o weithio gyda'u tenantiaid. Dyma oedd y dull nid yn unig ar gyfer staff rheng flaen, ond ar gyfer y rheolwyr hefyd.

Mae tenantiaid yn rhan hanfodol o daith Linc at wella eu gwasanaethau cwsmeriaid. Maen nhw'n rhan annatod o'r broses hunanwerthuso ac yn cynnwys profwyr gwasanaethau tenantiaid a phanel o denantiaid. Cymerir argymhellion eu tenantiaid o ddifri, o welliannau syml megis newid eu neges cyfarch gychwynnol ar y ffôn i argymhellion mwy strategol gan gynnwys ailwampio eu proses cwynion.

Ar ben hyn, mae'r gymdeithas tai wedi lleihau maint ardaloedd yn ddiweddar, gyda'r nod o gael pob Swyddog Tai i ymweld â phob tenant bob blwyddyn i roi cyfle am sgwrs gyda'r tenantiaid am yr hyn sy'n gweithio'n dda, yr hyn sydd ddim yn gweithio cystal, unrhyw broblemau y gallai fod gan y tenant ac unrhyw ofynion am gefnogaeth ychwanegol.

Canlyniadau a chyflawniadau

Y newidiadau i ardaloedd Swyddogion Tai, gweithdrefnau cwynion cwsmeriaid ac ymrwymo mor agor gyda thenantiaid sydd wedi cael yr effaith fwyaf, gyda staff Linc wir yn ymrwymo at wella sut maen nhw'n cyflwyno'u gwasanaethau trwy weithio gyda'u tenantiaid i yrru newid. Roedd angen dull tîm cyfan ar gyfer y broses o ymgeisio am y Safon Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid, a thrwy hyn fe adeiladwyd ac ailadroddwyd pwysigrwydd y flaenoriaeth strategol hon ar gyfer Linc.

Mae'r canlyniadau cadarnhaol yn amlwg iawn, ac yn eu plith mae'r canlynol:

- Mae tîm cyswllt cwsmeriaid Linc yn datrys dros 70% o ymholiadau ar y pwynt cyswllt cyntaf, i fyny o ychydig dros 50%.

- Roedd 87% o denantiaid yn cytuno ei bod yn hawdd cysylltu â Linc a gwneud busnes â hwy yn eu harolwg bodlonrwydd tenantiaid diweddaraf
- cynnydd yn y ganran o denantiaid a thrigolion sy'n derbyn y gwasanaeth maen nhw'n ei disgwyl (cynnydd o 3%).

Isod, mae rhai o'r sylwadau diweddar yn yr arolwg bodlonrwydd tenantiaid diweddaraf:

"Mae'r gwasanaeth yn wych; pan rydych chi'n ffonio, maen nhw'n datrys y broblem yn syth a bob tro'n gynorthwyol iawn."

"Mae Linc yn wych yn datrys problemau ac mae'r cyfathrebu gyda thenantiaid yn dda iawn."

"Rwy'n credu eu bod nhw'n ardderchog. Pan rydych chi eu hangen nhw, maen nhw yno."

Gwobr arloesedd cyfathrebu

Noddwyd gan



Boed yn cyflwyno ymgyrch er budd cymdeithasol; yn delio gydag argyfwng neu'n codi ymwybyddiaeth, mae cyfathrebu ardderchog yn hanfodol i bob cymdeithas tai. Mae'r wobr newydd hon yn cydnabod timau tai (nid timau cyfathrebu penodol yn unig) sydd wedi dangos cyfathrebu eithriadol yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r rhai ar y rhestr fer wedi mynd i'r afael â rhai o'r canlynol, neu'r cwbl:

- tactegau cynllunio, strategaeth ac ymgyrchu
- tystiolaeth o effaith cyfathrebu e.e. sylw yn y wasg, mwy o gefnogwyr
- tystiolaeth o ganlyniadau

Bydd y beirniaid yn ystyried yr effaith yn erbyn y gyllideb cyfathrebu wreiddiol.

Be like bob – get ready for universal credit

Cymdeithas Tai Unedig Cymru



Mae gan Gymdeithas Tai Unedig Cymru rôl bwysig i'w chwarae wrth baratoi ei denantiaid ar gyfer newidiadau i fudd-daliadau.

Roedd eu deunyddiau cyfathrebu blaenorol yn cynnwys gormod o destun gyda phrinder galwadau syml i weithredu, felly fe greon nhw ymgyrch hawdd ei dilyn i helpu tenantiaid baratoi ar gyfer y newidiadau a ddaeth yn sgîl diwygio lles.

Categoriodd Cymdeithas Tai Unedig Cymru y wybodaeth yn dri phrif faes: bancio; mynd ar-lein a chyllidebu.

Gan fod llythrennau cyntaf y tri maes hyn yn Saesneg; Banking (bancio), getting online (mynd ar-lein) a budgeting (cyllidebu) yn sillafu BOB, fe greon nhw fasgot Bob!

Mae cysyniad yr ymgyrch 'Be Like Bob' yn dweud y dylai tenantiaid fod fel Bob oherwydd ei fod yn rheoli ei daliadau Credyd Uniongyrchol ar ôl trefnu ei fancio, ei fynediad â'r rhyngwyd a'i gyllideb.

Yn gyntaf, fe ymchwilion nhw segmentiad cwsmeriaid a phennu pa lefel o gefnogaeth oedd tenantiaid ei hangen; gan ddefnyddio data Experian i'w rhoi mewn tri grŵp gan ddibynnu ar lefelau o adfyd ariannol: coch, melyngoch a gwyrdd.

Y grŵp coch oedd y sawl gyda lefelau uwch o adfyd ariannol ac fe bennwyd bod angen llai o gefnogaeth ar y sawl yn y grŵp melyngoch a bod y categori gwyrdd angen gwybodaeth yn unig.

Ar ôl segmentu'r tenantiaid yn grwpiau, aeth Cymdeithas Tai Unedig Cymru ati i dargedu'r ymgyrch yn ôl eu hanghenion.

Cyfathrebu marchnata uniongyrchol i denantiaid oedd prif elfen ymgyrch Bob.

Datblygwyd llythyron a thaflenni ar thema Bob gan ddefnyddio technegau theori 'ysgogi', gan bersonoli'r deunyddiau gydag enw, ardal a dyddiad.

Rhoddwyd y rhain mewn amlenni lliw gyda sticer yr ymgyrch er mwyn i'r ohebiaeth edrych yn wahanol i lythyron eraill Cymdeithas Tai Unedig Cymru; gan annog tenantiaid i dalu mwy o sylw yn hytrach na thybio eu bod yn derbyn 'datganiad rhent arall'.

Roedd cynnwys y llythyron yn amrywio gan ddibynnu ar gategori ariannol y derbynnydd:

- derbyniodd tenantiaid "coch" daflen a llythyr gydag apwyntiad am ymweliad, er mwyn i'r tenantiaid a oedd angen cefnogaeth fwy dwys allu cael cyngor wyneb yn wyneb
- derbyniodd tenantiaid "melyngoch" daflen ac apwyntiad am alwad ffôn
- derbyniodd tenantiaid "gwyrdd" daflen a llythyr gyda gwybodaeth ar sut i gael cefnogaeth.

Rhan arloesol arall o ymgyrch Bob oedd yr elfen o bartneriaeth.

Lansiodd yr ymgyrch i gychwyn yn Nhorfaen (ardal 'gwasanaeth lawn' gyntaf Cymdeithas Tai Unedig Cymru), wedi hynny daeth cydweithwyr cymdeithasau tai atom i ofyn am ddefnyddio'r deunyddiau ar gyfer eu tenantiaid.

Fe rannodd Cymdeithas Tai Unedig Cymru eu deunyddiau gyda phartneriaid a allai eu diweddarau gyda logos a manylion cyswllt, a rhannu gwybodaeth am eu hymgyrch cyfathrebu integredig a oedd yn cynnwys, er enghraifft, sgriptiau cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r ymgyrch bellach wedi cael ei mabwysiadu gan Cadwyn; Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd; Tai Calon; Tai Sir Fynwy; Canolfan Cydweithredol Cymru; Newport City Homes; Newydd a'r Gymdeithas Tai Teuluoedd.

Datblygon nhw hefyd becyn offer ymgyrch Bob a'i rannu ledled Cymru trwy sefydliad Cartrefi Cymunedol Cymru.

Mae rhannu adnoddau wedi atal cymdeithasau rhag gorfod talu mwy am ddylunio a hysbysebu ac mae wedi gwneud hysbysebu'n fwy fforddiadwy gan lansio mentrau ar y cyd.

Ymhlith yr elfennau eraill o'r ymgyrch roedd:

- cyfryngau cymdeithasol - ysgrifennir cynlluniau cynnwys misol gan Gymdeithas Tai Unedig Cymru a'u rhannu gyda phartneriaid lleol. Fe delir i dargedu hyrwyddiadau at ardaloedd awdurdodau lleol.
- ffilm ar ffurf animeiddiad - i'w defnyddio ar gyfryngau cymdeithasol ac yn ystod digwyddiadau tenantiaid. Mae hefyd wedi cael ei rannu gyda phartneriaid ar gyfer eu sianeli

- cyhoeddiadau - mae Bob wedi cael sylw rheolaidd yng nghylchgrawn tenantiaid Cymdeithas Tai Unedig Cymru 'Linkup', eu bwletin i fusnesau 'The Latest' i godi ymwybyddiaeth ymysg awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd lleol a chymdeithasau tai a gefnogir, a'u cylchgrawn 'Let's Thrive Together' i asiantau rheoli a chydweithwyr yn y sector iechyd
- tudalennau gwe - adran wybodaeth sy'n cyfeirio ymwelwyr at adnoddau eraill
- hysbysebu ar fysiau - lanswyd ymgyrch paneli bws am bedair wythnos yng Nghaerdydd ym mis Ionawr gyda Cadwyn
- hysbysebu ar y radio - lanswyd ymgyrch hysbysebu ar y radio am dri mis ar BGfm gyda Tai Calon o fis Gorffennaf
- cyfathrebu mewnol - mae erthyglau rheolaidd yn cynnwys y newyddion diweddaraf ar Bob wedi cael eu cynnwys ar y rhyngwrwyd; cylchlythyr staff 'Core Brief' a Yammer
- cardiau galw swyddogion rhent - postwyd y rhain i denantiaid a fethodd apwyntiadau.

Canlyniadau a chyflawniadau

Canlyniadau cyfathrebu uniongyrchol (yng nghanol yr ymgyrch yn seiliedig ar Dorfaen, Casnewydd a Chaerdydd):

- cysylltwyd â 908 o denantiaid
- roedd 41% yn y categorïau coch / melyngoch felly wedi derbyn lefelau uwch o ymyrraeth (galwadau ac ymweliadau)
- o'r 372 tenant melyngoch / coch, bu 43% ohonynt gadw at amser eu hymweliad / apwyntiad ffôn cyntaf.
- derbyniwyd galwadau hefyd gan nifer o denantiaid yn y categori 'gwyrdd'.

Yn ystod yr apwyntiadau cartref / ffôn, gofynnodd Cymdeithas Tai Unedig Cymru i ddefnyddwyr am eu lefel o wybodaeth cyn gweld yr ymgyrch.

- Roedd gan 130 o denantiaid ychydig neu dim gwybodaeth o Gymdeithas Tai Unedig Cymru cyn yr ymgyrch (81% o'r sawl coch / melyngoch, gan ddangos gwerth yr ymgyrch)
- Roedd 38% angen cyngor ar arian neu gefnogaeth gyda sgiliau digidol ac roedd y staff yn gallu helpu gyda hyn.

Cynhaliodd Cymdeithas Tai Unedig Cymru arolwg ffôn gyda 34 tenant hefyd, gyda '1' yn golygu ddim o gwbl a '5' yn golygu eu bod yn hoff iawn.

Y sgôr ar gyfartaledd ar gyfer y cwestiwn "Faint oeddech chi'n hoffi cynnwys ac arddull yr ohebiaeth?" oedd 5. Y sgôr ar gyfartaledd ar gyfer y cwestiwn "A oes gennych chi well dealltwriaeth o'r newidiadau a sut byddant yn effeithio arnoch?" oedd 4.

Canlyniadau'r ymgyrch integredig ar-lein (yng nghanol yr ymgyrch):

Facebook:

- cyrhaeddiad y postiadau: 42,649 o bobl
- nifer y bobl yn ei hoffi: 145
- nifer y bobl yn ei rannu: 103

Twitter:

- cyrhaeddiad #belikebobUC: 43,088 o bobl
- nifer y bobl yn ei hoffi, yn clicio drwodd neu'n rhannu'r neges: 393.

Animeiddiad: 10,700+ wedi ei weld.

Tudalen gwe: 602+ wedi ei weld.

Costiodd yr ymgyrch llai na £4,900 (y gyllideb oedd £6,000) yn sgil gweithio mewn partneriaeth, yr adnoddau a'r dulliau gweithio.

Nudging your way to channel shift

Cartrefi Conwy gyda Collaborative Change



Buddsoddodd Cartrefi Conwy lawer o amser, adnoddau ac ymdrech i ddatblygu eu porth ar-lein newydd MyCartrefi, sy'n galluogi i'w tenantiaid wneud taliadau, rhoi gwybod am atgyweiriadau, gweld eu balans a chysylltu â ni 24/7. Ym mis Mehefin 2017, roeddent yn edrych ar ffyrdd arloesol o annog tenantiaid i newid sianel a symud i ddulliau digidol o gyfathrebu a gwneud taliadau.

Yna, cafodd Cartrefi Conwy gyfle i weithio gyda'r darparwyr TGCh blaenllaw, Capita, ar y cyd â Collaborative Change, ymgynghoriaeth mewnwelediadau ymddygiadol, ar brosiect Deyrnas Unedig gyfan a fyddai'n torri tir newydd sef 'Nudging your way to channel shift'.

Cartrefi Conwy oedd yr unig Gymdeithas Tai yng Nghymru i ymuno â'r rhaglen hon ac maen nhw wedi bod yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r prosiect i annog mwy o denantiaid i ryngweithio gyda ni gan ddefnyddio dulliau digidol ers hynny.

Nod y prosiect oedd adeiladu gallu sefydliadol yn seiliedig ar y defnydd o ddulliau 'Ysgogi', mewnwelediadau ymddygiadol a gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth. Aeth ati hefyd i ymchwilio sut gellid defnyddio mewnwelediadau ymddygiadol i ddylanwadu ar ddewis sianel y tenantiaid, gyda phwyslais ar fabwysiadu hunanwasanaeth digidol. Maen nhw bellach yn defnyddio'r dull hwn wrth gyfathrebu yn y meysydd gwaith canlynol:

- newid sianel ddigidol
- casglu rhent a rheoli ôl-daliadau
- cefnogaeth Credyd Cynhwysol.

'Profodd' Cartrefi Conwy yr arddulliau cyfathrebu / technegau ysgogi canlynol gyda'u holl denantiaid sy'n talu eu rhent (neu ran ohono) gan ddefnyddio dulliau talu â llaw.

- amlygrwydd - defnyddio negeseuon yn ymwneud â ffordd o fyw ac effaith. Tynnu sylw at fuddion personol/cysylltiadau emosiynol.
- ego - rydym yn tueddu i ymddwyn mewn ffyrdd sy'n gwneud i ni deimlo'n dda e.e. bod ar y blaen trwy fod ymhlith y cyntaf i gofrestru
- norm cymdeithasol - cawn ein dylanwadu gan y pethau a wneir gan eraill e.e. mae tri o bob pedwar person yn talu eu biliau ar-lein.

Casglon nhw hefyd dystiolaeth ansoddol trwy gyfweiliadau ffôn gyda'u tenantiaid i gael teimlad o'u harferion talu.

Daeth y treial i'r casgliad bod:

- tenantiaid sy'n derbyn gohebiaeth amlygrwydd tair gwaith fwy tebygol o dalu ar-lein
- cyswllt cryf rhwng cyfraddau cofrestru ar gyfer cyfrifon ar-lein ac oedran gyda hyn yn amrywio o gyfradd 17% ymysg ein cwsmeriaid ifancach i 0% ymysg y rhai hŷn
- cwsmeriaid gydag ôl-daliadau o £500 - £1,000 y mwyaf tebygol o gofrestru talwyr ifancach wyneb yn wyneb yn cael eu dylanwadu fwyaf gan ysgogiad amlygrwydd.

Mae'n bosibl eich bod yn meddwl, 'pam fod hyn yn bwysig'? Ond mae'r hyn a ddysgwyd o'r prosiect hwn wedi arwain at newid arwyddocaol o ran sut mae Cartrefi Conwy yn cyfathrebu gyda'i denantiaid. Mae'r dull ysgogi wedi cael ei defnyddio'n llwyddiannus ar gyfer:

- Ymgyrch Cymryd Rheolaeth - ymgyrch ddynodedig yn annog tenantiaid i gymryd rheolaeth o'u cyllid ac i ddod at Cartrefi Conwy am gymorth a chefnogaeth
- Lansiad ymgyrch 'Ble ydych chi'n talu eich biliau chi?' - i annog tenantiaid i gofrestru ar gyfer porth tenantiaid Cartrefi Conwy
- 'Does dim angen i Gredyd Cynhwysol fod yn frawychus' - ymgyrch amlweddol i baratoi tenantiaid ar gyfer Credyd Cynhwysol
- ailysgrifennu eu holl lythyron casglu rhent a datganiadau rhent
- gwella arwyddion diogelwch tân ac adnoddau eraill yn dilyn tân Grenfell.

Dyma oedd adborth Steven Johnson, Collaborative Change (Rheolwr Rhaglen):

"Roedd yn bleser gweithio gyda thîm Cartrefi Conwy trwy gydol blwyddyn gyfan y prosiect hwn. Roeddent yn ymrwymedig i'r dull seiliedig ar dystiolaeth o'r cychwyn, gan ymgorffori'n llawn y defnydd o wyddor data fel modd o deilwra a thargedu cyfathrebu'n fwy effeithiol. Ar y cam dylunio, fe ymchwilion nhw'n ddwfn yn llenyddiaeth gwyddorau ymddygiadol ar

yrwyr dewis sianel ac ymddygiadau, gan neilltuo amrediad o dactegau arddull 'ysgogi' i'w profi trwy Hap-dreial wedi'i Reoli. Mae'r ffaith bod treial Cartrefi Conwy wedi perfformio'n sylweddol well na'r sawl

o'r chwe darparwr arall ar y prosiect yn dystiolaeth i'r effeithiolrwydd ddefnyddion nhw gyda'r dull mewnwelediadau ymddygiadol."

Canlyniadau a chyflawniadau

Ers i Cartrefi Conwy lansio'r ymgyrch newid sianel ym mis Awst 2017, maen nhw wedi derbyn dros 5,000 o daliadau ar-lein gwerth dros £750,000. Mae hyn wedi arwain at arbediad cost posib o £40,000 hyd yn hyn gan fod trafodion ar-lein yn costio cryn dipyn yn llai i'w prosesu na thaliadau â llaw.

Maen nhw hefyd wedi gweld 650 o atgyweiriadau'n cael eu hadrodd ar-lein, sy'n golygu bod gan ein cydweithwyr yn y ganolfan alwadau mwy o amser i ddarparu gwasanaeth mwy effeithlon. Ers lansio'r porth, maen nhw wedi gweld nifer y galwadau'n gostwng 6%.

Lansion nhw'r porth yn eu diwrnod o hwyl blynyddol i denantiaid yn ôl ym mis Awst 2017. Defnyddiodd y stondin egwyddorion ysgogi sylfaenol i frandio'r stondin gyda neges 'Ble ydych chi'n talu eich biliau chi?'. Ymgysylltodd dros 250 o denantiaid yn weithredol gyda'r stondin gyda 63 tenant yn cofrestru ar y diwrnod neu'n syth wedyn.

Maen nhw hefyd wedi cyflwyno amrediad o ddeunyddiau cyfathrebu i gefnogi eu tîm casglu incwm wrth ymdrin ag ôl-daliadau rhent. Eto, theori ysgogi oedd yn tanategu'r rhain i gyd.

Gwobr cefnogi cenedlaethau'r dyfodol

Noddwyd gan



Mae gan bob un ohonom rôl i'w chwarae er mwyn sicrhau bod Cymru'n lle gwych i fyw'n dda nawr ac yn y dyfodol. Mae'r wobwr hon yn cydnabod cyfraniad prosiectau blaengar sy'n ceisio cyflawni canlyniadau y bydd cenedlaethau i ddod yn elwa ohonynt. Mae'r sawl ar y rhestr fer wedi gallu dangos:

- moddau penodol y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn elwa o waith y prosiect
- dull cydlynol sy'n dangos y budd o ennill arbenigedd a mewnwelediad o bobl yn derbyn gwasanaethau a'r gymuned ehangach
- ymwybyddiaeth o, dolenni at, y nod llesiant a adlewyrchir yn ein deddfwriaeth dirnod - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- yr effaith a buddion posib ar gyfer y gymuned leol/yr amgylchedd lleol.

Bron afon

'Locked out' ... Own 2 Feet Living, Strategaeth Tai ar gyfer Pobl Ifainc ... pobl ifainc yw'r allwedd i'r datrysiad

Addewid Bron Afon ... gyda'n cefnogaeth, bydd pobl ifainc yn ennill gwydnwch ac annibyniaeth ac yn gwella ansawdd eu bywyd trwy ddatblygu ei datrysiad byw a thai eu hunain.



Cefndir

Mae pobl ifainc yn cael eu hymyleiddio mwy a mwy o fewn y systemau tai a llesiant, gan wynebu'r her o brisiau tai sy'n cynyddu o hyd, diffyg tai cymdeithasol fforddiadwy ac effaith Diwygio Lles. Nid yw tai fforddiadwy erioed wedi bod mor hanfodol i wella bywydau cenedlaethau'r dyfodol. Roedd Bron Afon yn gallu rhagweld yr effaith ddynol ac ariannol y byddai Diwygio Lles yn ei chael yn Nhorfaen, yn enwedig ar bobl ifainc. Gan barhau i ddysgu o Own 2 Feet Living, Tŷ Cyfle, y gydweithfa tai i bobl ifainc, mae Bron Afon yn hyderus bod pobl ifainc yn gallu gyrru ymlaen y

datrysiadau tai a chefnogaeth maen nhw eu hangen. Mae grymuso pobl ifainc a'r gwersi a ddysgwyd yn parhau i greu 'newid arwyddocaol' o fewn y sector tai ynghyd â llunio eu dull o ennyn diddordeb pobl ifainc a'u cefnogi. Fforddadwyedd yw'r brif benbleth ar gyfer pobl ifainc, a fyddai'n bosib ymestyn dull cydweithredol Own 2 Feet Living ymhellach...?

Heb le i alw'n gartref, mae pobl yn llai tebygol o ennill a chadw cyflogaeth gyda hyn yn cael effaith andwyol ar eu hiechyd corfforol a meddwl. Ar gyfer Bron Afon, mae'n gwneud synnwyr busnes i weithio gyda'u cleientiaid yn y dyfodol, sef eu cwsmeriaid hir dymor, i ddarparu datrysiadau tai sy'n bodloni eu hanghenion, yn creu tenantiaethau cynaliadwy a chymunedau sefydlog.

Gan weithio gydag Afon Youth a defnyddio egwyddorion cyd-gynhyrchu, mae Bron Afon wedi datblygu Strategaeth Tai Own2Feet Living ar gyfer Pobl Ifainc, gan gydnabod bod y llinyn deuol o gyflenwad tai a chefnogaeth briodol yn hanfodol er mwyn cyflwyno datrysiadau tai i bobl ifainc. Does neb yn deall anghenion a heriau pobl ifainc yn well na nhw ac mae cynaladwyedd tenantiaeth wedi'i ymgorffori drwyddi draw, gan sicrhau bod datrysiadau tai'n fforddiadwy, gan greu cyswllt ag academi That Works Bron Afon ac uchafu incwm pobl ifainc a darparu cyfleoedd swydd posib.

Mae'r bobl ifainc yn edrych ymlaen at archwilio modelau o fyw gyda phobl o wahanol genedlaethau, hyrwyddo tai a rennir a darparu llety newydd gyda dulliau adeiladu amgen a hyblyg. Mae'r llinyn cyntaf bellach ar waith ac yn darparu 12 cartref sy'n hyblyg, yn effeithlon o ran ynni a gyda rhent isel. Mae Bron Afon yn profi dulliau arloesol o ddefnyddio ffynonellau tai amgen o'i gymharu â brics a morter traddodiadol.

Mae'r dirwedd allanol yn newid yn gyson ond ni fydd y newid am dai diogel byth yn newid. Gyda chefnogaeth Bron Afon, bydd pobl ifainc yn ennill gwydnwch ac annibyniaeth ac yn gwella ansawdd eu bywydau trwy ddatblygu eu datrysiadau byw a thai eu hunain.

Mae cydweithio'n allweddol, gan weithio ar draws sectorau a rhannu adnoddau, sgiliau a chostau i gyrraedd y bobl fwyaf bregus. Mae Strategaeth Own2Feet Living yn ymrwymiad hir dymor, wedi'i hymgorffori yn y sefydliad sy'n darparu datrysiadau

cyffrous, arloesol at y dyfodol o ran modelau tai amgen sy'n fforddiadwy ar gyfer cwsmeriaid y dyfodol - cenedlaethau'r dyfodol.

Ymrwymiad Bron Afon: "Byddwn yn helpu pobl ifainc trwy gynnig datrysiadau tai iddynt sy'n lleihau eu cost o fyw, ac a fydd yn eu helpu i wneud y gorau o unrhyw gefnogaeth a gynigir iddynt, gan ddarparu cartref diogel, cyfforddus ac economaidd."

Canlyniadau a chyflawniadau

Canlyniadau - bodloni uchelgeisiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- tenantiaethau cynaliadwy a chymunedau cydlynol
- bodloni anghenion tai pobl ifainc, gyda phobl ifainc, gan ddarparu datrysiadau fforddiadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
- cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy
- ymrwymiad hir dymor

- dull cyfannol, adeiladu gwydnwch a chynyddu llewyrch cwsmeriaid y dyfodol
- dull cyd-gynhyrchu
- cynhyrchu datrysiadau tai cyffredinol sy'n ymateb i'r galw.

Yn ystod y ddysg a phrofiadau cynnar gyda phartneriaid, disgrifiwyd ein ffordd o weithio a'n heffaith fel syfrdanol.

Growing together

Grŵp Pobl gyda'r Gronfa Loteri Fawr a Gingerbread



Mae Growing Together yn cefnogi rhieni sengl ifainc 14-25 oed yn byw mewn tai cymdeithasol yng Nghaerffili, Torfaen, Sir Fynwy a Chasnewydd. Ariannir Growing Together gan raglen 'Dyfodol Disglair' y Gronfa Loteri Fawr ac mae'r bartneriaeth yn dod â sgiliau ac arbenigedd Gingerbread a Tai Charter (Pobl) ynghyd.

Gydag dull gwahanol i grwpiau eraill sy'n darparu cefnogaeth i rieni a babanod, mae Growing Together yn datblygu sgiliau personol a chymdeithasol i gynyddu hyder, adeiladu gallu a gwydnwch rhieni, gan eu galluogi i fyw'n annibynnol mewn tenantiaeth ddiogel a rheoli trawsnewidiadau allweddol yn eu

bywydau'n fwy llwyddiannus. Trwy greu rhaglen hyfforddiant i ymarferwyr a phhecyn cymorth, wedi'u cynhyrchu ar y cyd â'r rhieni eu hunain, mae Growing Together yn eirioli ar ran rhieni sengl ifainc i chwalu rhwystrau a gwella eu mynediad a'u defnydd o wasanaethau cefnogaeth lleol.

Y dogfennau polisi allweddol sy'n hysbysu datblygiad Growing Together yw 'Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014' sy'n adnabod pwysigrwydd cefnogaeth amserol gan rieni o ran lleihau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015'. Mae'r ail yn amlinellu 'Saith Egwyddor ar gyfer Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol', sy'n cynnwys: "Egwyddor 1: Mae angen i blant gael y dechrau gorau ym mywyd o'r blynyddoedd cynharaf," gan nodi bod "camau gweithredu ataliol yn ystod beichiogrwydd neu blentyndod yn cael effaith gadarnhaol ar sawl cenhedlaeth ar yr un pryd".

Mae Growing Together yn cyfrannu at leihau effaith negyddol profiadau niweidiol yn ystod plentyndod trwy adeiladu gwydnwch a ffactorau amddiffynnol rhieni ifainc a'u plant. Yn ogystal â chynyddu canlyniadau cadarnhaol ar gyfer rhieni ifainc, mae Growing Together yn darparu plant â chyfleoedd dysgu cymdeithasol a chwarae cadarnhaol. Mae hyn, ynghyd â chynnydd mewn hyder o ran magu plant, yn lleihau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn y genhedlaeth nesaf.

Mae Growing Together yn mabwysiadu'r gwerthoedd craidd gwaith ieuencid hyn:

- cyfranogiad ac ymglymiad gweithredol
- cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- cyd-gynhyrchu
- datblygiad personol, cymdeithasol a gwleidyddol.

Mae cymryd rhan yn wirfoddol. Unwaith i riant gofrestru ar gyfer y prosiect a mynychu cwrs 'Amdanoch Chi', mae nifer o ddewisiadau ar gael gan gynnwys gweithdai sgiliau, cyfarfodydd dilyniant, creu cynlluniau gweithredu personol a chyfleoedd gwirfoddoli.

Ymhlith y dulliau cyflwyno mae cefnogaeth un-i-un a gwaith grŵp, gweithdai sgiliau bywyd rhyngweithiol a datblygu rhwydwaith o grwpiau cefnogaeth gan gyfoedion a fydd yn ymestyn ar ôl oes y prosiect.

Cyfeiriwyd un o'r bobl ifainc ar Growing Together, Emma, gan ei chynghorydd Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth.

"Pe byddai rhywun wedi dweud y baswn i'n gwneud hynny un ar ddeg mis yn ôl, baswn i byth wedi'u credu. Roeddwn i mor swil a nerfus, roeddwn i'n cael trafferth yn siarad â phobl newydd."

Dywedodd Emma mai ffocws ar alluogi rhieni sengl ifainc i adnabod a chyflawni eu hamcanion yw beth sy'n gwneud Growing Together yn unigryw. Mae hi'n dweud ei bod nhw'n ei gweld hi 'fel person, nid dim ond fel mam' ac mae'r cyfleoedd i ddysgu sgiliau newydd ac ennill achrediad yw'r pethau sy'n cadw ei diddordeb, ffocws ac ymrwymiad.

"Beth mae Growing Together wedi ei roi i mi? Cyfeillgarwch, cefnogaeth a hyder, dyna beth, baswn i methu â bod wedi gwneud hwn hebddyn nhw."

"Mae Growing Together yn helpu rhoi trefn yn ôl yn eu bywydau, maen nhw'n dod i arfer â bod mewn man penodol ar adeg benodol. Mae'n rhaid iddyn nhw gynllunio i godi'n gynnar a pharatoi, gwisgo eu hunain a'r plant a chael brecwast, ac wrth gwrs, bydd angen gwneud hyn oll pan fyddan nhw'n cael swydd...mae Growing Together wedi galluogi Emma i ddysgu a datblygu i bwynt lle mae hi'n barod i gymryd y camau nesaf at annibyniaeth ac at ddyfodol mwy sefydlog yn ariannol." Cynghorydd Rhieni a Chyflogaeth Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth

Bydd Tai Charter yn ymgorffori'r hyn a ddysgwyd mewn prosiectau ar gyfer rheini ifainc yn y dyfodol. I gefnogi etifeddiaeth Growing Together, mae Ymddiriedolaeth Pobl wedi darparu ariannu ar gyfer grwpiau rhieni ifainc dan arweiniad cymheiriaid, sy'n gweithredu'n gymdeithasol ac yn cyd-gynhyrchu.

Canlyniadau a chyflawniadau

Canfyddiadau allweddol y gwerthusiad allanol:

- mae cymryd rhan yn Growing Together yn gwella hunanhyder a ffydd yn eu galluoedd eu hunain, nid dim ond fel rhiant effeithiol ond hefyd fel person ifanc gyda photensial ym maes addysg a chyflogaeth
- mae rhieni'n teimlo mwy abl i allu rheoli eu harian a chynnal eu tenantiaethau
- mae Growing Together yn adeiladu perthnasoedd cadarnhaol, gan leihau teimladau o unigedd
- mae agwedd agored gweithwyr Growing Together, lefelau uchel o anogaeth a dealltwriaeth ddofn o'r heriau a wynebir gan rieni sengl ifainc yn allweddol wrth adeiladu perthnasoedd sy'n fuddiol i bawb ac yn seiliedig ar gyd-ymddiriedaeth a pharch
- mae cadw prosiectau'n lleol yn helpu gyda chynnaladwyedd, yn chwalu rhwystrau at ymrwymiad ac yn galluogi rhieni i adeiladu rhwydweithiau cymunedol cryf o gefnogaeth gan gymheiriaid
- mae asiantaethau cyfeirio'n gwerthfawrogi'r gwaith a wneir gan Growing Together, ac yn credu ei bod yn cael effaith uniongyrchol ar gryfhau teuluoedd, lleihau'r risg o ganlyniadau negyddol yn ystod plentynod a chynyddu'r sgiliau emosiynol, cymdeithasol a chyflogadwyedd sydd eu hangen i wneud newidiadau cadarnhaol mewn bywyd.

Mae'r canlynol ymhlith y cyraeddiadau:

- wedi gweithio gyda 240 o rieni sengl ifainc
- wedi sefydlu 3 grŵp cyfeillgarwch hunangynhaliol, yn ohonynt ar-lein
- 81% yn sôn am gynnydd yn eu hyder a hunanhyder
- 89% yn sôn am well fynediad at wasanaethau
- 91% yn cyfranogi mwy yn gymdeithasol ac yn derbyn cefnogaeth
- 153 dilyniant cadarnhaol gan gynnwys gwirfoddoli, coleg, prifysgol a chyflogaeth.

Dolenni

- <https://growingtogetherproject.co.uk/>
- <https://www.facebook.com/growingtogetherwales>
- <https://stepsintothefuture.co.uk/cy/hafan/>
- <https://www.youtube.com/watch?v=THdLS1ue92g&t=120s>
- <https://www.gingerbread.org.uk/skills-and-learning/single-parent-support-practitioner/about-the-toolkit/>
- <https://www.facebook.com/growingtogetherwales/photos/a.1593426457570230/2204156619830541/?type=3&theater>

Effaith ar iechyd a gwerth economaidd bodloni safon ansawdd tai cymru

Cyngor Sir Gâr gydag Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe



Mae astudiaeth effaith ar iechyd Cyngor Sir Gâr gyda Phrifysgol Abertawe yn profi, trwy ddod â'i gyflenwad o dai i fyny at Safon Tai Sir Gâr (mae'r safon yn gymaradwy â Safon Ansawdd Tai Cymru) ei bod yn gwella bywydau a llesiant pobl, gan gyflawni canlyniadau y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn elwa ohonynt. Dyma oedd y cwestiynau:

- beth yw'r newid yn y cyfraddau derbyn tenantiaid i'r ysbyty ar frys?
- beth yw'r newid yn nifer yr ymweliadau â'r adran argyfyngau, triniaethau meddyg teulu am gyflyrau iechyd meddwl ac anadlol, ac ymweliadau i'r meddyg teulu am gyflyrau anadlol?
- yn olaf, amcangyfrifodd y cyngor yr effaith ar gostau yn ymwneud â derbyniadau i'r ysbyty.

Nod Cyngor Sir Gâr oedd astudio a allai gwelliannau i safonau tai wella iechyd pobl. Mae gwelliannau tai ac ymweliadau i'r ysbyty'n ddrud, ac roeddem eisieu gweld a oedd gostyngiad yn nifer y bobl yn mynd i'r ysbyty mewn argyfwng ymhlith y sawl a oedd yn byw mewn cartrefi a oedd wedi cael gwelliannau, o gymharu â phobl a oedd yn byw mewn cartrefi nad oedd wedi cael y gwelliannau penodol hynny.

Maen nhw'n gwybod bod cartrefi oer, llaith ac anniogel yn gallu gwneud pobl yn sâl, gwaethygu salwch neu achosi marwolaeth gynnar hyd yn oed.

Buddsoddodd Cyngor Sir Gâr yn eu cartrefi i ddod â nhw at safon genedlaethol newydd. Yn 2003, ymgynghoron nhw â 1000 o'u tenantiaid am eu barn ar Safon Ansawdd Tai Cymru. Yn dilyn hyn, yn 2005, penderfynon nhw gadw perchnogaeth a rheolaeth eu stoc o dai ac i osod eu safon ansawdd tai eu hunain, Safon Tai Sir Gâr.

Traciodd yr astudiaeth iechyd a llesiant tenantiaid trwy gydol cyfnod y rhaglen o fuddsoddi mewn

cartrefi. Aseson nhw ganlyniadau iechyd dros 32,000 o drigolion yn byw mewn 8,558 o dai cyngor, a'u cymharu â grŵp rheoli o drigolion nad oedd wedi cael gwelliannau i'w cartref.

Dywedodd y Dr Sarah Rodgers, Athro yn Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe, "Dengys ein canfyddiadau bod gwelliannau i gartrefi'n gallu lleihau'r straen ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a rhyddhau gwelyau ar gyfer derbyniadau a gynlluniwyd."

Cyflawnwyd y gwelliannau gan gontractwyr a oedd yn adrodd i Grŵp Llywio a Phanel Ymglymiad Tenantiaid a oedd yn cynnwys amrediad eang o denantiaid o ledled y sir. Roedd hyn yn darparu mecanwaith i fynegi barn tenantiaid i'r tîm, yn ychwanegol at gylchlythron, adroddiadau ac arolygon rheolaidd.

Rodd y cyngor yn cydnabod o'r cychwyn mai ymglymiad tenantiaid yn natblygiad y rhaglen byddai'r prif ffactor yn ei chyflwyniad llwyddiannus.

Dywedodd Pam Every, cynrychiolydd y tenantiaid, "Mae hwn wedi bod yn brosiect gwych i fod yn rhan ohono o'r cychwyn i'r diwedd. Roedd y cyngor yn ein caniatáu i wneud penderfyniadau ar y rhaglen waith o'r cychwyn a thrwy gydol y gwaith uwchraddio"

Aeth y cyngor ati i gysylltu â fforymau'r tenantiaid i bennu amserlen y rhaglen, gan roi nifer o ddewisiadau i'r cartrefi ar y mathau o ddeunyddiau i'w defnyddio yn eu ceginau ac ystafelloedd ymolchi newydd. Yn 2014, dechreuodd y cyngor weithio gyda'i denantiaid a budd-ddeiliaid eraill i ystyried pa welliannau pellach gallai fod eu hangen y tu hwnt i 2015, rhaglen o'r enw Safon Tai Sir Gâr a Mwy.

Gyda dros £2 miliwn, mae Safon Tai Sir Gâr a Mwy wedi cyflawni'r canlynol:

- ar gyfer pob £1 a wariwyd, ail-fuddsoddwyd £1.80 yn economi Cymru
- cyflogwyd 11 o bobl yn ystod y cyfnod hwn a oedd yn ddi-waith yn flaenorol, a byddant yn parhau i gael eu cyflogi
- darparwyd dros 84 wythnos o hyfforddiant, gan gynnwys:
 - o cychwynnwyd 12 prentisiaeth dros gyfnod o 50 wythnos
 - o cwblhawyd 10 hyfforddeiaeth dros gyfanswm o 30 wythnos.

Maen nhw eisoes wedi defnyddio canlyniadau'r gwerthusiad iechyd ac argymhellion yr astudiaeth i ddiweddarau ein cynlluniau datblygu, ac maen nhw'n annog awdurdodau lleol ledled y Deyrnas Unedig a'r tu hwnt i fabwysiadu'r argymhellion. Mae gwneud mân newidiadau i bolisi iechyd yn gwella iechyd, sydd hefyd yn dod â buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i bawb.

Canlyniadau a chyflawniadau

- gostyngiad o 39% yn nifer y derbyniadau brys i'r ysbyty ymhlith y sawl dros 60 a gafodd welliannau trydanol, gyda gostyngiadau tebyg ar gyfer ffenestri a drysau newydd, inswleiddio waliau, a llwybrau diogel (25% - 29%)
- gostyngiadau llai (2% - 9%) yn nifer y derbyniadau i'r ysbyty ymhlith y sawl a gafodd ffenestri a drysau newydd, inswleiddio waliau a gwelliannau i lwybrau gardd
- roedd gostyngiad hefyd yn nifer y presgripsiynau ar gyfer meddyginiaeth asthma ac ymweliadau i'r meddyg ymhlith trigolion o bob oedran a gafodd uwchraddiadau i'w system drydanol a gwell ffenestri a drysau
- tra bod yr effeithiau fwyaf amlwg ymhlith y sawl dros 60 oed, roedd y canlyniadau'n berthnasol i bob grŵp oedran, lle'r oedd gostyngiad o 34% yn nifer y derbyniadau brys ymhlith y sawl oedd wedi derbyn uwchraddiadau i'w systemau trydanol
- costiodd yr uwchraddiadau i'r cartrefi £138 miliwn tra amcangyfrifir yr arbedwyd tua £200 y person y flwyddyn mewn perthynas â derbyniadau ysbyty ymhlith y sawl dros 60, a phan estynnir y canlyniad hwn i'r 21% amcangyfrifedig o boblogaeth Cymru dros 60 sy'n cael gwelliannau i'w cartref cymdeithasol ar hyn o bryd, mae hyn wedi arbed tua £30 miliwn o ran derbyniadau ysbyty yn unig.
- pe roddir y newidiadau ar waith i eiddo rhent preifat, mae yna botensial am arbedion pellach ym maes iechyd
- pwysig yw nodi bod llai o dderbyniadau derbyniadau brys yn golygu bod mwy o leoedd ar gael mewn ysbytai ar gyfer derbyniadau a gynlluniwyd.

Gwobr sector rhentu preifat

Noddwyd gan **tai pawb**

Mae'r wobwr hon ar agor i unrhyw sefydliad sy'n gweithredu yn y sector rhentu preifat yng Nghymru ac mae ar agor i unrhyw asiantaeth gosod tai neu landlord sector preifat. Mae wedi'i hanelu at asiantau gosod tai neu landlordiaid sy'n anelu at ragoriaeth ym meysydd gwasanaethau cwsmeriaid ac arloesedd. Mae'r ceisiadau ar y rhestr fer wedi gallu dangos bod eu sefydliad yn gwneud pethau'n wahanol sy'n eu gwahaniaethu o'r gystadleuaeth a bod arloesedd yn un o'u hanfodion at lwyddiant.

Mae'r beirniaid wedi bod yn edrych am sefydliadau sy'n gallu dangos eu bod yn rhagori yn y meini prawf canlynol:

- datblygu lefelau ardderchog o wasanaeth i gwsmeriaid neu fodlonrwydd tenantiaid
- defnyddio dulliau arloesol o ddatrys problem neu her benodol

Seraph property management



Mae Seraph yn darparu amrediad llawn o wasanaethau rheoli eiddo o gyngor untro i wasanaethau rheoli personol llawn. Mae'n ymdrin â rheoli eiddo masnachol, rheoli bloc, llety myfyrwyr pwrpasol, rheoli cyfleusterau, rheoli portffolio, a rheoli eiddo masnachol a defnydd cymysg. Ar ben hynny, mae'n cynrychioli landlordiaid a buddsoddwyr, gan ddarparu gwasanaeth i landlordiaid a thenantiaid tra'n dilyn y codau ymarfer a osodwyd gan yr Ombwdsmon Eiddo. Mae Seraph yn gweithio'n agos gyda landlordiaid preifat, buddsoddwyr portffolio a chymdeithasau tai, (megis Trivallis), gan gynorthwyo gyda'r gwaith o redeg eiddo o ddydd i ddydd yn ogystal â materion mwy heriol megis ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ôl-daliadau rhent.

Mae Seraph yn mynd y tu hwnt i'w dyletswyddau mewn sawl ffordd, yn benodol mae ei oriau agor ychwanegol (12 awr ar bedwar diwrnod yr wythnos) yn ei galluogi i ddarparu gwasanaeth estynedig i'w denantiaid a landlordiaid, er mwyn sicrhau ei bod yn

hawdd mynd ato ac i gysylltu â'r sefydliad ar adegau sy'n gyfleus i'w gwsmeriaid.

Maen nhw'n gweithio'n agos gyda'i chwaer-gwmni James Douglas Sales and Lettings, sy'n cynnig gwasanaeth rhentu a gwerthu eiddo. Mae'r berthynas waith agos hon yn caniatáu am gyfnod pontio llyfn i'r tenant rhwng gosod eiddo a symud i mewn gan eu bod yn ymdrin â'r holl faterion yn fewnol, sy'n golygu bod tenantiaid bob tro'n cael eu hysbysu o'r sefyllfa ddiweddaraf a bod landlordiaid yn fodlon yn gwybod bod eu heiddo wedi cael ei osod yn llwyddiannus a'i bod yn cael ei reoli'n effeithlon yn ystod pob tenantiaeth.

Mae Seraph yn canolbwyntio ar wahanu'r elfennau gosod gan sicrhau bod ei dîm yn ffocysu'n llwyr ar gynnal tenantiaethau o gymharu â'u creu. Nid ydynt yn codi ffioedd adnewyddu ac maen nhw'n annog eu landlordiaid i gynnig tenantiaethau hirach gyda thenantiaeth ar gyfartaledd yn para am gyfnod o 3 blynedd, sydd hirach o lawer na mwyafrif yr asiantau yng nghanol y ddinas. Mae eu ffigurau dargadw landlordiaid yn dangos cyfradd bodlonrwydd uchel gyda llai na 10 landlord wedi eu gadael am asiant arall yn y 10 mlynedd diwethaf am resymau heblaw am fod yr eiddo wedi cael ei werthu.

Mae Seraph hefyd yn mynd y tu hwnt i'r galw pan fydd materion tenantiaeth yn codi trwy fod yn wylidwrs o unrhyw broblemau a allai godi, boed yn rhai bach neu fawr. Yn benodol, pan roedd gollyngiad dŵr yn un o'r blociau defnydd cymysg a achoswyd gan y contractwr gwreiddiol, gweithiodd y tîm bob awr o'r diwrnod am 48 awr dros gyfnod y Nadolig er mwyn cadw gwasanaethau i redeg, sicrhau bod yr adeilad yn ddiogel a sicrhau bod popeth wedi'i drwsio erbyn Diwrnod Nadolig.

Maes arall o Seraph yw'r ochr Rheoli Bloc, sy'n gofalu am dros 30 bloc yn ardal Caerdydd, gan weithio gyda lesddeiliaid a rhydd-ddeiliaid i sicrhau awyrgylch diogel yn ardaloedd cymunedol pob adeilad. Rhoddwyd cydnabyddiaeth i Seraph am ei gwaith yn cymryd blociau y'u hesgeuluswyd yn flaenorol ac yn eu codi at safon uchel o ran diogelwch, ansawdd esthetig a, pwysicaf oll, sefydlogrwydd hir dymor. Mae'r tystlythyron ar gyfer y gwasanaethau Rheoli Bloc yn tynnu sylw at eu hymdrechion.

Dywedodd Simon Williams mewn adolygiad ar google: "Rydym yn teimlo'n gyfforddus iawn yn gwybod bod tîm Seraph yn cynrychioli ein

diddordebau'n deg, maen nhw'n cyfathrebu'n sydyn pan fydd materion yn codi ac yn rhagweithiol wrth reoli'r adeilad a'r berthynas gyda phartneriaid."

Yn ogystal â darparu lefelau uchel o wasanaethau cwsmeriaid, mae Seraph o hyd yn ystyried buddion pennaf y cleient ac yn cynnal ymarferion arbed arian er mwyn sicrhau bod y cleientiaid yn cael y gwerth gorau am arian. Dyma sylw gan un o'i lesddeiliaid: "Cawsom help gan Seraph i ddod o hyd i gontractwyr gwell na'r rhai a benodwyd yn wreiddiol. Ymddengys eu bod wir eisiau rheoli'r fflatiau er budd y lesddeiliaid ac maen nhw'n gweithio gyda'r lesddeiliaid a'r contractwyr i gadw pethau i redeg yn llyfn."

Canlyniadau a chyflawniadau

Mae'n rhoi pleser i Seraph allu brolio am nifer o ganlyniadau prosiect cadarnhaol, gan gynnwys;

- darparu tenantiaid â chartrefi hir dymor tra'n caniatáu i landlordiaid wneud popeth yn gywir ac arbed ar gyfer y dyfodol iddyn nhw a'u teuluoedd
- datblygu cynlluniau cynladwyedd ar gyfer adeiladau er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel a bod ganddynt y gyllideb i amnewid ac atgyweirio isadeiledd o gronfeydd wrth gefn yn hytrach na bod disgwyl i lesddeiliaid dalu costau untro annisgwyl, yn arbennig wrth gynnal a chadw adeiladau rhestredig Gradd II
- gweithio gyda sefydliadau (YMCA) i ddatblygu tenantiaethau cynaliadwy hir dymor ar gyfer tenantiaid agored i niwed yn y sector rhentu preifat

- bod yn un o'r ychydig o reolwyr tai preifat i reoli tenantiaethau tai fforddiadwy ar ran landlordiaid cymdeithasol cofrestredig

- rhoi cyfleoedd cyflogaeth i denantiaid yn y datblygiadau maen nhw'n eu rheoli.

Yn ddiweddar, cynhaliodd Seraph raglen fwy positif gyda thenantiaid gan drefnu 'Diwrnod Hwyl i Drigolion' ar gyfer un o'r blociau. Darparon nhw fwyd a hufen iâ am ddim, gan gynnwys digwyddiadau i blant a chastell sboncio, ac roedd hefyd ganddynt gefnogaeth y gymuned leol, gan gynnwys cynghorwyr, yr heddlu a'r gwasanaeth tân. Cafodd Seraph adborth gwych am y digwyddiad, gyda 72% o'r trigolion yn dweud y byddent yn hoffi cymryd rhan mewn prosiectau cymunedol a 63% o'r trigolion yn dweud eu bod wedi cael profiad 'positif iawn' wrth fyw mewn eiddo a reolir gan Seraph.

Asiantaeth osod HAWS

Cartrefi Conwy gyda Chyngor Conwy



Sefydlwyd HAWS fel rhan o Ddatrysiadau Tai Conwy yn 2014. Crëwyd yr asiantaeth i wneud y sector preifat yn fwy hygyrch, i godi safon eiddo yn y sector rhentu

preifat, i ddarparu cefnogaeth i landlordiaid weithio gyda chartrefi a oedd yn derbyn cefnogaeth gyda'u costau tŷ a, pwysicaf oll, i leihau nifer y tenantiaethau a oedd yn methu ac yn creu pwysau ychwanegol arnom ni a'n partneriaid. Maen nhw'n cefnogi landlordiaid a thenantiaid i oresgyn rhwystrau, heriau a chanfyddiadau o weithio gyda'i gilydd.

Ers y cychwyn, mae HAWS wedi ymrwymo at ei hamcanion. Mae hyn wedi bod yn heriol wrth iddynt gystadlu gyda gwasanaethau eraill, fodd bynnag, mae'n bwysig iddynt allu cynnal ffocws cymdeithasol ar eu gwaith gyda'r Sector Rhentu Preifat.

Beth yw Pwynt Gwerthu Unigryw HAWS?

Ni chodwyd ffioedd ymgeisio ar unrhyw ymgeisydd ac mae'r cynllun busnes i gefnogi'r asiantaeth yn seiliedig ar incwm a ddaw gan landlordiaid yn unig i dalu'r costau. Yn ei dro, mae'r costau sefydlu a godir ar landlordiaid yn is nag asiantaethau eraill yn gweithredu yn yr ardal, felly mae landlordiaid yn teimlo eu bod yn cael gwerth am arian. Nid ydynt yn codi unrhyw gostau cudd ychwanegol ar landlordiaid,

mae eu ffioedd yn cynnwys cytundebau tenantiaethau a rhestr eiddo, yn ogystal â chyfeirio a hysbysebu'r eiddo.

Anogir pob ymgeisydd a gysylltir â'r gofrestr tai cymdeithasol i ystyried HAWS fel opsiwn ar gyfer y sector rhentu preifat, gall hyn weithiau olygu bod pobl yn gallu bodloni eu hanghenion tai'n gyflymach neu'n fwy priodol.

Caiff yr ymgeiswyr eu hasesu gan yr asiantaeth gan dderbyn yr un gefnogaeth â thenantiaid tai cymdeithasol, e.e. cefnogaeth gyda rheoli arian er mwyn sicrhau tenantiaeth. Mae HAWS yn cael sgysiau anodd gydag ymgeiswyr am y gost o gynnal tenantiaeth a thalu rhent a biliau. Maen nhw'n agored ac yn glir gyda landlordiaid sy'n derbyn adroddiad llawn ar yr ymgeisydd ac maen nhw'n asesu hyd at bum ymgeisydd fesul eiddo er mwyn rhoi'r dewis gorau posib o denant i'r landlord.

Fe gynhelir archwiliadau ar bob eiddo a reolir gan yr asiantaeth er mwyn sicrhau ei bod yn bodloni gofynion System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai fel isafswm. Cynhelir arolygon asbestos hefyd ar draul

HAWS fel rhan o'r broses reoli er mwyn iddynt allu cynnig eu gwasanaeth atgyweiriadau y tu allan o oriau yn ddiogel i landlordiaid.

Mae HAWS yn gweithio'n agos gydag adrannau Budd-daliadau Tai ac yn gofyn bod unrhyw fudd-daliadau tai yn cael eu talu'n uniongyrchol iddyn nhw gan fod yr asiantaeth yn rhan o sefydliad Cartrefi Conwy. Am yr un rheswm, mae ganddynt hefyd fynediad at borth y landlordiaid ar gyfer Credyd Cynhwysol. Maen nhw wedi taro bargaen gyda'r tîm budd-daliadau tai lleol i ganiatáu taliadau uniongyrchol yn gyfateb, ble fo'n bosib, am osod rhent 10% yn uwch na'r Lwfans Tai Lleol er mwyn iddynt allu cynnig mwy o sicrwydd i landlordiaid os ydynt yn fodlon derbyn hawlwy'r budd-daliadau.

Rydym yn darparu safbwynt y tenant ar y gwasanaeth i landlordiaid sy'n cael tenantiaeth anodd er mwyn arbed cynifer o denantiaethau â phosib, gan ddefnyddio ein profiad gyda chleientiaid anodd i ymrwymo tenantiaid a'n gwybodaeth o'r system budd-daliadau llesiant er mwyn uchafu incwm.

Canlyniadau a chyflawniadau

- mae HAWS wedi ehangu ei waith i weithio mewn ardaloedd awdurdodau lleol eraill
- HAWS yw'r partner o ddewis ar gyfer yr awdurdod lleol a nhw sy'n rheoli eu hunedau llety dros dro yn ogystal â darparu cefnogaeth iddynt reoli eiddo maen nhw wedi'i sicrhau trwy Orchymyn Rheoli Dros Dro
- mae gwaith wedi cael ei wneud ar bob eiddo a reolir ganddynt i wella'r eiddo
- wedi casglu 97% o'r rhent hyd yn hyn yn ystod y flwyddyn hon.
- mae cydymffurfio'n hanfodol. mae pob tystysgrif nwy a thrydan wedi'u gwirio. Mae pob eiddo'n cael arolwg asbestos os yw'n cael ei reoli'n llawn
- roedd 50% o denantiaid a gafodd eu symud i mewn i eiddo'n ddigartref
- sefydlwyd cynllun busnes ac mae'n parhau i beidio â bod yn ddibynnol ar ffioedd ymgeisio am incwm
- mae gan HAWS frand unigryw, logo, gwefan a phresenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol
- mae HAWS yn rhedeg eu digwyddiadau am ddim eu hunain ar gyfer landlordiaid ac maen nhw'n bartner allweddol mewn fforymau landlordiaid lleol gyda hyd at 70 landlord yn mynychu.

Calon residential living

Cymdeithas Tai Cadwyn gyda Chyngor Dinas Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent



Yr her?

Darparu llety dros dro, diogel, wedi'i reoli'n dda mewn marchnad gystadleuol gyda rhent preifat anfforddiadwy, diffyg tai cymdeithasol, rhestrau aros hir, gostyngiadau mewn grantiau tai cymdeithasol a'r lefel uchaf erioed o ddigartrefedd.

Cysyniad Calon

Datrysiad tai arloesol yn defnyddio ei brofiad yn y Sector Rhentu Preifat, fe greodd Calon wasanaeth wedi'i deilwra ar gyfer yr awdurdod lleol.

Beth oedd ei angen?

- Portffolio o gartrefi sy'n cyd-fynd â'r cyflenwad a galw uchel.
- Tai o ansawdd da ar draws y ddinas.
- Cefnogaeth ar gyfer teuluoedd digartref.
- Pecyn deniadol i landlordiaid.

Sut aeth Calon ati i fodloni'r galw?

Sefydlodd Cadwyn fodel hunan-ariannu, gan greu partneriaeth gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a landlordiaid preifat i brydlesu eiddo. Roedd y rhenti cymdeithasol yn lleddfu baich y rhenti preifat a delir ar farchnad agored.

Roedd y cynnig deniadol yn lleihau'r risg i landlordiaid preifat. Trwy gynnig rhent sicr, dim ffioedd, dim cyfnodau gwag a gwasanaeth atgyweiriadau llawn, mae Calon yn darparu gwerth am arian. Wrth sicrhau llety rhent preifat, maen nhw'n darparu mwy o dai ac yn cael mynediad at eiddo nad oedd o fewn cyrraedd yn flaenorol.

Mae Calon yn cyflwyno gwasanaeth o'r radd flaenaf gyda staff hynod brofiadol â phrofiad o arolygu eiddo, gwaith cynnal a chadw, rhent, budd-daliadau llesiant a rheoli tenantiaethau.

Mae ganddynt weithdrefnau cadarn i reoli tenantiaethau ac eiddo sy'n sicrhau bod nifer o bobl yn gallu cyrchu eu stoc, bod yna gefnogaeth i denantiaid a bod y cyfraddau llwyddiant o symud i eiddo parhaol yn cael eu cyflawni.

Mae Calon wedi parhau i fod yn arloesol mewn marchnad tai newidiol ac yn ystod cyfnod o newidiadau yn y sector, gan gynnwys Diwygio Lles.

Mae'r heriau hyn wedi golygu maint cyfyngedig o elw a'u gorfodi i adolygu gweithrediadau tra'n cynnal lefel uchel o wasanaeth i'n cwsmeriaid.

Dywedodd Leah Whitty, Rheolwr Diwygio gyda Chyngor Caerdydd: "Mae Cyngor Caerdydd wedi gweithio'n helaeth gyda Calon i leddfu effeithiau'r Cap Budd-daliadau. Ymrwymodd Calon at dderbyn ein hatgyfeiriadau digartref er gwaethaf y risg ariannol posib i'r sefydliad. Roedd Calon yn bartner hanfodol wrth ddatblygu pecyn o gefnogaeth i gynorthwyo teuluoedd a effeithiwyd arnynt gan y cap budd-daliadau. Mae hyn yn cynnwys darparu hawl Budd-dal Tai amcanol er mwyn gweithio'n rhagweithiol gyda thrigolion, gan ddatblygu cynllun Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn i alinio'r cap budd-daliadau i gyfraddau'r Lwfans Tai Lleol er mwyn sicrhau na fod y sefyllfa'n effeithio ar drigolion mewn modd anghyfartal. Mae Calon yn bartner hanfodol wrth baratoi trigolion ar gyfer y byd gwaith, gan gyrchu cefnogaeth gan Wasanaethau Cyngor i Mewn i Waith Caerdydd a chynllun Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn y Cap Budd-daliadau."

Mae Calon yn gweithredu gwasanaeth rhoi gwybod am atgyweiriadau 24 awr y diwrnod ynghyd â chynllun cynnal a chadw boeleri i landlordiaid. Mae ei ap i denantiaid yn rhoi mynediad at gyfrifon rhent ac yn darparu modd syml o roi gwybod am atgyweiriadau a'u holrhain, sy'n golygu bod ei gwasanaethau ar gael 24/7.

Mae gweithio mewn partneriaeth â Swalec wedi caniatáu i Calon osod mesuryddion clyfar yn ei eiddo gan ganiatáu i denantiaid gymryd rheolaeth o'r hyn maen nhw'n ei wario ar ynni.

Eiddo gwag yw'r maes gyda'r risg uchaf ac er mwyn lleddfu hyn, mae Calon yn cyflogi tîm eiddo gwag penodol i arolygu, asesu ac atgyweirio eiddo i'r safon a gytunwyd ac er mwyn lleihau nifer y cyfnodau gweigion.

Mae gweithio mewn partneriaeth â thimau Opsïynau Tai yn sicrhau bod unrhyw denantiaid mewn perygl o fethu ar eu tenantiaeth yn cael eu cefnogi mewn modd rhagweithiol i lwyddo.

Mae eiddo gwag yn adnodd gwastraff ac mae Calon wedi cwblhau gwelliannau a didynnu'r gost o daliadau rhent yn y dyfodol er mwyn sicrhau y gellir eu defnyddio unwaith eto.

Calon yw'r partner tai ar gyfer peilot eiddo addasedig i leddfu'r baich ar y GIG, sydd eisoes yn hynod brysus, mewn perthynas â blocio gwelyau.

Mae 19% o denantiaid Calon yn siarad Saesneg fel ail iaith, felly mae ei staff yn defnyddio gwasanaethau cyfieithu ar y pryd er mwyn sicrhau bod yr ohebiaeth a'r cyngor yn glir a bod y tenantiaid yn ei deall.

Mae dull arloesol Calon at brosiectau'n golygu mai nhw bellach yw'r dewis cyntaf o bartner ar gyfer

prosiectau'r Awdurdod Lleol. Nhw yw'r darparwr tai ar gyfer Prosiect Ffoaduriaid Syria sydd wedi lletya deg teulu o ffoaduriaid ac sydd ar fin lansio ei brosiect cynwysyddion ar gyfer tai ar 18 Rhagfyr.

Canlyniadau a chyflawniadau

- y darparwr mwyaf o lety dros dro yng Nghymru
- 3,343 tenantiaeth
- heb ddefnyddio llety gwely a brecwast yng Nghaerdydd am naw mlynedd
- wedi ehangu i Flaenau Gwent a Merthyr Tudful
- 299 llety wedi'u gosod
- 43% o eiddo landlordiaid preifat
- 0.67% cyfradd landlordiaid yn tynnu allan
- trosi 31 eiddo y mis i'w hail-osod
- cyfradd troi allan o 0.6%
- ôl-daliadau rhent o 1.5%.

"Diolch i chi am ofalu am ein heiddo dros y 6 blynedd ddiwethaf, mae wedi bod yn brofiad da iawn." James Hewett, Landlord

"Mae ein partneriaeth gyda Calon yn ein cynorthwyo'n fawr o ran darparu llety dros dro, diogel ac addas i deuluoedd ac unigolion sydd wedi dod yn ddigartref. Mae'r bartneriaeth yn arloesol gan ei fod yn gweithio i sicrhau bod pobl yn cynnal eu llety dros dro yn llwyddiannus ac yn symud ymlaen yn annibynnol." – Laura Garvey, Cyngor Caerdydd

"Perffaith, mae pob un ohonoch chi'n hyfryd ac yn gwneud gwaith da iawn." - Mr Idowu Ogunkoya, tenant

"Nid yw pob llety dros dro cystal â hwn, ces i fyth unrhyw broblemau. Roedd holl dîm Calon yn wych, roedd yr eiddo'n hyfryd ac rwy'n gobeithio, nawr fy mod yn symud i fy nghartref newydd parhaol, y bydd y llety a'r landlord cystal." - Fanta Ndoeka, tenant

"Lleoliad gwych ar gyfer ysgol fy mhlant. Staff cyfeillgar, rwy'n gwerthfawrogi eu gwasanaeth yn fawr." Samantha Reynolds, Tenant

Adore Cardiff

Cymdeithas Tai Taf



Gwasanaeth Gwerthu a Gosod Adore yw menter fasnachol cyntaf Cymdeithas Tai Taf ac fe'i lansiodd yn 2013. Dyma'r unig asiantaeth nid er elw yng Nghaerdydd. Mae'r asiantaeth yn anelu at adeiladu perthynas hir dymor gyda landlordiaid, tenantiaid a gwerthwyr. Maen nhw'n gwbl dryloyw, gan ddarparu prisiau cywir gyda'u gwybodaeth leol a gan roi'r cwsmer yn gyntaf ar bob adeg. Maen nhw'n cynnig cyfraddau cystadleuol gyda'r bonws o wybod bod y

ffioedd yn buddio'r gymuned leol. Yn ddigon bach i boeni o ddifri am eu tenantiaid a landlordiaid, mae Adore yn deall mai pobl sydd bwysicaf a dyna pam mae buddsoddiad yn y gymuned wedi'i ymgorffori yng ngweledigaeth, gwerthoedd ac arferion Adore.

Yn gynharach eleni, roedd Bwrdd Taf eisiau cynyddu nifer yr aelodau a oedd yn gyfranddalwyr, ymhlith eu tenantiaid eu hunain a'r gymuned yn ehangach, felly aethant ar Adore am gyngor. Mae holl gwsmeriaid Adore bellach yn cael eu gwahodd i ddod yn gyfranddalwyr ac mae hyn yn helpu cryfhau perthnasoedd lleol a chysylltiadau agosach o fewn y gymuned. Mae hefyd yn helpu hyrwyddo'r amrediad eang o waith a wneir gan Taf.

Agorodd bwrdd Taf yr aelodaeth â chyfrannau i'r gymuned ehangach er mwyn tynnu sylw at y ffaith eu bod yn darparu mwy na gwasanaethau tai, er mai cymdeithas tai ydyn nhw yn y bôn. Mae'r penderfyniad i gynyddu aelodaeth â chyfrannau ymhlith eu tenantiaid eu hunain a'r gymuned yn ehangach wedi rhoi cyfle i dyfu perthnasoedd lleol ac adeiladu cysylltiadau agosach o fewn y gymuned y mae Adore a Chymdeithas Tai Taf yn elwa ohonynt.

Mae Adore yn rhoddi 15% o holl ffioedd gwerthiannau + holl elw arall yr asiantaeth i Gymdeithas Tai Taf, sy'n golygu bod ffioedd cwsmeriaid yn gwneud mwy na thalu costau'n unig. Caiff yr elw o werthiannau ei roi

mewn cronfa gymunedol y gall Cyfranddalwyr Taf bleidleisio arni a phenderfynu pan rai o brosiectau Taf bydd yn cael eu hariannu gan rodd Taf. Mae'r gronfa gymunedol, o'r enw 'Gwobr Dewis y Cyfranddalwyr', yn rhoi cyfle i gyfranddalwyr Taf bleidleisio ar amrediad o opsiynau a fydd yn cael dylanwad/budd cadarnhaol ar fywydau pobl. Mae'r opsiynau'n amrywio o gyfleoedd swyddi a hyfforddiant, i deithiau sgiliau bywyd a fydd yn cynyddu hyder a lleihau unigedd ymysg rhag o'n trigolion mwyaf bregus. Caiff cwsmeriaid Adore eu gwahodd i'r digwyddiadau hyn pan maen nhw'n dod yn gyfranddaliwr o Gymdeithas Tai Taf, er mwyn iddynt allu dylanwadu'n uniongyrchol ar le gaiff eu harian ei fuddsoddi.

Nid yw eu hethos cymunedol yn ymwneud â Gwobr Dewis y Cyfranddalwyr yn unig; trwy gydol y flwyddyn, mae tîm Adore yn noddï timau/digwyddiadau lleol ac yn rhoddi i achosion gwerth chweil o fewn y gymuned leol. Yn y flwyddyn ddiwethaf, maen nhw wedi cyfrannu at y gymuned mewn sawl ffordd, gan gynnwys: rhoddi cymysgwr sbeisys trydanol i ddyn o Syria a oedd newydd gyrraedd yn y wlad ac a oedd yn gogydd wrth ei grefft, noddï tîm pêl-droed lleol a gweithio gydag Ysgol Gynradd Heol Kitchener - gan ganiatáu i'r plant ddylunio eu taflenni a phosteri. Mae'r ymrwymiad parhaus hwn at ddarparu cyfleoedd o fewn y gymuned yn sicrhau bod Adore yn sefyll allan o asiantaethau gwerthu a gosod preifat eraill.

Mae Adore yn falch o'i gyfradd bodlonrwydd cwsmeriaid ardderchog. Gan ganolbwyntio ar wella enw da'r diwydiant gwerthu a gosod, un cwsmer hapus ar y tro, mae Adore yn derbyn adborth positif gan gwsmeriaid yn rheolaidd ac mae ganddo 100% o Adolygiadau 5* ar Google.

5* - "Hynod broffesiynol, hawdd gweithio gyda nhw ac maen nhw'n cadw buddion pennaf y bobl sy'n symud i mewn a'r landlordiaid mewn cof. Roedd popeth yn broses syml iawn ac yn dryloyw IAWN. Dim ffioedd cudd, roedd popeth yn glir ac mewn telerau du a gwyn. Baswn yn argymhell y cwmni hwn yn fawr iawn ac yn ddiamod ar gyfer eich anghenion prydles i - byddant yn gofalu amdanoch ac yn eich uno â'ch cartref newydd. Rwyf wedi mwynhau gweithio gyda nhw'n fawr iawn."

- Marc Williams, Landlord, Adolygiad Google, Mehefin 2018.

Bellach yn ei 5ed mlynedd, mae Adore yn gwneud argraff ar y diwydiant gwerthu a gosod. Gyda tîm proffesiynol a gwybodus, maen nhw'n brysur yn dod y dewis cyntaf o asiant nid er elw yn Ne Cymru, gydag enw da am wasanaeth gwyh i gwsmeriaid.

Canlyniadau a chyflawniadau

Mae Adore wedi datblygu lefelau ardderchog o wasanaeth i gwsmeriaid gan sicrhau eu bod yn mynd y filltir ychwanegol ar gyfer eu cleientiaid. Beth bynnag y sefyllfa, maen nhw'n sicrhau bod modd dod o hyd i ddatrysiaid gyda chyn lleied o drafferth i'r cwsmer â phosib. Mae mwyafrif helaeth eu cwsmeriaid eisiau rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned lle mae eu heiddo wedi'i leoli.

5* - "Ar ôl damwain, roedd rhaid i mi osod eiddo ro'n i newydd ei brynu i fyw ynddo. Fe ofalodd Adore am bopeth a gwneud sefyllfa anodd gymaint yn haws i mi, gallwn i heb fod wedi gofyn am wasanaeth gwell. Yn ddiweddar fe benderfynais werthu'r eiddo ac unwaith eto gydag Adore, aeth y gwerthiant drwodd yn sydyn iawn a chafodd ei werthu ar yr ymweliad cyntaf am y pris gofyn llawn! Baswn yn argymhell Adore yn fawr iawn!"

- Miss Case, Landlord/Gwerthwr, Adolygiad Facebook, Hydref 2016

Cyflwynwyd Gwobr Dewis y Cyfranddalwyr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mae'r elw o werthiannau bellach mewn cronfa yn aros i'r Cyfranddalwyr bleidleisio dros eu hoff brosiectau yn ei Gyfarfod Cyffredinol Blynnyddol. Ymhlith y prosiectau mae - Sesiynau coginio ar gyllideb ar gyfer Tenantiaid Tai Taf a Defnyddwyr Gwasanaeth sydd ar incwm isel; neu Ddiwrnod Sgiliau Bywyd ar gyfer y menywod ifainc, digartref sy'n byw yn Hostel Tŷ Seren. Mae 51 yn fwy o aelodau bellach yn gyfranddalwyr.